``

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy

# Strategaeth a Ffefrir

**Rhagfyr 2022**

monmouthshire
sir fynwy

## Cyngor Sir Fynwy

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

# Strategaeth a Ffefrir

## Rhagfyr 2022


**Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**Cyngor Sir Fynwy**

Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA

**Ffôn:** 01633 644429

**E-bost:** planningpolicy@monmouthshire.gov.uk

## Strwythur y Strategaeth a Ffefrir

Cafodd y ddogfen hon ei strwythuro fel sy'n dilyn:

**Crynodeb Gweithredol**

**Adran 1: Cyflwyniad** – Rhoi crynodeb o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) a'r cynnydd hyd yma, amlinellu'r hyn yw'r Strategaeth a Ffefrir, sut y caiff ei pharatoi a'r camau allweddol nesaf ym mhroses y CDLlN.

**Adran 2: Cyd-destun** – Cyflwyno trosolwg/proffil o'r Sir gan amlinellu nodweddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol Sir Fynwy

**Adran 3: Materion, Heriau a Chyfleoedd Allweddol –** Crynodeb o'r materion allweddol, heriau a chyfleoedd yn Sir Fynwy.

**Adran 4: Fframwaith Strategol y CDLlN** – Amlinellu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLlN, gosod yr Opsiwn Twf a Gofodol a Ffefrir (h.y. y Strategaeth a Ffefrir) a'r diagram allweddol.

**Adran 5: Gweithredu a Chyflenwi** – Gosod y Polisïau Strategol a dynodi'r Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir ar gyfer ein Prif Aneddiadau.

**Atodiadau** – manylion pellach yng nghyswllt cyfnodau allweddol y CDLlN; tystiolaeth gefnogi'r Strategaeth a Ffefrir; cyd-destun deddfwriaethol a pholisi a dylanwadau allweddol ar y Cynllun; Materion y CDLlN; Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir, ac adolygiad o'r polisïau Rheoli Datblygu a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Crynodeb Gweithredol | **i** |
| **1.** | Cyflwyniad | **1** |
| **2.** | Cyd-destun | **5** |
| **3.** | Materion Allweddol, Heriau a Chyfleoedd | **10** |
| **4.** | Fframwaith Strategol y Cynllun Datblygu Lleol | **17** |
| **5.** | Gweithredu a Chyflenwi – Polisïau Strategol | **41** |

Atodiadau:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Camau Allweddol y CDLlN | **100** |
| 2. | Dogfennau Cefnogi y CDLlN | **103** |
| 3. | Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi | **108** |
| 4. | Materion y CDLlN | **112** |
| 5. | Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir | **122** |
| 6. | Elfennau Cyflenwad Tai y CDLlN | **132** |
| 7. | Adolygid o Bolisïau Rheoli Datblygu y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig | **135** |

## Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

i. Mae Cyngor Sir Fynwy yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal sydd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033. Ar ôl ei fabwysiadu, hwn fydd y cynllun defnydd tir statudol i gefnogi cyflenwi diben creiddiol y Cyngor o ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas pawb ar bob cam bywyd[1]. Bydd y CDLlN yn cyflwyno cynigion datblygu defnydd tir ar gyfer y Sir ac yn dynodi faint o ddatblygiad newydd fydd yn digwydd hyd at 2033 a lle caiff ei leoli. Bydd hefyd yn dynodi ardaloedd i gael eu gwarchod rhag datblygiad a rhoi polisïau y caiff ceisiadau cynllunio y dyfodol eu hasesu arnynt.

ii. Bydd y CDLlN yn cyflawni amcanion y Cyngor ac yn cyfarch problemau craidd darparu nifer ddigonol o gartrefi fforddiadwy yn gyflym, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy gyflenwi cartrefi newydd parod di-garbon net mewn lleoedd da, a sicrhau fod ein cymunedau yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac economaidd drwy ddenu a chadw pobl iau i sicrhau cydbwysedd yn ein demograffig heneiddiol.

iii. O 5 Rhagfyr 2022 i 30 Ionawr 2023, gofynnwn am eich sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir a gynigir. Mae manylion sut i gymryd rhan ar gael ar ein gwefan.

### Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?

iv. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a defnydd tir dros gyfnod y Cynllun 2018 i 2033.

- Mae Adran 2 yn nodi proffil y Sir;
- Mae Adran 3 yn dynodi materion allweddol, heriau a chyfleoedd ar gyfer y Sir;
- Mae Adran 4 yn datblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y CDLlN sy'n ymateb i'r materion allweddol, heriau a chyfleoedd, ac yn gosod graddfa twf y dyfodol mewn poblogaeth, tai a swyddi (Polisi Strategol S1) a dosbarthiad gofodol twf (Polisi Strategol S2); ac mae
- Adran 5 yn nodi'r safleoedd strategol a ffefrir a'r polisïau strategol i gyflenwi'r strategaeth (Polisïau Strategol S3 Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dyluniad Ansawdd Uchel, S4 Newid Hinsawdd, S5 Darpariaeth Seilwaith, S6 Cartrefi Fforddiadwy, S7 Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir, S8 Sipsiwn a Theithwyr, S9 Trafnidiaeth Gynaliadwy, S10 Canol Trefi a Chanolfannau Lleol a Chymdogaeth, S11 Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden, S12 Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth, S13 Mentrau Gwledig, S14 Economi Ymwelwyr, S15 Rheoli Gwastraff mewn modd Cynaliadwy, S16 Mwynau a S17 Seilwaith Gwyrdd, Tirlun a Cadwraeth Natur.

[1] Mae drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 yn nodi diben craidd, egwyddorion a blaenoriaethau'r Cyngor. Cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Hydref 2022 a rhoddir adroddiad ar fersiwn wedi'i ddatblygu i'r Cyngor ym mis Ionawr 2023.

v. Mae'r diagram isod yn dangos y broses creu Cynllun.

**Proses CDLlN**

| |
|---|
| Mae paratoi'r CDLlN yn broses cam wrth gam. Y camau allweddol ar gyfer CDLlN Sir Fynwy yw:<br>1 **Cytundeb Cyflenwi** Amserlen ffurfiol y Cynllun a chynllun ymgyfraniad cymunedol<br>2 **Casglu Tystiolaeth** Data cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol sy'n sail i'r cynllun<br>3 **Strategaeth a Ffefrir** Gosod faint o dwf a ble yr aiff hynny<br>4 **Cynllun Adnau** Fersiwn drafft o'r Cynllun fydd yn dynodi safleoedd a gynigir ar gyfer defnyddiau penodol<br>5 **Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu** Cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru a'i archwilio gan arolygydd cynllunio annibynnol. Gellir mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol os canfyddir ei fod yn gadarn<br>6 **Monitro ac Adolygu** Adolygu'n flynyddol i fonitro effeithlonrwydd y Cynllun |

## Dogfennau Cefnogi

vi. Cynhaliwyd Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar y Strategaeth a Ffefrir, oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith a'r Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae'r Gwerthusiad yn asesu i ba raddau y bydd y cynigion a pholisïau sy'n dod i'r amlwg yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach y CDLlN. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd ar y Strategaeth a Ffefrir.

vii. Bydd Cynllun Seilwaith, Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi ei ddiweddaru a Strategaeth Datblygu Economaidd hefyd yn cyd-fynd â'r CDLlN.

## Y Strategaeth a Ffefrir

viii. Mae'r Strategaeth a Ffefrir:

a. **yn gwneud darpariaeth ar gyfer tua 5,400 - 5,940 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun 2018-2033**[2] (Polisi Strategol S1). Mae hyn yn cynnwys tua 1,580 - 1,850 o gartrefi fforddiadwy (Polisi Strategol S6). Gan fod tua 3,740 o gartrefi yn y gronfa tir ar hyn o bryd[3], **caiff tir ei ddyrannu ar gyfer tua 1,660 - 2,200 o gartrefi newydd.** yn cynnwys 830 - 1,100 o gartrefi fforddiadwy newydd.

b. yn gosod y fframwaith polisi cynllunio i **alluogi darparu tua 6,240 o swyddi ychwanegol drwy ddyrannu digon o dir cyflogaeth a drwy gynnwys polisïau i hwyluso twf economaidd** (Polisi Strategol S12). Caiff y CDLlN ei gefnogi gan strategaeth datblygu economaidd.

---

[2] Yn unol â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2020), gwneir lwfans darpariaethol ar gyfer lwfans hyblygrwydd o 10% i gynnwys safleoedd na fyddant efallai yn dod ymlaen, problemau nas rhagwelwyd neu i gyflawni dymuniad uwhc i'r Sir i alluogi darparu/cyflenwi safleoedd ychwanegol os caiff pob safle eu cyflenwi. Caiff y lwfans hyblygrwydd ei ystyried ymhellach a'i fireinio ar y cam Adnau.

[3] Gan fod cyfnod y Cynllun eisoes wedi dechrau (2018) cafodd rhai o'r cartrefi yn y gronfa tir eu hadeiladu eisoes, maent wrthi'n cael eu hadeiladu neu mae ganddynt ganiatâd cynllunio. Mae ffigur y gronfa tir hefyd yn rhoi ystyriaeth i safleoedd ar hap a safleoedd bach.

c. **canolbwyntio twf yn aneddiadau mwyaf cynaliadwy y Sir sef y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed (yn cynnwys Glannau Hafren)** (Polisi Strategol S2). Oherwydd diffyg dynodi datrysiad strategol ar gyfer triniaeth ffosffadau yng ngwaith triniaeth dŵr Gwastraff Trefynwy o fewn cyfnod y Cynllun, **ni chynigir unrhyw ddyraniadau safle newydd ym mhrif anheddiad Trefynwy** nac o fewn dalgylch rhannau uchaf yr Afon Gwy i'r gogledd o bont Bigsweir.

d. dynodi **dyraniadau safleoedd strategol a ffefrir** ym mhrif aneddiadau y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed, yn cynnwys Glannau Hafren ;

e. cyfyngu effaith newid hinsawdd drwy sicrhau bod **cartrefi newydd yn barod ar gyfer di-garbon net a gyda chysylltiadau da gydag aneddiadau presennol,** gan rhoi lleoedd deniadol a hygyrch i fyw a gweithio ynddynt;

f. **cyflwyno polisïau strategol** ar amrywiaeth o feysydd pwnc, yn adlewyrchu'r pedair thema creu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC rhifyn 11, 2021).

ix. Heb ddatrysiad strategol wedi ei ddynodi i gyfyngiad amgylcheddol ansawdd dŵr yn nalgylch rhannau uchaf yr Afon Gwy, ni all y Strategaeth a Ffefrir gyflenwi amcanion y Cyngor, yn cynnwys cyflenwi cartrefi fforddiadwy newydd, yn y rhan honno o'r Sir. Pe byddai'r sefyllfa honno yn newid yn ystod cyfnod y Cynllun, gellid datblygu safleoedd ar hap o fewn ffiniau aneddiadau. Cynigir cynnwys tri safle o fewn ffin anheddiad Trefynwy nad ydynt yn medru mynd rhagddynt ar hyn o bryd oherwydd ansawdd dŵr: y dyraniadau cyfredol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Fferm Drewen, ger Heol Wonastow (tua 110 cartref) ac yn Heol Tudor, Wyesham (tua 35 cartref) a thir gyda chaniatâd cynllunio yn Heol Rockfield (tua 130 cartref). Nid yw'r safleoedd hyn yn cyfrif tuag at y ffigur tai.

x. Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad dangosol y twf tai a gynigir. Mae gwahanol elfennau sy'n cyfrannu tuag at y 5,940 o gartrefi (5,400 ynghyd â 10% hyblygrwydd) yn cynnwys cartrefi a gafodd eu hadeiladu eisoes ers 2018 (1,579 cartref), safleoedd gyda chaniatâd cynllunio y mae'n realistig y gellir eu hadeiladu (1,263 cartref), safleoedd bach a safleoedd ar hap (900 cartref) a dyraniadau safle newydd (2,200 cartref).


## Crynodeb Dosbarthiad Gofodol Dangosol Darpariaeth Tai *

| Anheddiad | Cyfanswm Ymrwymiadau | | Strategaeth a Ffefrir | | Cyfanswm Darpariaeth Tai 2018-2033* Cwblhadau 2018-2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cwblhadau 2018-2021 | Ymrwymiadau Presennol | Cyfanswm Lwfansau (Safleoedd Bach; Ar Hap) | Dyraniadau Tai Newydd (Anheddau) y CDLlN | |
| Y Fenni (yn cynnwys Llan-ffwyst) | 426 | 132 | 245 | 600 | 1,403 |
| Cas-gwent | 192 | 267 | 165 | 145 | 769 |
| Trefynwy (yn cynnwys Wyesham) | 264 | 11 | 0 | 0 | 275 |
| Cil-y-coed (yn cynnwys Glannau Hafren) | 466 | 723 | 220 | 1,200 | 2,609 |
| Aneddiadau Eilaidd | 100 | 45 | 80 | 155 | 380 |
| Aneddiadau Gwledig | 131 | 83 | 190 | 100 | 504 |
| **Cyfanswm** | **1,579** | **1,261** | **900** | **2,200** | **5,940** |

*Mae'r ffigurau yn cynnwys lwfans hyblygrwydd dangosol o 10% a gaiff ei ystyried a'i fireinio ymhellach ar gam y Cynllun Adnau. Gall y dosbarthiad gofodol newid yn dilyn gwaith asesu safle manwl.

xi. Caiff y Strategaeth a Ffefrir ei darlunio yn y Diagram Allweddol isod.


**Diagram allweddol o'r Strategaeth a Ffefrir**




xii. rMae’r Strategaeth a Ffefrir yn dynodi tri Dyraniad Safleoedd Strategol a Ffefrir, a rhoddir manylion isod.

## Lleoliad Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir


**Dwyrain y Fenni**




**Bayfield, Cas-gwent**




**Dwyrain Cil-y-coed**



### Manylion y Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir

| Enw'r Safle | Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Maint (Ha) | Defnydd a Gynigir | Nifer cartrefi a gynigir yng ngheisiadau safleoedd ymgeisiol | Nifer fras cartrefi o fewn cyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Fenni (Dwyrain)** | **CS0213** | **24.75** | **Defnydd Cymysg: Preswyl, Cyflogaeth, Manwerthu, Hamdden, Addysg a Defnydd Cymunedol** | **635** | **500** |
| **Bayfield, Cas-gwent** | **CS0098** | **10.07** | **Preswyl** | **145** | **145** |
| **Cil-y-coed (Dwyrain)** | **CS0087 CS0251** | **67.67** | **Defnydd Cymysg: Preswyl, Cyflogaeth, Manwerthu, Hamdden** | **1460** | **925** |

xiii. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn ei gwneud yn ofynnol dyrannu 38ha o dir cyflogaeth yn cynnwys:

a. B1: 3.5ha
b. B2: 9.2ha
c. B8: 25.2ha

## Y Camau Nesaf

xiv. Ynn dilyn yr ymgynghoriad ac ymgyfraniad rhanddeiliaid ar y Strategaeth a Ffefrir, bydd y Cyngor yn cwblhau'r CDLlN a'i roi ar Adnau. Bydd manylon adborth o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn yr Adroddiad Ymgynghori ar y Strategaeth. Mae'n rhaid i'r adroddiad gyd-fynd ag Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig y CDLlN a dogfennau cefnogi arall ar Adnau, yn unol â Rheoliad 17 Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd 2015). Rhoddir adroddiad i'r Cyngor ar grynodeb o'r materion allweddol a godwyd drwy'r ymgynghoriad a'r Strategaeth a Ffefrir gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol yn y Gwanwyn 2023 i geisio cymeradwyaeth i'r Strategaeth a Ffefrir. Caiff y Cynllun Adnau wedyn ei baratoi a'i ystyried gan y Cyngor cyn ymgynghoriad statudol ac ymgysylltu yn ystod Gwanwyn 2024.

xv. Yn dilyn ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau ac ystyried y materion a godwyd, caiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fydd yn penodi Arolygydd annibynnol i archwilio'r CDLlN. Gan roi ystyriaeth i'r dystiolaeth a'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad Adnau, mae'n rhaid i'r Arolygydd benderfynu os yw'r CDLlN* yn gydnaws gyda'r 'profion cadernid' a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

xvi. Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn argymell unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r CDLlN. Bydd adroddiad yr Arolygydd yn rhwymo ac mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau a mabwysiadu'r CDLlN fel y'i diwygiwyd.

Unwaith y cafodd ei fabwysiadu, bydd y CDLlN yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig.

# 1 Cyflwyniad

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

1.1 Mae Cyngor Sir Fynwy yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal sydd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033. Ar ôl ei fabwysiadu, hwn fydd y cynllun defnydd tir statudol i gefnogi cyflenwi diben creiddiol y Cyngor o ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas pawb ar bob cam bywyd[4]. Bydd y CDLlN yn cyflwyno cynigion datblygu defnydd tir ar gyfer y Sir ac yn dynodi faint o ddatblygiad newydd fydd yn digwydd hyd at 2033 a lle caiff ei leoli. Bydd hefyd yn dynodi ardaloedd i gael eu gwarchod rhag datblygiad a rhoi polisïau y caiff ceisiadau cynllunio y dyfodol eu hasesu arnynt.

1.2 Bydd y Cynllun yn cyflawni amcanion y Cyngor ac yn cyfarch problemau craidd darparu nifer ddigonol o gartrefi fforddiadwy yn gyflym, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy gyflenwi cartrefi newydd parod di-garbon net mewn lleoedd da, a sicrhau fod ein cymunedau yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac economaidd drwy ddenu a chadw pobl iau i sicrhau cydbwysedd yn ein demograffig heneiddiol

1.3 Caiff y CDLlN ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig (Rhagfyr 2022) sy'n nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun a'r dull gweithredu ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned. Y Strategaeth a Ffefrir yw'r cyntaf o gamau ymgynghori statudol proses y CDLlN. Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg bras o broses y Cynllun hwn.

**Ffigur 1: Proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

| |
|---|
| Mae paratoi'r CDLlN yn broses cam wrth gam. Y camau allweddol ar gyfer CDLlN Sir Fynwy yw:<br>1 **Cytundeb Cyflenwi** Amserlen ffurfiol y Cynllun a chynllun ymgyfraniad cymunedol<br>2 **Casglu Tystiolaeth** Data cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol sy'n sail i'r cynllun<br>3 **Strategaeth a Ffefrir** Gosod faint o dwf a ble yr aiff hynny<br>4 **Cynllun Adnau** Fersiwn drafft o'r CDLlN fydd yn dynodi safleoedd a gynigir ar gyfer defnyddiau penodol<br>5 **Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu** Cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru a'i archwilio gan arolygydd cynllunio annibynnol. Gellir mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol os canfyddir ei fod yn gadarn<br>6 **Monitro ac Adolygu** Adolygu'n flynyddol i fonitro effeithlonrwydd y Cynllun |

[4] Mae drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 yn nodi diben craidd, egwyddorion a blaenoriaethau'r Cyngor. Cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Hydref 2022 a rhoddir adroddiad ar fersiwn wedi'i ddatblygu i'r Cyngor ym mis Ionawr 2023.

1.4 Bu'r CDLlN drwy nifer o gyfnodau cynllun allweddol ers dechrau'r Cynllun yn 2018. Mae trosolwg o ystyriaethau cynnydd ac allweddol pob cam ar gael yn Atodiad 1. Mae nifer o heriau wedi codi, sy'n effeithio ar gynnydd ac sydd angen eu hystyried ymhellach ar y cam perthnasol. Mae'r heriau hyn yn cynnwys cyhoeddi rhagamcaniadau poblogaeth wedi eu diweddaru gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018, pandemig Covid-19, gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru i Strategaeth a Ffefrir Mehefin 2021, a materion ffosffadau ac amgylchedd dŵr yn nalgylchoedd yr Afon Gwy a'r Afon Wysg. Paratowyd Strategaeth a Ffefrir newydd mis Rhagfyr 2022 gan roi ystyriaeth i'r heriau a brofwyd gan hefyd sicrhau fod y CDLlN yn cyflawni ei Weledigaeth ac Amcanion.

### Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?

1.5 Prif ddiben y Strategaeth a Ffefrir yw rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a defnydd tir yn Sir Fynwy (ac eithrio'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) dros gyfnod y Cynllun 2018 i 2033. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn:

- dynodi materion allweddol, heriau a chyfleoedd ar gyfer y Sir;
- datblygu gweledigaeth a set o amcanion ar gyfer y CDLlN sy'n ymateb i'r materion, heriau a chyfleoedd allweddol;
- gosod allan raddfa twf poblogaeth, tai a swyddi y dyfodol a sefydlu dosbarthiad gofodol twf; a
- gosod allan y dyraniadau safleoedd strategol a ffefrir a pholisïau strategol i gyflenwi/gweithredu'r strategaeth (gweler Adran 5).

1.6 Mae Rheoliad 15 Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol[5] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gynigion cyn-Cynllun Adnau (Strategaeth a Ffefrir) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cyn penderfynu ar gynnwys ei Gynllun Adnau. Y Strategaeth a Ffefrir yw cam ymgynghori statudol cyntaf proses baratoi'r CDLlN. Caiff ei lywio gan, ac mae'n cynrychioli cwblhau cyfnod o baratoi ac ymgysylltu cyn y Cynllun Adnau (y cyfeirir ato uchod).

1.7 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhoi'r fframwaith strategol ar gyfer paratoi polisïau, cynigion a dyraniadau defnydd tir mwy manwl yn y dyfodol a gaiff eu cynnwys yn y CDLlN Adnau. Bydd y Cynllun yn mynd ati i gyflawni diben craidd y Cyngor o ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas ar gyfer pawb ar gyfer pob cam o fywyd.

1.8 Fel y dangosir yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig, sylweddolir fod llawer o bolisïau'r Cynllun Mabwysiedig yn gweithio yn effeithlon ac mai dim ond mân newidiadau fydd eu hangen iddynt i adlewyrchu newidiadau cyd-destun a diweddariadau polisi cenedlaethol.

[5] Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd 2015)

1.9 Cynhaliwyd Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig ar y Strategaeth a Ffefrir, oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith a'r Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae'r Gwerthusiad yn asesu i ba raddau y bydd y cynigion a pholisïau sy'n dod i'r amlwg yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach y CDLlN. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd ar y Strategaeth a Ffefrir. Caiff yr Adroddiad Gwerthuso Integredig Dechreuol ar Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd eu cyhoeddi wrth ochr y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r ddau yn brosesau iterol a chânt eu diweddaru fel yr aiff y CDLlN ymlaen tuag at gael ei fabwysiadu.

1.10 Bydd Cynllun Seilwaith yn cyd-fynd â'r CDLlN, yn nodi beth sydd ei angen i gefnogi datblygiad y safleoedd a ddyrennir, a bydd yn eistedd wrth ochr Cynllun Trafnidiaeth Lleol a Strategaeth Datblygu Economaidd a gaiff eu diweddaru. Gyda'i gilydd, bydd y Cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni uchelgais economaidd y Cyngor a'i ddiben creiddiol o ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas ar gyfer pawb ar bob cam o fywyd

1.11 Caiff y Strategaeth a Ffefrir ei llywio gan nifer o ddogfennau cefndir ychwanegol a gaiff eu rhestru yn Atodiad 2. Dylid darllen y dogfennau cefndir hyn wrth ochr y Strategaeth a Ffefrir: dim ond prif ganfyddiadau'r dogfennau cefndir y rhoddir sylw iddynt yn y Strategaeth a Ffefrir yma oherwydd y swm sylweddol o ddata/gwybodaeth sydd ynddynt.

1.12 Cynhaliwyd Ail Alwad ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol dros gyfnod o ddeuddeg wythnos rhwng 5 Gorffennaf a 31 Awst 2021. Mae papur cefndir yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir sy'n dynodi'r safleoedd ymgeisiol hynny sydd yn fras gydnaws gyda'r Strategaeth. Caiff asesiad manwl o'r safleoedd ymgeisiol ei gyhoeddi wrth ochr y CDLlN Adnau.

### Ymgysylltu ac Ymgynghoriad gyda'r Gymuned a rhanddeiliaid ar y Strategaeth a Ffefrir

1.13 Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn destun ymgysylltu ac ymgynghoriad gyda'r gymuned. Mae manylon llawn yr holl ddigwyddiadau ymgynghori a dulliau ar sut i roi sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

### Camau Nesaf

1.14 Yn dilyn yr ymgynghori ac ymgyfraniad rhanddeiliaid ar y Strategaeth a Ffefrir, bydd y Cyngor yn cwblhau'r CDLlN ac yn ei roi ar Adnau. Rhoddir manylion adborth o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn Adroddiad Ymgynghori y Strategaeth. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gyd-fynd ag Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig y CDLlN a dogfennau cefnogi arall ar Adnau, yn unol â Rheoliad 17

Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd 2015). Rhoddir adroddiad i'r Cyngor yn y Gwanwyn 2023 am grynodeb o faterion allweddol a godwyd drwy'r ymgynghoriad a'r Strategaeth a Ffefrir i geisio cymeradwyaeth i'r Strategaeth a Ffefrir. Caiff y Cynllun Adnau ei baratoi wedyn a'i ystyried gan y Cyngor cyn ymgynghori ac ymgysylltu statudol yn ystod y Gwanwyn 2024.

1.15 Yn dilyn ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau ac ystyried y materion a godwyd, caiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fydd yn penodi Arolygydd annibynnol i archwilio'r CDLlN. Gan roi ystyriaeth i'r dystiolaeth a'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau, bydd yn rhaid i'r Arolygydd benderfynu os yw'r CDLlN yn cydymffurfio gyda'r 'profion cadernid' a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

1.16 Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn argymell unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r CDLlN. Bydd adroddiad yr Arolygydd yn rhwymo ac mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau a mabwysiadu'r CDLlN fel y'i diwygiwyd. Unwaith y'i mabwysiadwyd, bydd y CDLlN yn cymryd lle'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig.

## 2 Cyd-destun

### Proffil a Throsolwg Sir Fynwy

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad eang i ardal y Cynllun, gan amlinellu nodweddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy. Mae hefyd yn dynodi'r cyd-destun polisi a dylanwadau eraill ar y Cynllun oherwydd y gofyniad i roi ystyriaeth i amrywiaeth o gynlluniau, polisïau a rhaglenni ar y lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Adroddiad Cwmpasu y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Dechreuol hefyd yn rhoi rhestr lawn o bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a strategaethau sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

### Cyd-destun Daearyddol

2.2 Yn Ne Ddwyrain Cymru, mae gan Sir Fynwy safle strategol rhwng y prif ganolfannau yn Ne Cymru, De Orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Mae gan Sir Fynwy arwynebedd o tua 88,000 hectar (880 cilometr sgwâr), gyda 3% ohono wedi ei diffinio fel 'adeiledig'[6]. Amcangyfrifir fod poblogaeth Sir Fynwy yn 92,961[7], gyda tua 7% yn preswylio yn y rhan o'r Sir sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae nifer o awdurdodau lleol Cymru yn ffinio ar y Sir; Cyngor Dinas Casnewydd i'r de-orllewin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i'r gorllewin ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd orllewin. Caiff hefyd ei ffinio gan nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr; Cyngor Swydd Henffordd i'r gogledd-ddwyrain, Cyngor De Swydd Caerloyw a Chyngor Dosbarth Coedwig y Ddena i'r dwyrain, gyda chysylltiadau i dde Swydd Caerloyw dros Bont Hafren.

2.3 Mae gan y Sir hunaniaeth neilltuol yn deillio o'i lleoliad ar y gororau rhwng Lloegr a pherfeddwlad diwydiannol De Cymru. Mae elfen gyfannol o batrwm aneddiadau neilltuol Sir Fynwy yn deillio o'i threfi marchnad hanesyddol a phentrefi a'u perthynas gyda'r ardaloedd gwledig o amgylch. Mae gan y Sir dirwedd cyfoethog ac amrywiol yn ymestyn o'r arfordir yng Ngwastadeddau Gwent yn ne'r Sir, i ucheldir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd-orllewin a choridor afon Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy yn y dwyrain.

2.4 Mewn lleoliad ar y porth i Gymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'n rhwydd cyrraedd y Sir o weddill Cymru a Lloegr yn defnyddio nifer o ffyrdd strategol yn cynnwys traffyrdd yr M4 a'r M48, ffordd Blaenau'r Cymoedd (A465), yr A449, A40 a'r A4042. Mae pedair gorsaf reilffordd hefyd yn Sir Fynwy yng Nghil-y-coed, Cas-gwent a Chyffordd Twnnel Hafren yn ne'r Sir, a'r Fenni yn y gogledd. Mae'r rhain yn rhoi cysylltiadau rheilffordd i aneddiadau allweddol Casnewydd, Caerdydd a gorllewin Cymru, yn ogystal ag i Fryste, Llundain, Caerloyw, Cheltenham, Canolbarth Lloegr a Manceinion. Mae cynigion ar gyfer gorsaf reilffordd rhodfa ym Magwyr gyda Gwndy.

---

[6] Corine Landcover Inventory
[7] Cyfrifiad 2021

### Patrwm Aneddiadau

2.5 Mae Prif Aneddiadau y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy yn cynnig ystod eang o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, siopa, hamdden, cyfleusterau cymunedol a teithio cynaliadwy a llesol. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, mae cyfleoedd ychwanegol ar gael yn ardal ehangach Glannau Hafren ac yn Aneddiadau Eilaidd Penperllenni, Rhaglan a Brynbuga, ac mewn nifer o aneddiadau gwledig llai. Mae manylion pellach ar aneddiadau unigol a hierarchaeth aneddiadau ar gael yn y Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy a ddatblygwyd i ddynodi'r aneddiadau hynny sy'n fwyaf addas i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol yn nhermau eu lleoliad, rôl a swyddogaeth.

### Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

2.6 Mae Sir Fynwy yn adnabyddus am ei thirweddau hardd ac adnoddau bioamrywiaeth. Fel sir wledig gan fwyaf, mae gan Sir Fynwy adnoddau tirwedd sylweddol ac mae'n gartref i dirweddau gyda dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol yn amrywio o Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy yn y dwyrain a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Safle Treftadaeth Byd Diwydiannol Blaenafon yn y gogledd orllewin. Mae ganddi adnoddau bioamrywiaeth a chadwraeth natur sylweddol, nifer ohonynt yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol neu'n genedlaethol, yn cynnwys Aber Afon Hafren a ddynodwyd fel Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safle Ramsar. Mae'r Sir hefyd yn gartref i bedair Ardal Cadwraeth Arbennig arall, sef yr Afon Gwy, yr Afon Wysg, Coetiroedd Dyffryn Gwy a Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy. Mae hefyd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gyda dynodiad cenedlaethol a Safleoedd Pwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur anstatudol a ddynodwyd yn lleol.

2.7 Mae gan ardal CDLlN Sir Fynwy hefyd dreftadaeth adeiledig ac amgylchedd hanesyddol cyfoethog sy'n cynnwys 31 Ardal Cadwraeth, 45 o Barciau a Gerddi Hanesyddol, 3 Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, tua 164 o Gofebion Cofrestredig a 2,149 Adeilad Rhestredig. Mae angen diogelu, hyrwyddo a chyfoethogi gorau ein tirlun a'n treftadaeth sy'n rhan bwysig o ddiwylliant Sir Fynwy ac sydd ganddynt rôl allweddol mewn twristiaeth a thwf economaidd.


### Poblogaeth

2.8 Mae gan Sir Fynwy boblogaeth o 92,961 yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021. Fel sir wledig yn bennaf, mae pedwar prif anheddiad Cas-gwent, Cil-y-coed, Trefynwy a'r Fenni yn cyfrif am dros hanner y boblogaeth rhyngddynt ar 52%.

2.9 Yn nhermau cyfansoddiad poblogaeth, mae gan Sir Fynwy ganolrif oedran o 49 oed o gymharu gyda 34 yng Nghaerdydd, ac mae ganddi gyfran sylweddol uwch o grwpiau oedran hŷn (65+) a chyfran is o oedolion ifanc (16-44) o gymharu gyda chyfartaledd Cymru. Mae'r gyfran o'n poblogaeth 65+ oed a 85+ oed yn cynyddu gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Dengys Cyfrifiad 2021 fod y boblogaeth 65+ oed wedi

cynyddu gan 26%, sy'n cymharu gyda chyfartaledd Cymru o 18%. Ar gyfer y Sir yn ei chyfanrwydd, mae Cyfrifiad 2021 yn dynodi fod bron 26% o'r boblogaeth dros 65 oed (o gymharu gyda 21% yng Nghymru), gyda 16% dan 16 (18% yng Nghymru) ac ychydig dros 58% yn y grŵp poblogaeth oedran gwaith (16-64) (61% yng Nghymru). Caiff y newid ym mhroffil poblogaeth Sir Fynwy yn y 10 mlynedd diwethaf ei ddangos yn glir yn y pyramid poblogaeth isod. Fodd bynnag, mae hyn yn gwahaniaethu yn ôl anheddiad ar draws y Sir. Mae'r tueddiad parhaus am ddemograffig heneiddiol yn un o'r materion allweddol sy'n wynebu Sir Fynwy.

**Newid yn y Proffil Poblogaeth rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021**




2.10 Caiff absenoldeb cymharol oedolion ifanc yn aml ei gysylltu gyda fforddiadwyedd tai ar draws y Sir. Mae prisiau tai cyfartalog yn y Sir yn uchel ar £398,859 o gymharu gyda chyfartaledd Cymru o £236,439 (Hometrack, Tachwedd 2022)[8]. Mae prisiau tai hefyd yn uchel o gymharu ag enillion, ac mae angen mawr am fwy o dai fforddiadwy yn y Sir mewn ardaloedd trefol a hefyd ardaloedd gwledig i gynorthwyo wrth sicrhau poblogaeth fwy cytbwys. Mae mater fforddiadwyedd hefyd yn effeithio ar allu pobl ifanc yn y Sir i ffurfio eu haelwydydd eu hunain. Dengys Cyfrifiad 2021 y bu cynnydd o 14% mewn aelwydydd gyda phlant heb fod yn ddibynnol, gan ddangos fod plant yn gorfod byw yn hirach gyda rhieni. Cafodd y mater hwn ei waethygu gan bandemig Covid-19 sydd wedi dangos pwysigrwydd sicrhau fod ein cymunedau yn gytbwys ac yn gymdeithasol gynaliadwy, yn neilltuol o ran demograffeg.

## Yr Economi

[8] Seiiedig ar werthiant a phrisiadau dros gyfnod chwe mis Mawrth 2022 – Awst 2022. Roedd gwerthiannau yn unig dros yr un cyfnod yn dangos £351,643 ar gyfer Sir Fynwy a £224,101 ar gyfer Cymru. Cyrchwyd data ar . 02/11/2022.

2.11 Fel y porth i Gymru, mae gan Sir Fynwy gysylltiadau da yn ddaearyddol ac mae ganddi leoliad strategol allweddol gyda seilwaith trafnidiaeth da yn cysylltu gyda'r ardal ehangach. Mae'r Sir yn agos at ardaloedd twf allweddol Caerdydd, Bryste, Casnewydd a chanolbarth Lloegr ac mae o fewn taith 45 munud ar y ffordd i feysydd awyr Caerdydd a Bryste. Y sir sydd â'r economi fwyaf cystadleuol yng Nghymru ar ôl Caerdydd a rhagwelir mai hi fydd â'r twf GVA cyflymaf y pen yng Nghymru (Mynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig 2021).[9]


2.12 Mae Sir Fynwy yn bartner allweddol ym Margen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac oherwydd ei lleoliad daearyddol gyda chysylltiad â Rhanbarth Dinas Bryste, mae hyn yn ei gwneud yn gynnig deniadol ar gyfer datblygu economaidd.


2.13 Dengys Arolwg Poblogaeth Blynyddol Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yr ONS fod bron 80/% (79.7%) o boblogaeth oedran gwaith Sir Fynwy yn economaidd weithgar, sy'n uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru, ar 76,5%, tra bod y gyfran o bobl economaidd weithgar o'r diwaith oedran gwaith yn Sir Fynwy yn 2.9% o gymharu gyda 3.8% yng Nghymru.

2.14 Mae gan Sir Fynwy graidd cryf o fusnesau bwydamaeth, twristiaeth, gweithgynhyrchu, digidol a thechnoleg. Mae Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd[10] y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd adeiladu ar y llwyddiant hwn i ysgogi twf mewn lleoliad godidog. Mae cadw Sir Fynwy yn ddeniadol i'w phreswylwyr cyfredol a'r dyfodol drwy dwf cynaliadwy yn nodwedd allweddol yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

2.15 Dengys Arolwg Poblogaeth Blynyddol ONS 2021 fod 61% o breswylwyr sy'n gyflogedig yn gweithio o fewn y sir. Roedd tua 2,800 o breswylwyr yn teithio allan o'r sir i weithio. O'r rhai oedd yn gwneud hynny roedd bron 27% yn teithio i ddinas Bryste a 23% arall i rannau eraill o Loegr. Mae Adeiladu Lleoedd Gwell, ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19, yn cydnabod fod y tueddiad i bobl weithio gartref yn debygol o barhau yn yr hirdymor, ac mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i 30% o'r gweithlu weithio o bell ar sail reolaidd.[11]

[9] Arolwg Poblogaeth Blynyddol ONS (12 mis i Fehefin2022)
[10] Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/development-of-an-evidence-base/
[11] Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell ar gyfer Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU




2.16 Caiff Papur Cefndir Cyflogaeth[12] ei baratoi'n flynyddol sy'n asesu'r defnydd o dir cyflogaeth a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (Safleoedd Diwydiannol a Busnes a Ddynodwyd dan bolisi SAE1 a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig dan bolisi SAE2). Bydd y canlyniadau o'r arolwg blynyddol hwn yn helpu i lywio gofynion tir cyflogaeth yn y dyfodol. Fel ym mis Mawrth 2022, o'r 50.12ha o safleoedd SAE1 a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig, roedd ychydig dros 40 hectar o dir gael ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8. Mae'r gyfradd defnydd tir cyflogaeth wedi bod yn 1.8 hectar y flwyddyn ar gyfartaledd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2014.

2.17 O gofio am y cynnydd mewn gweithio ystwyth a gweithio gartref a ddechreuodd yn ystod pandemig Covid-19, gall y galw/gofynion am dir cyflogaeth newid. Fodd bynnag, bydd y CDLlN yn parhau i fod angen darparu amrywiaeth o safleoedd i ddiwallu anghenion cyflogaeth hyd 2033 i gefnogi uchelgais y Cyngor ac i gefnogi'r economi leol. Caiff dosbarthiad gofodol tir cyflogaeth ei ystyried ymhellach yn y CDLlN Adnau fydd yn cynnwys dynodi safleoedd ac adeiladau cyflogaeth addas i alluogi busnesau presennol i dyfu a denu busnesau newydd mewn sectorau twf allweddol.

## Dylanwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

### Y Cyd-destun Deddfwriaethol

2.18 Cafodd y Strategaeth a Ffefrir ei pharatoi yng nghyd-destun deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar y lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Caiff manylion eu rhoi yn Atodiad 3.

[12] Papur Cefndir Tir Cyflogaeth – Mai 2022 https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/annual-monitoring/employment/

## 3 Materion, Heriau a Chyfleoedd Allweddol

### Materion a Heriau Allweddol

3.1 Caiff y materion, heriau a chyfleoedd/ysgogwyr allweddol sy'n wynebu'r Sir (economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol) eu nodi ym Mhapur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion[13] y CDLlN (a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2022) ac yn Atodiad 4 y Strategaeth a Ffefrir. Cafodd y materion eu grwpio i alinio gyda'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i sicrhau y cânt eu gosod o fewn y cyd-destun hwn. Rhoddir crynodeb lefel uchel o'r materion isod:

- Ni sydd â'r prisiau tai cyfartalog uchaf yng Nghymru (gweler paragraff 2.10). Mae hyn yn golygu na all cyfran fawr o bobl fforddio prynu cartref felly maent naill ai'n gadael y Sir, neu yn gorfod byw gyda'u rhieni neu mewn tai rhannu am fwy o amser. Dynodwyd fod gennym 2,200 aelwyd sydd angen tai fforddiadwy[14]. Bydd y CDLlN yn ymchwilio cyfleoedd i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a sicrhau y caiff amrywiaeth a dewis o gartrefi eu cynnwys o fewn datblygiadau newydd..

- Mae ein poblogaeth yn heneiddio. Erbyn 2033 bydd gennym fwy o bobl hŷn yn byw yn y Sir ond llai o bobl ifanc (gweler para 2.9). Mae poblogaeth hŷn yn newid y math o wasanaethau y bydd ein cymunedau eu hangen, ond mae hefyd yn gostwng nifer y bobl sy'n defnyddio ac yn rhoi cefnogaeth ariannol i fusnesau a gwasanaethau. Bydd gennym lai o boblogaeth economaidd weithgar yn gwneud Sir Fynwy yn fan llai deniadol i fusnesau leoli ynddo. Mae hyn yn effeithio ar ein rhagolygon economaidd ar gyfer y dyfodol.

- Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i ymdrechu cyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5ºC a chryfhau'r pwyslais ar adferiad natur. Bydd y CDLlN yn rhoi'r fframwaith polisi defnydd tir i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur gyda'i gilydd, gan geisio deilliannau sy'n cydnabod y rôl y gall ecosystemau cydnerth ei chwarae wrth fynd i'r afael ag allyriadau carbon a lliniaru effaith newid hinsawdd. Bydd y CDLlN yn sefydlu polisi i gefnogi a galluogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy a sefydlu gofynion ar gyfer datblygiadau parod di-garbon net ac egwyddorion datblygu cynaliadwy tebyg i deithio llesol, seilwaith gwyrdd a chynhyrchu bwyd lleol. Bydd y rhain yn eistedd wrth ochr ac yn integreiddio gyda pholisïau ar gyfer diogelu safleoedd a ddynodwyd ar gyfer bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau ac yn cyflawni budd bioamrywiaeth net.

[13] Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/development-of-an-evidence-base/
[14] Prosbectws Tai Fforddiadwy 2022 Cyngor Sir Fynwy

- Mae gennym angen brys i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr a llygredd ffosffadau yn ein hafonydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu targedau tynnach ar gyfer ansawdd dŵr afonydd ac wedi rhoi gofyniad yn ei le i sicrhau niwtraliaeth neu wella sefyllfa ffosffadau yn yr Afon Wysg a'r Afon Gwy. I gydnabod materion ansawdd dŵr yn y Sir, fe wnaeth y Cyngor ddatgan Cynnig ar gyfer Afonydd a'r Môr ym mis Mawrth 2022 gan gytuno ar gynllun gweithredu ym mis Medi 2022 i amlinellu'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i ddiogelu ein hafonydd a'r môr.

- Mae angen ystyried os yw tir cyflogaeth presennol mewn lleoliad addas ac yn addas i'r diben ar gyfer sectorau twf priodol, ynghyd â'r cynnydd posibl mewn gweithio ystwyth a gweithio gartref a'r effaith y gall hyn ei gael ar y galw/gofynion am dir cyflogaeth. Mae hefyd angen i ni ystyried galw'r dyfodol yn unol â nodau'r Cyngor a'r cyfleoedd y gallai newid mewn ymddygiad gwaith ei greu gyda busnesau yn cael mwy o hyblygrwydd dros ble i leoli.

- Mae cyfleoedd yn gysylltiedig gyda thwf o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a hefyd ranbarth Bryste.

- Mae lefelau diweithdra yn isel (gweler para 2.13); fodd bynnag, mae gan Sir Fynwy economi ddeuol. Mae cymwysterau, sgiliau ac enillion y preswylwyr yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol; fodd bynnag, ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn yr ardal mae enillion yn is a chyflogaeth yn gymharol llai sgilgar. Mae gan Sir Fynwy all-lif net o gymudwyr (gweler para 2.15). I gyfarch y materion hyn mae angen darparu cefnogaeth ar gyfer mewnfuddsoddiad a thwf/cyflogaeth cyflogaeth lleol.

- Mae cyfraddau lleoedd gwag yng nghanol rhai o drefi a chanolfannau lleol y Sir wedi cynyddu[15] oherwydd y newid mewn arferion siopa yn cynnwys siopa rhyngrwyd a ffactorau economaidd tebyg i ardrethi busnes uchel a'r argyfwng costau byw.

- Mae heriau ynysigrwydd gwledig a chynnal cymunedau gwledig, yn cynnwys adfywio'r economi wledig. Mae'r pandemig diweddar wedi tanlinellu gwerth a phwysigrwydd gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hygyrch yn lleol.

- Rydym eisiau gwarchod y tirluniau a'r dreftadaeth sy'n gwneud Sir Fynwy yn lle unigryw a deniadol i fyw ynddo. Mae'r CDLlN yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd creu lleoedd a darparu mannau agored hygyrch lleol/gofodau ar gyfer iechyd a llesiant a hamdden.

[15] Mae tystiolaeth yn adran Manwerthu yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-2021 https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2021/11/Monmouthshire-LDP-AMR-2020-2021.pdf

- Mae gan dwristiaeth ran bwysig yn economi Sir Fynwy, yn arbennig wrth gynorthwyo arallgyfeirio'r economi wledig a chynnal canol trefi hanesyddol y Sir. Yn ôl ffigurau a gafwyd gan ddangosydd economaidd twristiaeth STEAM ('Scarborough Tourism Economic Activity Monitor'), daeth y sector â £245m i Sir Fynwy yn 2019 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael) a chefnogi cyfwerth â 3,119 o swyddi llawn-amser (adroddiad STEAM 2019).

### Cyfyngiadau ar Ddatblygu

3.2 Mae'n rhaid i ymateb y CDLlN i'r materion hyn gael ei ystyried a'i ddarparu yng nghyswllt cyfyngiadau ar ddatblygu sydd angen eu hosgoi, lliniaru a'u cydbwyso i sicrhau cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy tebyg i greu lleoedd, teithio llesol ac ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys tirwedd ansawdd uchel ar draws y Sir, dynodiadau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Gyda'i gilydd bydd angen i'r cyfyngiadau a gofynion polisi hyn fod yn gytbwys a byddant yn dylanwadu ar leoliad a maint y datblygiad sy'n briodol ar gyfer gwahanol rannau o'r Sir. Caiff enghreifftiau penodol eu trafod ledled y fframwaith polisi yn y Strategaeth a Ffefrir, a chaiff rhai cyfyngiadau allweddol eu trafod isod.

### Ansawdd Dŵr mewn Ardaloedd Arbennig o Gadwraeth Afonol

3.3 Yn dilyn tystiolaeth newydd am effeithiau ffosffadau mewn cyrsiau dŵr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu targedau tynnach ar gyfer ansawdd dŵr ac afonydd ac wedi asesu'r naw Ardal Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Yn Sir Fynwy dynodwyd bod 88% o gyrff dŵr yr Afon Wysg wedi methu cyrraedd y targed gofynnol. Mewn ymateb, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio manwl i sicrhau nad yw capasiti amgylcheddol yr afonydd yn gwaethygu ymhellach. Mae cynllun o ddalgylchoedd yr afonydd ar gael ar wefan y Cyngor drwy: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning/water-quality .

3.4 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu canllawiau cynllunio yn amlinellu pa fath o ddatblygiad sy'n annhebyg o effeithio ar lefelau ffosfadau yn y cyrsiau dŵr. Mae'n rhaid i gynigion am ddatblygiadau o fewn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt yn yr Afon Wysg ac Afon Gwy a fedrai gynyddu lefelau ffosffadau sicrhau niwtraliaeth neu wella sefyllfa ffosfadau. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan y Cyngor.

3.5 Mae gan y canllawiau newydd yma oblygiadau sylweddol ar gyfer cynigion datblygu o fewn dalgylchoedd afonydd. Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, y diwydiant datblygu a'n swyddogion bioamrywiaeth i ganfod datrysiadau i alluogi twf a dyrannu safleoedd ymgeisiol drwy broses y CDLlN nad ydynt yn niweidio capasiti amgylcheddol ein cyrsiau dŵr. Yn dilyn trafodaethau gyda Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, dynodwyd datrysiad ymarferol a chyraeddadwy ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff Llan-ffwyst (rhan uchaf dalgylch yr Afon Wysg), ond ni ddynodwyd datrysiad strategol ar gyfer lliniaru ffosffadau yng ngwaith trin dŵr gsxzwastraff Trefynwy (rhannu uchaf dalgylch yr Afon Gwy) ar hyn o

bryd. Heb ddatrysiad strategol wedi ei ddynodi, ni ellir dangos y gellid cyflawni dyraniadau safleoedd newydd ar gyfer twf yn y dyfodol o fewn yr ardal yr effeithir arni yn rhan uchaf dalgylch yr Afon Gwy o fewn cyfnod y Cynllun. Fel canlyniad, ni fedrir cynnig unrhyw ddyraniadau safle newydd ar gyfer rhan uchaf dalgylch yr Afon Gwy, yn cynnwys prif anheddiad Trefynwy. Caiff y cyfyngiadau ar ddatblygiadau tai a chyflogaeth newydd yn yr ardal hon yn ystod cyfnod y Cynllun n eu hadlewyrchu yn strategaeth ofodol y CDLlN.

### Dilyniant Chwilio Safle a Thir Amaethyddol Gorau a Mwyaf aml-bwrpas

3.6 Bydd y dull gweithredu o ddewis safleoedd ar gyfer y Cynllun Adnau yn dilyn y dilyniant chwilio safle a amlinellir yn PCC11, sy'n rhoi blaenoriaeth i ddefnydd tir addas ac a ddatblygwyd yn flaenorol yn gynaliadwy cyn ystyried safleoedd tir glas. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r broses hon gydnabod yr adnodd cyfyngedig o dir llwyd sydd ar gael yn Sir Fynwy a'r ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sydd angen eu cydbwyso yng nghyd-destun Sir Fynwy.

3.7 Bydd y ganran o dir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas yn Sir Fynwy yn ystyriaeth allweddol wrth asesu'r safleoedd ymgeisiol. Mae Atodiad 5 yn nodi'r dull gweithredu a ragwelir ar gyfer y Cyngor i asesu golled bosibl tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach i ddarparu Papur Cefndir ar Ddosbarthiad Tir Amaethyddol ar gyfer cam y CDLl Adnau. Mae dosbarthiad eang tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas ledled Sir Fynwy yn golygu nad yw'n effeithio ar y strategaeth ofodol; mae tir amaethyddol o amgylch pob un o'n pedwar prif anheddiad, felly nid yw'n bosibl osgoi datblygu tir o'r fath drwy strategaeth ofodol wahanol.

### Llain Las

3.8 Mae Polisi 34 Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Datblygu Strategol De Ddwyrain Cymru ddynodi llain las i ogledd Caerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth i reoli ffurf a thwf trefol. Mae Diagram Strategol De Ddwyrain Cymru (tudalen 163 Cymru'r Dyfodol) yn rhoi cynllun dangosol o'r ardal i gael ei ystyried gyda'r ffin manwl i gael ei ddiffinio drwy baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Cyn cwblhau'r Cynllun Datblygu Strategol, dylai'r ardal ddangosol a ddangosir ar gyfer ei hystyried yn Cymru'r Dyfodol gael ei thrin fel llain las ddynodedig.

3.9 Er fod prif drefi'r Sir y tu allan i lain las ddangosol Cymru'r Dyfodol, wrth asesu safleoedd ymgeisiol a'u perthynas gyda Pholisi 34 Cymru'r Dyfodol, rhoddir ystyriaeth i baragraff 3.72 PCC11 sy'n dweud y dylai ystod digonol o dir datblygu fod ar gael mewn lleoliad addas yng nghyswllt yr ymyl trefol presennol wrth ystyried dynodiad llain las, gan roi ystyriaeth i'r angen tymor hirach am dir datblygu, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd tu hwnt i'r llain las a'r angen i leihau'r galw am deithio. Gall hyn olygu y bydd angen diogelu tir ac mae'n rhaid diffinio ffiniau y lleiniau glas a gynigir yn ofalus er mwyn cyflawni hyn. Comisiynwyd astudiaeth o leiniau glas ar sail is-

ranbarthol i lywio sylfaen tystiolaeth Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd a Chynllun Datblygu Strategol De Ddwyrain Cymru.

### Cyfleoedd Allweddol

3.10 Ar ôl dynodi'r materion a'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Sir y mae angen i'r CDLlN eu cyfarch, mae'r dilynol yn nodi rhai o'r cyfleoedd allweddol i wireddu rhai o'r materion a'r heriau.

**Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)**

3.11 Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol 2040 gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021. Er bod hyn yn nodi'r fframwaith datblygu cenedlaethol a'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd 2040, mae'n cynnwys nifer o bolisïau sy'n neilltuol o berthnasol i Sir Fynwy wrth roi'r cyd-destun polisi cenedlaethol i gyfarch y materion allweddol yr ydym wedi rhoi tystiolaeth ohonynt. Mae Polisi 3 – Cefnogi Twf Trefol ac Adfywio – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus – yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn weithgar wrth sicrhau twf ac adfywio gwledig, gan weithio gydag awdurdodau lleol i ddatgloi potensial tir cyhoeddus a chefnogi awdurdodau lleol i gymryd mwy o rôl datblygu. Mae Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig a Pholisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig, yn rhoi'r fframwaith polisi i ystyried sut y gellir sicrhau cymunedau cytbwys o ran oed, lle dylai diboblogi gael ei wrthdroi a chaniatáu ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur. Mae Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy hefyd yn trin mater allweddol prisiau tai fforddiadwy yn y Sir ac yn rhoi fframwaith i drin hyn drwy ddatblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy. Mae'r polisïau hyn yn rhoi cyfleoedd sylweddol i drin nifer o faterion allweddol sy'n wynebu'r Sir.

**Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair (Gorffennaf 2020)**

3.12 Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at lawer o heriau ond mae hefyd wedi golygu rhai newidiadau sylweddol yn y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau bob dydd a defnyddio'r mannau cymdogaeth o'n hamgylch. Mae dogfen bolisi adferiad Covid-Llywodraeth Cymru sef Adeiladu Lleoedd Gwell[16] yn cydnabod hyn a'r cyfle y mae wedi ei greu i sefydlu newid ymddygiad a chynyddu pwysigrwydd creu lle. Mae'r CDLlN yn ddull allweddol i gyflawni adferiad yn dilyn Covid-19. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys mwy o bwyslais ar greu cymdogaethau sy'n galluogi preswylwyr i aros a symud yn lleol i gael mynediad i'r rhan fwyaf o wasanaethau a chyfleusterau drwy ganol trefi sydd wedi eu hadfywio a darparu mannau gwyrdd sy'n hygyrch yn lleol. Yn yr un modd, dangoswyd pwysigrwydd cysylltedd digidol a'r angen i gynnwys seilwaith digonol mewn datblygiadau o'r cychwyn cyntaf, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

[16] Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Mwy Cydnerth a Mwy Disblair – Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19 – Gorffennaf 2020 Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau dyfodol Cydnerth o Mwy Disglair (llyw.cymru)

**Argyfwng Hinsawdd a Natur a Chynnig ar gyfer Afonydd a'r Môr**

3.13 Ym mis Mai 2019 datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd a chyhoeddi Strategaeth a Chynllun Gweithredu wedi ei ddiweddaru ar yr Hinsawdd a Datgarboneiddio ym mis Tachwedd 2021, gyda phwyslais cryfach ar adferiad natur i gydnabod yr argyfwng natur. Mae hyn yn nodi'r camau gweithredu allweddol y bydd y Cyngor yn eu cymryd i ostwng ei allyriadau carbon ei hun i sero net yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o 2030, ond hefyd wneud ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid a sefydliadau i ddatblygu a gweithredu arfer gorau wrth gyfyngu twymo byd-eang i lai na 1.5$^{o}$C. Fel y cydnabyddir ym yn PCC11 ac Adeiladu Lleoedd Gwell, mae'r CDLlN a'i fframwaith polisi a dyraniadau yn rhoi cyfle sylweddol i gyfarch achosion ac effeithiau newid hinsawdd. Cydnabyddir fod ymdrechion i drin newid hinsawdd yn eang ac y bydd angen dull gweithredu cydlynus at ddatblygu yn cynnwys agweddau tebyg i deithio lleol, seilwaith gwyrdd, defnydd effeithlon o dir ac adnoddau a chydnerthedd rhag llifogydd.

3.14 I gydnabod yr angen brys i gyfarch ansawdd dŵr yn y Sir, roedd diweddariad mis Tachwedd 2021 o'r Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd yn cynnwys y gofyniad i baratoi cynllun gweithredu i gyfarch ansawdd dŵr. Ym mis Mawrth 2022 cafodd y Cynnig ar gyfer yr Afonydd a'r Môr ei gytuno gan y Cyngor gyda'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn cael ei gytuno ym mis Medi 2022. Mae hyn yn nodi mesurau ac i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr afonydd, yn defnyddio partneriaethau presennol i ddarparu dull gweithredu cydlynus. Yn neilltuol o berthnasol i'r CDLlN mae gwaith cyfredol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru a'r ymgyfraniad parhaus gyda Bwrdd Rheoli Maethion Gwy a Partneriaeth Dalgylch yr Wysg i ddynodi a gweithredu opsiynau ar gyfer sicrhau gwelliannau mewn ansawdd dŵr.

**Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

3.15 Prif amcanion y Fargen Ddinesig yw creu 25,000 o swyddi newydd ac ysgogi £4 biliwn mewn buddsoddiad sector preifat ar draws y rhanbarth. Dynodwyd themâu allweddol i fod yn ffocws i'r dull gweithredu: Cysylltu'r Rhanbarth; Adfywio a Seilwaith; Sgiliau a Chyflogaeth. Mae'r themâu strategol hyn yn cyflwyno cyfleoedd i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys:

- Cysylltu'r Rhanbarth – Strategaeth Ddigidol: nod hyn yw creu rhanbarth deallus, gan yrru arloesedd a datrysiadau i drefnu partneriaeth a buddsoddiad sector preifat, yn cynnwys cysylltedd Cymreig a rhanbarthol, mynediad i 5G symudol a chynyddu data agored i'r eithaf.
- Mae'r Metro – Prosiect Metro De Ddwyrain Cymru – yn rhoi cyfleoedd y mae angen mawr amdanynt i gynyddu amlder gwasanaeth trenau, gwella cysylltiad a chydlynu rhwng dulliau trafnidiaeth, system docynnau symlach a gwella gwasanaethau bws.
- Adfywio a Seilwaith – mae'r Gronfa Tai a Buddsoddiad yn cefnogi darparu mwy o gartrefi ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ysgogi'r sector busnesau bach a chanolig ar draws y rhanbarth drwy ddarparu cyllid datblygu

benthyciad a lansio Cynllun Adeiladu gan Gwsmeriaid yn rhyddhau lleiniau llai o dir sector cyhoeddus gyda phecyn llawn o gymorth i fusnesau bach a chanolig i ddarparu cartrefi newydd.

- Sgiliau a Chyflogaeth – mae Prosiect Sgiliau i'r Dyfodol yn sicrhau cyswllt gydag ysgolion ar draws y rhanbarth ar gyfer disgyblion a rhieni i gynnig cyngor ac arweiniad ar arferion, cymorth i fusnesau i drin rhwystrau cyfranogiad, yn cynnwys cronfa buddsoddiad sgiliau ac ymrwymiad i gefnogi darparu dros 10,000 o brentisiaethau ychwanegol, interniaethau i raddedigion a chynyddu sgiliau gweithwyr yn y sector preifat.

**Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd a Phrosbectws Mewnfuddsoddi 2020: Tyfu eich Busnes yn Sir Fynwy**

3.16 Mae Datganiad a Phrosbectws Twf ac Uchelgais Economaidd y Cyngor yn nodi'r dyhead i godi proffil Sir Fynwy fel lle deinamig i gynnal busnes, lle credadwy i fuddsoddi a lle anhygoel i fyw ynddo, ymweld ag ef ac aros ynddo. Mae'n cydnabod bod angen i economi Cymru dyfu i helpu adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth ac i gyflawni nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol[17] i fod yn lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter.

3.17 Bydd y Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd a'r Prosbectws sy'n mynd gydag ef a'r Strategaeth Datblygu Economaidd sy'n dod i'r amlwg yn gweithio wrth ochr y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a bydd yn cynorthwyo i:

- Godi proffil Sir Fynwy fel cyfle buddsoddi allweddol ar gyfer y sector preifat.
- Denu cyllid a buddsoddiad i Sir Fynwy i ddenu a hwyluso twf economaidd i'r Sir.
- Cynyddu'r defnydd o brentisiaethau a gostwng nifer y preswylwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Cynyddu mynediad i'r genhedlaeth nesaf o fand eang a gorchudd ffonau symudol ar draws y Sir.

[17] Mae drafft Gynllun Cymunedol a Corfforaethol 2022 yn nodi diben craidd, egwyddorion a blaenoriaethau'r Sir. Cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Hydref 2022 a chaiff fersiwn wedi'i ddatlbygu ei adrodd i'r Cygnor ym mis Ionawr 2023.

## 4 Fframwaith Strategol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

### Gweledigaeth y CDLlN (2018-2033)

4.1 Mae'r Weledigaeth yn egluro diben creiddiol y CDLlN ac yn rhoi fframwaith ar gyfer datblygu'r Strategaeth a Ffefrir a pholisïau manwl y dyfodol. Cafodd y Weledigaeth a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol mabwysiedig 2021-2021 ei hadolygu a'i diweddaru i roi ystyriaeth i'r materion, heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Sir, elfennau allweddol o Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r drafft Gynllun Corfforaethol a Chymunedol[18] ac i adlewyrchu'r strategaeth twf a gofodol newydd.

**Erbyn 2033 bydd Sir Fynwy yn fan lle:**

**(1) Mae pobl yn byw mewn cymunedau cynaliadwy a chydnerth sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ac yn fwy cynhwysol, cyfartal, diogel, cydlynol, llewyrchus, bywiog a chytbwys yn ddemograffig. Mae gan gymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd gysylltiadau da gyda gwell mynediad i wasanaethau a chyfleusterau lleol, mannau agored cyhoeddus a chyfleoedd cyflogaeth.**

**(2) Mae cymunedau a busnesau yn rhan o Sir sy'n ffynnu'n economaidd, sy'n uchelgeisiol ac sydd â chysylltiadau da.**

**(3) Cafodd asedau gorau treftadaeth adeiledig, cefn gwlad, bioamrywiaeth, tirwedd ac amgylcheddol y Sir eu gwarchod a'u gwella i gadw ei chymeriad neilltuol.**

**(4) Mae pobl yn mwynhau ffyrdd o fyw mwy iach a mwy cynaliadwy gyda gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd teithio llesol ac sydd â llai o effaith ar yr amgylchedd byd-eang, gan gefnogi ein huchelgais am sir ddi-garbon.**

**Goblygiadau cyflawni'r Weledigaeth yw y bydd Sir Fynwy erbyn 2033 yn gartref i fannau sy'n batrwm o gysylltiadau da gyda thai fforddiadwy a di-garbon net sy'n darparu cyflogaeth ac yn cefnogi cymunedau cytbwys a chydnerth sy'n gytbwys yn ddemograffig i bawb.**

### Amcanion y CDLlN (2018-2033): Cyflawni'r Weledigaeth

4.2 Cafodd 17 amcan eu datblygu er mwyn trin y materion a'r heriau allweddol a chyflawni'r Weledigaeth. Mae'r rhain yn adeiladu ar amcanion y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a'r amcanion llesiant yng Nghynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy. Caiff yr amcanion eu hadolygu a'u diweddaru fel sydd angen fel rhan o ddatblygiad parhaus sylfaen tystiolaeth y CDLlN. Bydd y CDLlN yn cyflenwi amcanion y Cyngor a chyfarch materion craidd sicrhau cartrefi fforddiadwy hanfodol yn gyflym ac yn niferus, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy ddarparu cartrefi newydd parod di-garbon net mewn lleoedd da, a sicrhau bod ein cymunedau

[18] Mae drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 yn nodi diben craidd, egwyddorion a blaenoriaethau'r Cyngor. Cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Hydref 2022 a rhoddir adroddiad i'r Cyngor ym mis Ionawr 2023 ar y ferswiwn a ddatblygwyd.

yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd drwy ddenu a chadw pobl iau i ailgydbwyso ein demograffeg heneiddiol.

4.3 Mae’r Amcanion yn ddigon uchelgeisiol eto hefyd yn gyraeddadwy o fewn cyd-destun cynllunio gofodol. Fel gyda materion y CDLlN, cafodd yr amcanion eu grwpio yn gydnaws gyda’r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ac maent wedi alinio gyda materion y CDLlN, y prif themâu polisi a ddynodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC11) ac amcanion Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy, a nodir yn Nhabl 1. Nid yw’r amcanion wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.

## Tabl 1 – Amcanion y CDLlN

| Rhif Amcan y CDLlN | Pennawd | Amcan y CDLlN | Materion yn y CDLlN | Prif thema Polisi Cynllunio Cymru 11 | Amcan Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus (Nod Llesiant 1)** | | | | | |
| **Amcan 1** | Twf economaidd/ cyflogaeth* | Cefnogi economi ffyniannus ac amrywiol gyda chysylltiadau da sy'n darparu ystod o gyfleoedd cyflogaeth ansawdd da i alluogi ac annog twf busnes cynhenid a denu mewnfuddsoddiad a busnesau arloesol cystadleuol mewn sectorau twf addas, yn cynnwys drwy ddarparu mannau ar gyfer busnesau newydd a thwf. | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 24 | Lleoedd cynhyrchiol a mentrus | Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd a gyda chysylltiadau da. |
| **Amcan 2** | Canol trefi a chanolfannau lleol* | Cynnal a gwella trefi marchnad y Sir sef Cas-gwent, Cil-y-coed, Trefynwy a'r Fenni a chanolfannau lleol Brynbuga, Magwyr a Rhaglan fel canolfannau bywiog a deniadol yn gwasanaethu anghenion eu poblogaeth a'r gefnwlad o amgylch, a chefnogi addasu i ddiwallu anghenion rôl esblygol y stryd fawr. | 8 | Lleoedd actif a chymdeithasol | Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd a gyda chysylltiadau da. |

| Rhif Amcan y CDLlN | Pennawd | Amcan y CDLlN | Materion yn y CDLlN | Prif thema Polisi Cynllunio Cymru 11 | Amcan Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru gydnerth (Nod Llesiant 2) | | | | | |
| **Amcan 3** | Seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a thirwedd* | Gwarchod, gwella a rheoli cydnerthedd amgylchedd naturiol, bioamrywiaeth ac ecosystemau Sir Fynwy a'r cysylltedd rhyngddynt, ac ar yr un pryd uchafu buddion i'r economi, twristiaeth, iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, tirweddau ansawdd uchel a neilltuol eraill y Sir, rhywogaethau gwarchodedig a buddiannau bioamrywiaeth eraill. | 11, 12, 35 | Lleoedd unigryw a naturiol | Diogelu a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd. |
| **Amcan 4** | Risg llifogydd | Sicrhau bod datblygiad newydd yn rhoi ystyriaeth i risg llifogydd, presennol ac yn y dyfodol, yn cynnwys yr angen i osgoi datblygiad anaddas mewn ardaloedd sydd mewn risg o lifogydd neu a all gynyddu'r risg o lifogydd mewn man arall a'r angen i ddylunio datblygiad, yn cynnwys defnyddio mesurau naturiol i reoli llifogydd i reoli risg llifogydd a dŵr ffo wyneb mewn modd priodol. | 12, 13 | Lleoedd unigryw a naturiol | Diogelu a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd. |
| **Amcan 5** | Mwynau a gwastraff | Cyflawni goblygiadau rhanbarthol a lleol y Sir i reoli a gwaredu â'i gwastraff ac i | 14, 15 | Lleoedd cynhyrchiol a mentrus | Diogelu a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol |

| Rhif Amcan y CDLlN | Pennawd | Amcan y CDLlN | Materion yn y CDLlN | Prif thema Polisi Cynllunio Cymru 11 | Amcan Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ddiogelu ac ymelwa mewn modd cynaliadwy ar ei adnoddau mwynol. | | | gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd. |
| **Amcan 6** | Tir | Hyrwyddo defnydd effeithol tir, yn cynnwys yr angen i:<br>• uchafu cyfleoedd ar gyfer datblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, gan gydnabod fod cyfleoedd tir llwyd yn gyfyngedig yn Sir Fynwy.<br>• diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ac ar yr un pryd sylweddoli na fydd hyn yn bosibl bob amser gan fod cyfran uchel o dir o'r fath yn y sir a'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygiad tir llwyd.<br>• cefnogi addasu ac ail-ddefnyddio adeiladau presennol mewn lleoliad cynaliadwy. | 16, 17 | Lleoedd strategol a gofodol | Diogelu a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd. |
| **Amcan 7** | Adnoddau naturiol | Hyrwyddo defnydd effeithiol adnoddau naturiol yn cynnwys darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer effeithiolrwydd dŵr, effeithiolrwydd ynni, ailgylchu a gostwng gwastraff. | 14, 15, 31, 37 | Lleoedd cynhyrchiol a mentrus | Diogelu a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd. |
| **Cymru Iachach (Nod Llesiant 3)** | | | | | |

| Rhif Amcan y CDLlN | Pennawd | Amcan y CDLlN | Materion yn y CDLlN | Prif thema Polisi Cynllunio Cymru 11 | Amcan Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 8** | Iechyd a llesiant* | Gwella mynediad i bawb i weithgareddau hamdden a chwaraeon, mannau agored cyhoeddus a chefn gwlad ac i alluogi ffyrdd Iachach o fyw. Cefnogi'r Bwrdd Iechyd i wella'r seilwaith iechyd i ddiwallu anghenion y gymuned. | 18, 20, 21, 33, 35 | Lleoedd actif a chymdeithasol | Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal (Nod Llesiant 4)** | | | | | |
| **Amcan 9** | Demograffeg* | Cynyddu cyfleoedd i'r boblogaeth iau i fyw a gweithio o fewn Sir Fynwy, gan greu demograffeg fwy cytbwys a chymunedau sy'n fwy cynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd. | 2, 3, 4, 5, 24 | Lleoedd actif a chymdeithasol | Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus (Nod Llesiant 5)** | | | | | |
| **Amcan 10** | Tai* | Darparu tai fforddiadwy y mae angen brys amdanynt mewn lleoliadau cymysg, cynaliadwy a gyda chysylltiadau da ar gyfer preswylwyr presennol a phreswylwyr y dyfodol. | 23, 25, 26, 27, 28 | Lleoedd actif a cymdeithasol | Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig |
| **Amcan 11** | Creu lleoedd | Creu lleoedd cynaliadwy sy'n batrwm drwy ddyluniad, gweddlun a chymysgedd defnyddiau sy'n gwella cymeriad a hunaniaeth aneddiadau a thirwedd Sir Fynwy; creu lleoedd deniadol, diogel a hygyrch i fyw a gweithio ynddynt ac i | 1, 11, 12, 18, 20, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 34, 35 | Dewisiadau strategol a gofodol | Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig |

| Rhif Amcan y CDLlN | Pennawd | Amcan y CDLlN | Materion yn y CDLlN | Prif thema Polisi Cynllunio Cymru 11 | Amcan Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ymweld â nhw a hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. | | | |
| **Amcan 12** | Cymunedau | Adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth lle mae gan bobl fynediad da i gyflogaeth, siopau, tai, trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol, gofal iechyd a chyfleusterau cymunedol a diwylliannol. | 1, 5, 7, 8, 9, 18, 20, 25, 26, 27, 29, 30, 31, 33, 35 | Dewisiadau strategol a gofodol | Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd a gyda chysylltiadau da. |
| **Amcan 13** | Cymunedau gwledig | Cynnal cymunedau gwledig presennol cyn belled ag sy'n bosibl drwy ddarparu cartrefi fforddiadwy a chyfleoedd datblygu ar raddfa ac mewn lleoliad addas mewn ardaloedd gwledig er mwyn cynorthwyo wrth adeiladu cymunedau gwledig cynaliadwy a chryfhau'r economi lleol. | 6, 7, 20, 22, 26, 29, 30, 34 | Lleoedd cynhyrchiol a mentrus | Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd a gyda chysylltiadau da. |
| **Amcan 14** | Seilwaith* | Sicrhau bod seilwaith ffisegol a digidol priodol (yn cynnwys cyfleusterau cymunedol a hamdden, carthffosiaeth, dŵr, trafnidiaeth, ysgolion, gofal iechyd a band eang ac yn y blaen) yn eu lle neu y gellir eu darparu ar gyfer datblygiadau newydd. | 12, 19, 20, 31 | Lleoedd cynhyrchiol a mentrus | Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd a gyda chysylltiadau da. |

| Rhif Amcan y CDLlN | Pennawd | Amcan y CDLlN | Materion yn y CDLlN | Prif thema Polisi Cynllunio Cymru 11 | Amcan Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 15** | Hygyrchedd | Ceisio gostwng yr angen i deithio drwy hyrwyddo cymysgedd o ddyraniadau defnydd tir a gwella cysylltedd rhyngrwyd, a lle mae angen teithio, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a chludiant cynaliadwy integredig tu hwnt i ddefnydd ceir preifat. | 10, 30, 36 | Lleoedd cynhyrchiol a mentrus | Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd a gyda chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (Nod Llesiant 6)** | | | | | |
| **Amcan 16** | Diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg | Diogelu a gwella amgylchedd adeiledig, diwylliant a threftadaeth Sir Fynwy ar gyfer y dyfodol tra'n uchafu manteision i'r economi, twristiaeth a llesiant cymdeithasol, yn cynnwys cefnogi a diogelu'r Gymraeg. | 9, 32, 33, 34, 35 | Lleoedd unigryw a naturiol | Diogelu a chynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu effaith newid hinsawdd. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang (Nod Llesiant 7)** | | | | | |
| **Amcan 17** | Argyfwng Hinsawdd a Natur * | Ymdrechu i gyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5ºC, cefnogi gostwng carbon drwy amrywiaeth o fesurau addasu yn cynnwys hwyluso ecosystemau cydnerth ac adfer natur, defnydd ynni adnewyddadwy, cartrefi parod di-garbon, dyluniad a lleoliad | 10, 12, 36, 37, 38 | Lleoedd unigryw a naturiol | Diogelu a chynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu effaith newid hinsawdd. |

| Rhif Amcan y CDLlN | Pennawd | Amcan y CDLlN | Materion yn y CDLlN | Prif thema Polisi Cynllunio Cymru 11 | Amcan Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Fynwy |
|---|---|---|---|---|---|
| | | datblygiadau newydd, annog twf swyddi a phoblogaeth cytbwys i ostwng y nifer sy'n teithio allan o'r sir i weithio, darparu cysylltiadau band eang i ostwng yr angen i deithio, darparu mannau gwefru ar gyfer cerbydau allyriad isel iawn a gwella ansawdd aer, a darparu Seilwaith Gwyrdd ansawdd uchel. | | | |

** yn dangos fod gan yr Amcan fwy o bwyslais a phwysigrwydd oherwydd pandemig Covid-19*

### Y Strategaeth a Ffefrir

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gosod cyfeiriad newydd ar gyfer y CDLlN i sicrhau twf cynaliadwy yn y Sir, gan ymgorffori'r egwyddorion a nodir yn y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwarchod ein hamgylchedd ac addasu i fyd sy'n cael ei ail-siapio gan newid hinsawdd. Cafodd y Strategaeth a Ffefrir ei llywio gan ystod eang o dystiolaeth[19] ac mae'n ymateb i nifer o heriau a gododd yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ar y Strategaeth a Ffefrir flaenorol yn Haf 2021, sef gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i lefel y twf a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir[20] a materion ansawdd dŵr yn yr Afon Gwy a'r Afon Wysg[21].

- Mae'r Cyngor wedi ystyried y ffordd orau i symud ymlaen gyda'r CDLlN gan ystyried yr heriau hyn, gan sicrhau hefyd ei fod yn cyflawni ar ein hamcanion ac yn cyfarch ein materion craidd o ddarparu tai fforddiadwy hanfodol ac yn gyflym ac yn niferus, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy ddarparu cartrefi parod di-garbon net ar gyfer ein cymunedau, a sicrhau bod ein cymunedau yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd drwy ddenu a chadw pobl ifanc i sicrhau cydbwysedd yn ein demograffig heneiddiol. Ym mis Medi 2022 cymeradwyodd y Cyngor y cynnig[22] i symud ymlaen gyda strategaeth twf a gofodol newydd sy'n ymateb i'r heriau hyn ac yn uchafu cyflenwi'r materion ac amcanion craiff hyn o fewn cyfyngiadau polisi amgylcheddol a chenedlaethol. Caiff manylion pellach ar yr opsiynau strategol a ystyriwyd eu nodi ym Mhapur Opsiynau Twf a Gofodol, Medi 2022. Mewn ymateb, mae'r Strategaeth a Ffefrir newydd yn cynnig lefel is o dwf a strategaeth ofodol ddiwygiedig sy'n ymateb i'r heriau hyn.

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir:
  - **yn gwneud darpariaeth ar gyfer tua 5,400 - 5,940 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun 2018-2033**[23]. Mae hyn yn cynnwys tua 1,580 - 1,850 o gartrefi fforddiadwy. Gan

[19] Ein materion allweddol, gweledigaeth ac amcanion, y Cynllun Llesiant Lleol, ymgynghoriad gyda'r gymuned a sesiynau ymgysylltu, ein Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, y Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy, polisi cynllunio cenedlaethol yn cynnwys Cymru'r Dyfodol; Cynllun Cenedlaethol 2040 a phrofion cadernid y Cynllun Datblygu Lleol.

[20] Cododd Adran Cynllunio Llywodraeth Cymru bryderon sylweddol am lefel y twf a gynigiwyd yn y Strategaeth a'i 'chydymffurfiaeth gyffredinol' gyda pholisïau 1 a 3 Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol, gan awgrymu y byddai twf yn Sir Fynwy yn tanseilio twf yn ardal dwf genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Yn anarferol, rhagnododd Lywodraeth Cymru uchafswm twf o 4,275 annedd dros gyfnod y Cynllun, sy'n is na'r gofyniad o anheddau blaenorol yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig (450) a ffigur gofyniad anheddau Strategaeth a Ffefrir Mehefin 2021 (507).

[21] Rhoddir manylion materion gyda ffosffadau ac ansawdd dŵr ym Mhennod 3.

[22] Cyfarfod y Cyngor, 27 Medi 2022

[23] Yn unol â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2020), gwneir lwfans darpariaethol ar gyfer lwfans hyblygrwydd o 10% i gynnwys safleoedd na fyddant efallai yn dod ymlaen, problemau nas rhagwelwyd neu i gyflawni dymuniad uwch i'r Sir i alluogi darparu/cyflenwi safleoedd ychwanegol os caiff pob safle eu cyflenwi. Caiff y lwfans hyblygrwydd ei ystyried ymhellach a'i fireinio ar y cam Adnau.

fod tua 3,740 o gartrefi yn y gronfa tir ar hyn o bryd[24], **caiff tir ei ddyrannu ar gyfer tua 1,660 - 2,200 o gartrefi newydd. yn cynnwys 830 - 1,100 o gartrefi fforddiadwy newydd.** Caiff y cartrefi hyn eu darparu drwy wahanol elfennau cyflenwad tir tai, a rhoddir eu manylion yn Nhabl 2 isod, Atodiad 6 a'r Papur Cefndir Tai.

- yn gosod y fframwaith polisi cynllunio i **alluogi darparu tua 6,240 o swyddi ychwanegol** drwy ddyrannu digon o dir cyflogaeth yn y lleoedd cywir yn y sir i ddiwallu anghenion busnesau newydd a phresennol. Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys polisïau i hwyluso twf yn y sectorau manwerthu, hamdden a thwristiaeth. Caiff y CDLlN ei gefnogi gan strategaeth datblygu economaidd.
- **canolbwyntio twf yn aneddiadau mwyaf cynaliadwy y Sir sef y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed, yn cynnwys Glannau Hafren,** yn ogystal â pheth twf yn ein aneddiadau gwledig mwyaf cynaliadwy i ddarparu cartrefi fforddiadwy y mae angen mawr amdanynt ac i gyfarch anghydraddoldeb gwledig ac ynysigrwydd gwledig yn yr ardaloedd hyn. Oherwydd diffyg dynodi datrysiad strategol ar gyfer trin ffosffadau yng ngwaith triniaeth dŵr gwastraff Trefynwy o fewn cyfnod y Cynllun, **ni chynigir unrhyw ddyraniadau safle newydd ym mhrif anheddiad Trefynwy** nac o fewn dalgylch rhannau uchaf yr Afon Gwy i'r gogledd o bont Bigsweir.
- dynodi **dyraniadau safleoedd strategol a ffefrir** ym mhrif aneddiadau y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed, yn cynnwys Glannau Hafren.
- cyfyngu effaith newid hinsawdd drwy sicrhau bod **cartrefi newydd yn barod ar gyfer di-garbon net a gyda chysylltiadau da gydag aneddiadau presennol,** gan rhoi lleoedd deniadol a hygyrch i fyw a gweithio ynddynt.
- **cyflwyno polisïau strategol** ar amrywiaeth o feysydd pwnc, yn adlewyrchu'r pedair thema creu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru[25].

4.7 Sylweddolir na all y Strategaeth a Ffefrir gyflawni amcanion y Cyngor, yn cynnwys darparu cartrefi fforddiadwy newydd, yn yr aneddiadau hynny yn nalgylch uchaf yr Afon Gwy. Ni fedrir osgoi'r diffyg hwn gan nad oes unrhyw ddatrysiadau strategol wedi eu dynodi ar hyn o bryd i drin ffosffadau yn rhannau uchaf dalgylch yr Afon Gwy yn ystod cyfnod y Cynllun, ac nid yw'n bosibl dyrannu safleoedd ar gyfer twf newydd (cartrefi a chyflogaeth) yn y dalgylch afon yr effeithir arno. Yn wahanol i hynny, mae datrysiadau strategol yn cael eu datblygu i alluogi trin ffosffadau yn nalgylch yr Afon Wysg fydd yn yn galluogi twf cynaliadwy o fewn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy o fewn dalgylch yr Afon Wysg dros gyfnod y Cynllun. Mae rhan ddeheuol y Sir lle mae'r afonydd yn llanwol yn parhau heb eu heffeithio gan y mater hwn.

4.4 Os sicrheir datrysiad strategol i ansawdd dŵr yng ngwaith trin dŵr gwastraff Trefynwy yn ystod cyfnod y Cynllun, yna gellir datblygu safleoedd ar hap o fewn ffiniau

[24] Gan fod cyfnod y Cynllun eisoes wedi dechrau (2018) cafodd rhai o'r cartrefi yn y gronfa tir eu hadeiladu eisoes, maent wrthi'n cael eu hadeiladu neu mae ganddynt ganiatâd cynllunio. Mae ffigur y gronfa tir hefyd yn rhoi ystyriaeth i safleoedd ar hap a safleoedd bach.
[25] PCC rhifyn 11, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021.

anheddiad. Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff y rhain eu hystyried fel 'safleoedd bonws' ac ni fyddant yn cyfrif tuag at ein ffigurau tai. Cynigir cynnwys y safleoedd dilynol o fewn ffin anheddiad Trefynwy:

a. Y dyraniad cyfredol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Fferm Drewen, ger Heol Wonastow (tua 110 o gartrefi);

b. Y dyraniad cyfredol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Heol Tudor, Wyesham (tua 35 o gartrefi);

c. Safle gyda chaniatâd cynllunio yn Fferm Rockfield (tua 130 o gartrefi).

Nid yw'r safleoedd uchod wedi medru symud ymlaen ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau ansawdd dŵr. Ar y llaw arall, caiff yr holl safleoedd tai a ddyrannwyd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig na chafodd eu cyflenwi eu dad-ddyrannu.

### Lefel Twf a Ffefrir

4.5 Mae Polisi Strategol S1 yn nodi Strategaeth Twf a Ffefrir y CDLlN

| **Polisi Strategol S1 – Strategaeth Twf a Ffefrir** |
|---|
| **Er mwyn cyflawni diben craidd Sir Fynwy o adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth i bawb, rhwng 2010 a 2033, bydd y Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer:**<br>• **5,940* cartref i ateb gofyniad tai o 5,400 cartref**<br>• **6,240 swydd newydd**<br>**Bydd ffocws y twf hwn ar aneddiadau mwyaf cynaliadwy y Sir, fel yr amlinellir yn yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy a nodir ym Mholisi S2.** |

*Mae'r ffigur hwn yn cynnwys lwfans hyblygrwydd dangosol o 10% a gaiff ei ystyried ymhellach a'i fireinio ar y cam Cynllun Datblygu.

4.10 Mae'r Strategaeth Twf a Ffefrir yn seiliedig ar sefyllfa a gaiff ei harwain gan ddemograffeg gyda thybiaethau polisi ychwanegol[26]. Mae'n rhoi lefel twf (cartrefi a swyddi) sy'n uchafu i ba raddau y gallwn gyfarch ein materion ac amcanion lleol seiliedig ar dystiolaeth yn ne'r Sir a dalgylch yr Afon Wysg, yn cynnwys darparu cartrefi fforddiadwy, twf economaidd cynaliadwy, ailgydbwyso ein demograffeg drwy sicrhau y gall pobl ifanc ddewis byw yn y Sir, ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, a'r materion a ddynodir ym mharagraff 4.7.

4.11 Mae'r lefel twf hwn yn cydymffurfio'n gyffredinol gyda phrif strategaeth Cymru'r Dyfodol. Er nad yw Sir Fynwy o fewn yr ardal twf cenedlaethol a ddynodir yn Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol, dengys ein tystiolaeth fod y lefel twf a gynigir yn hanfodol i gyflawni ein materion ac amcanion lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sicrhau bod y CDLlN yn gadarn. Cefnogir hyn gan bolisïau 3, 4, 5 a 7 Cymru'r Dyfodol sy'n cefnogi arweinyddiaeth gyhoeddus a defnydd tir cyhoeddus i gyflawni targedau tai fforddiadwy uchelgeisiol, cymunedau gwledig sy'n gytbwys o ran demograffeg, yr

[26] Opsiwn a gyfeirir gan ddemograffeg ar gyfer ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (h.y. yn eithrio ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn Sir Fynwy) yn cynnwys sylfaen MYE ONS 2020 ac yn gweithredu tybiaethau yng nghyswllt mudiad, cyfraddau aelodaeth aelwydydd a chymhareb teitho i'r gwaith, fel y'u nodir yn y Papur Cefndir Tai.

economi wledig a darparu cartrefi fforddiadwy. Bydd strategaeth twf y CDLlN yn cynorthwyo wrth gyfarch ein materion craidd heb niweidio na lleihau amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer rhanbarth ehangach De Ddwyrain Cymru.

4.12 Mae'r Strategaeth hefyd yn cyflawni 'profion cadernid' allweddol o sicrhau fod y Cynllun yn benodol yn lleol, yn trin materion allweddol, yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, cymesur a chredadwy, a bod gweledigaeth a strategaeth y Cynllun yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol. Mae Hunanasesiad o'r Strategaeth a Ffefrir o gymharu â'r profion cadernid yn cynnwys asesiad o gydymffurfiaeth gyffredinol y Strategaeth gyda Cymru'r Dyfodol 2040. Dengys hyn fod y Strategaeth a Ffefrir, a'r camau a'r prosesau a ddilynwyd i gyrraedd y cam hwn yn 'gadarn', a bod y Strategaeth yn cynorthwyo gyda chyflenwi polisïau allweddol Cymru'r Dyfodol ac yn cydymffurfio'n gyffredinol gyda'i strategaeth gynhwysfawr.

### Strategaeth Twf a Ffefrir: Cyfarch ein Materion ac Amcanion Allweddol

#### Darparu Tai Fforddiadwy

4.13 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn darparu tua 5,400 – 5,940 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun 2018-2033.. Mae hyn yn cynnwys darparu 1,580 – 1,850 o gartrefi fforddiadwy, y caiff tua 830 – 1,100 ohonynt eu darparu drwy ddyraniadau tai newydd.

4.14 Mae ffocws y Strategaeth a Ffefrir ar ddarparu cartrefi fforddiadwy i gyfarch yn benodol fforddiadwyedd tai sydd yn un o'r heriau mwyaf sylfaenol sy'n wynebu ein cymunedau. Mae prisiau tai cyfartalog uchel (gweler para 2.10) a phrisiau uchel tai yng nghyswllt enillion yn y Sir wedi arwain at angen mawr am dai fforddiadwy, gyda chyfran sylweddol o bobl yn methu fforddio prynu na rhentu cartref, gan olygu eu bod naill ai'n gorfod gadael y Sir neu fyw gyda'u rhieni neu mewn tai rhannu am fwy o amser. Mae'r pandemig diweddar wedi cynyddu'r angen ymhellach am gartrefi fforddiadwy ac wedi dangos faint o ddigartrefedd cudd sydd yn y Sir. Cyhoeddodd y Gweinidog, a elwid yn flaenorol yn Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, na ddylai neb ddychwelyd i'r strydoedd yn dilyn Covid-19 ac mae ymateb Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru i Covid-19 hefyd yn dangos sut y gall darparu tai cymdeithasol a marchnad newydd wneud cyfraniad sylweddol at adferiad economaidd a chydlyniaeth gymdeithasol.

4.15 Mae'r Strategaeth yn anelu i uchafu darparu tai fforddiadwy ar ddyraniadau tai newydd, gan adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu 50% cartrefi fforddiadwy ar safleoedd tai newydd i helpu mynd i'r afael ag anghenion tai, digartrefedd ac anghydraddoldeb cymdeithasol yn Sir Fynwy. Mae'r Strategaeth yn galluogi'r Cyngor i ystyried dulliau eraill ar gyfer darparu cartrefi fforddiadwy ac ymchwilir pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

4.16 I gyflawni'r amcanion allweddol, mae angen ymrwymiad i sicrhau fod y dyraniadau safleoedd newydd yn darparu 50% cartrefi fforddiadwy. Ar gyfer dyrannu safleoedd

preswyl yn y CDLlN, bydd yn hanfodol dangos fod safleoedd yn hyfyw ac y gellir eu cyflenwi, gan roi ystyriaeth i ymrwymiad y Cyngor am ddarpariaeth 50% tai fforddiadwy ar ddyraniadau safle newydd, y gofyniad am gartrefi parod di-garbon net a seilwaith cysylltiedig i sicrhau fod y datblygiad yn gynaliadwy a gyda chysylltiadau da. Gall y polisi uchelgeisiol fod angen i sefyllfa polisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio Grant Tai Cymdeithasol neu gyllid sector arall newid. Gallai'r ymrwymiad hwn fod â goblygiadau ariannol i'r Cyngor o ostwng derbyniadau o werthu tir a'r angen posibl i safleoedd gorchymyn pryniant gorfodol ar gyfer eu cyflenwi. Caiff y dull gweithredu hwn ei gefnogi gan Bolisi 3 Cymru'r Dyfodol 2040 sy'n cefnogi arweinyddiaeth gyhoeddus a defnyddio tir cyhoeddus i gyflawni targedau uchelgeisiol ar gyfer tai fforddiadwy. Bydd angen gwaith ychwanegol ar hyfywedd i arddangos hyfywedd a dichonolrwydd safleoedd yn seiliedig ar y gofynion polisi hyn. Bydd Cynllun Seilwaith a Chynllun Trafnidiaeth Lleol wedi'i ddiweddaru yn cyd-fynd â'r CDLlN i sicrhau seilwaith hanfodol.

4.17 Bydd angen i'r cartrefi y byddwn yn eu creu gyfateb â gallu pobl i dalu. Caiff datblygu ei seilio ar yr Asesiad o'r Farchnad Tai Lleol sy'n dangos ar hyn o bryd y bydd angen i 34% o gartrefi newydd ar safleoedd newydd fod yn dai cymdeithasol ar rent a bydd angen i 16% arall fod ar lai na phris y farchnad neu rent y farchnad. Mae'r Asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd yn seiliedig ar dempled newydd Llywodraeth Cymru, ond o gofio am y cynnydd mewn prisiau tai a'r argyfwng costau byw, disgwylir y bydd tai fforddiadwy rhent cymdeithasol yn parhau i fod y gyfran fwyaf o angen. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a datblygwyr tai i sicrhau cyflawni hyn. Mae'r strategaeth ofodol yn cydnabod nod Polisi 3 Cymru'r Dyfodol i arweinyddiaeth y sector cyhoeddus i ddatgloi potensial tir cyhoeddus a chymryd mwy o rôl datblygu.

**Ailgydbwyso ein Poblogaeth Heneiddiol**

4.18 Mae poblogaeth Sir Fynwy yn heneiddio ac mae hynny'n effeithio ar gynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol ein cymunedau. Mae'n rhaid i ni felly geisio sicrhau y gall pobl iau ddewis byw yn y Sir i greu cymunedau cynaliadwy a chydnerth sy'n fwy cytbwys o ran oedran, yn ogystal â chynyddu'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar.

4.19 Mae'r strategaeth yn cynnig lefel twf sy'n dechrau cyfarch y demograffig anghytbwys a heneiddiol gyda chynnydd mewn grwpiau oedran iau ac mewn gwaith[27]. Mae darparu 50% tai fforddiadwy yn ogystal ag ymyriad polisi posibl i sicrhau fod tai'r sector marchnad yn darparu ystod a chymysgedd addas o feintiau tai yn cynorthwyo wrth ddenu a chadw poblogaeth iau a mwy actif yn economaidd a chydbwyso'r boblogaeth heneiddiol.

[27] Yn rhoi cynnydd mewn grwpiau iau (0-19, +880) ac oedran gwaith (30-49, +3,222)

4.20 Bydd y gofyniad i ddarparu dewis ehangach o gartrefi marchnad llai a fforddiadwy yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc aros a hefyd symud i'r ardal. Bydd galluogi pobl iau i fyw a gweithio yn Sir Fynwy yn cynorthwyo wrth wneud ein cymunedau heneiddiol yn fwy cynaliadwy yn gymdeithasol ac economaidd, a chafodd pwysigrwydd hyn ei ddangos yn glir yn ystod y pandemig diweddar.

**Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a Natur**

4.21 Mae'r Strategaeth yn cynnig lefel twf sy'n sicrhau cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Sir Fynwy heb leihau'r cynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd angen i bob cartref fod yn gynaliadwy mewn adeiladwaith ac i fyw ynddynt (parod i fod yn ddi-garbon net), gan adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ymateb i a mynd i'r afael â newid hinsawdd a gyda chysylltiadau da gydag aneddiadau presennol, gan ychwanegu at eu cynaliadwyedd. Bydd egwyddorion creu lleoedd yn sylfaen i bob datblygiad newydd gan sicrhau ein bod yn darparu lleoedd deniadol a hygyrch i fyw a gweithio ynddynt.

**Cefnogi Twf Economaidd Cynaliadwy**

4.22 Mae'r Strategaeth yn anelu i gyfarch y materion sy'n effeitho ar dwf economaidd ar hyn o bryd tebyg i ostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith a lefelau uchel o deithio allan o'r sir i weithio. Mae'r Strategaeth yn rhoi'r fframwaith polisi cynllunio i alluogi darparu 6,240 o gartrefi ychwanegol dros gyfnod y Cynllun (416 swydd bob blwyddyn). Ni fydd yr holl swyddi hyn mewn defnyddiau dosbarth-B cynllunio: caiff swyddi eu darparu drwy ystod o sectorau tebyg i dwristiaeth, hamdden a manwerthu. Bydd cefnogi twf swyddi yn y Sir yn gostwng yr angen i deithio a phellter teithio i'r gwaith, fydd yn cynorthwyo wrth gyfarch ein heriau yng nghyswllt yr argyfwng hinsawdd a natur.

4.23 Er bod y Strategaeth yn rhagweld twf mewn swyddi dros gyfnod y Cynllun, derbynnir yn eang bellach fod y newid sylfaenol mewn arferion gwaith a brofwyd fel gwaddol i bandemig Covid-19, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref/o bell, wedi ei gwneud yn llai pwysig lle caiff rhai swyddi eu lleoli gan nad oes angen i gyflogeion bellach deithio i'r gwaith mewn llawer o achosion. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i lawer o bobl fyw a gweithio yn yr un lleoliad drwy ddull gweithio o bell.

4.24 Disgwylir y bydd y tueddiad am fwy o weithio gartref a gweithio o bell yn parhau dros y tymor hirach yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i 30% o weithlu Cymru fod yn gweithio o gartref neu'n agos gartref[28], gan ei gwneud yn llai pwysig lle mae swyddi wrth i gymudo gael ei ostwng fel canlyniad i newid mewn arferion gwaith.

[28]Gweithio Mwy Deallus: Strategaeth Gweithio o Bell ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru (2022)

4.25 Bydd cynyddu gweithio o bell/gartref yn golygu y bydd gan gyflogwyr a chyflogeion fel ei gilydd fwy o hyblygrwydd am ble i leoli gydag answadd bywyd a'r amgylchedd o bosibl yn dod yn gynyddol bwysig er budd Sir Fynwy. Mae'r pandemig diweddar hefyd wedi effeithio ar dueddiadau prynu cartrefi, gyda phwyslais ar ansawdd bywyd, maint tŷ a mynediad i ofod gwyrdd tu fas yn hytach na ffocws ar amser teithio i'r gwaith. Mae Sir Fynwy yn gynnig deniadol iawn ac gallai fod ar ei hennill o gynnydd yn y boblogaeth economaidd weithgar heb broblemau cysylltiedig mwy o gymudo. Byddai busnesau a gwasanaethau lleol yn manteisio o gynnydd mewn busnes a nifer cwsmeriaid gyda gweithwyr yn gwario eu cyflogau yn eu hardaloedd lleol gan helpu i greu cymdogaethau egniol ac ymdeimlad o le. Er hyn, mae'r angen yn parhau i ddarparu ystod a dewis digonol o dir cyflogaeth yn y Sir gan na all pob busnes weithredu o bell.

4.26 Mae'r Strategaeth Twf a Ffefrir yn hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy fydd yn helpu i ostwng lefelau cymudo a hyrwyddo cymunedau hunan-gynwysedig, gan sicrhau cynaliadwyedd amgycheddol ac economaidd ein cymunedau. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cymorth polisi i alluogi a hwyluso gweithio o gartref/o bell, galluogi twf economaidd drwy gefnogi cyflenwi'r blaenoriaethau a'r nodau a ddynodwyd yn y datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd, Prosbectws Buddsoddi a datganiad argyfwng hinsawdd y Cyngor, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael o Fargen Ddinesig Prifddinas Caerdydd, targedu twf mewn sectorau economaidd allweddol a darparu tir cyflogaeth addas yn y lleoliadau cywir. Rhoddir mwy o wybodaeth ar ddarpariaeth tir cyflogaeth ym Mholisi Strategol S12.

| S1 – Strategaeth Twf a Ffefrir – Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | Amcan 1 – Twf Economaidd/Cyflogaeth<br>Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 10 – Tai<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 15 - Hygyrchedd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC Chwefror 2021) | Polisi 1 – Ble bydd Cymru yn Tyfu<br>Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus<br>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig<br>Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy<br>Polisi 34 – Lleiniau Glas yn y De Ddwyrain |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn | Thema Dewisiadau Strategol a Gofodol Pennod 3 |

| | |
|---|---|
| 11 (LlC, Chwefror 2021) | |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – ystyriaethau yn dilyn Covid-19: Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Newid arferion gwaith: ein hangen ar gyfer tir cyflogaeth yn yy dyfodol (tudalen 20) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da. |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol Sir Fynwy 2022 | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn:<br>• lle teg i fyw ynddo gydag effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi eu gostwng;<br>• lle gwyrdd i fyw a gweitho ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur;<br>• lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter;<br>• lle diogel i fyw ynddo lle mae gan bobl gartref yn teimlo'n saff ynddo;<br>• lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill<br>• lle dysgu gyda chyfle i bawb gyrraedd eu potensial. |
| Tystiolaeth Allweddol | Papur Opsiynau Twf a Gofodol – Medi 2022<br>Diweddaru Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, Edge Analytics Tachwedd 2021<br>Papur Cefndir Tai – Rhagfyr 2022 |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisi Manwl | I'w gadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

## Strategaeth Ofodol a Ffefrir

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol S2 – Dosbarthiad Gofodol Datblygu – Hierarchaeth Aneddiadau</th></tr>
<tr><td colspan="5">Er mwyn darparu cymunedau cynaliadwy a chydnerth i bawb, bydd y prif ffocws ar gyfer datblygiad newydd wedi ei ddosbarthu yn seiliedig ar yr hierarchaeth aneddiadau dilynol:</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td><td colspan="2">Dosbarthiad Dangosol Twf Preswyl*</td><td>Dosbarthiad Twf Cyflogaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Hierarchaeth Aneddiadau</td><td>% dangosol o’r dosbarthiad</td><td>Nifer dangosol cartrefi</td><td rowspan="4">Caiff hyn ei osod yn y CDLlN Adnau a bydd yn gydnaws gyda’r strategaeth ofodol ac yn gymesur gyda lefel twf tai</td></tr>
<tr><td>Haen 1</td><td>Prif Aneddiadau:<ul><li>Y Fenni (yn cynnwys Llan-ffwyst)</li><li>Cas-gwent</li><li>Trefynwy (yn cynnwys Wyesham)</li><li>Cil-y-coed (yn cynnwys Ardal Glannau Hafren yn cynnwys Caerwent, Crug, Gwndy, Magwyr, Porthysgewin, Rogiet a Sudbrook</li></ul></td><td>24%<br>13%<br>5%<br>44%<br>ar draws ardal Glannau Hafren</td><td>1,403<br>769<br>275<br>2,609<br>ar draws ardal Glannau Hafren</td></tr>
<tr><td>Haen 2</td><td>Aneddiadau Eilaidd:<ul><li>Brynbuga</li><li>Penperllenni</li><li>Rhaglan</li></ul></td><td>6%<br>ar draws Aneddiadau Eilaidd</td><td>380<br>ar draws Aneddiadau Eilaidd</td></tr>
<tr><td>Haen 3</td><td>Prif Aneddiadau Gwledig:<br>Devauden<br>Felin Fach<br>Llanarfan<br>Llanddingad<br>Llandogo<br>Llanelen<br>Llanfable<br>Llanfair Discoed<br>Llangybi<br>Llanisien<br>Llanofer<br>Mathern<br>Penallt<br>Pwllmeurig<br>Drenewydd Gellifarch/ Mynyddbach<br>Tyndyrn<br>Tryleg<br>Werngifford/Pandy<br>Y Narth</td><td>8%<br>ar draws Prif Aneddiadau Gwledig a Mân Aneddiadau Gwledig (Haenau 3 a 4)</td><td>504<br>ar draws Prif Aneddiadau Gwledig a Mân Aneddiadau Gwledig (Haenau 3 a 4)</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Haen 4** | **Mân Aneddiadau Gwledig:**<br>**Betws Newydd**<br>**Broadstone /Catbrook**<br>**Brynygwenyn**<br>**Coed y Paen**<br>**Cross Ash**<br>**Cuckoo's Row**<br>**Great Oak**<br>**Grysmwnt**<br>**Gwehelog**<br>**Llanarth**<br>**Llanddewi Rhydderch**<br>**Llandegfedd**<br>**Llandeilo Groesenni**<br>**Llandenni**<br>**Llanfair Cilgedin**<br>**Llanfihangel Troddi**<br>**Llangwm**<br>**Llansoi**<br>**Llantrisant**<br>**Penpergwm**<br>**Tredynog**<br>**Y Bryn** | | | |

**Caiff haenau datblygu eu diffinio ar gyfer Haenau Anheddiad 1-3, y caiff egwyddor datblygu ei ystyried yn dderbyniol o'i fewn, yn amodol ar yr ystyriaethau polisi manwl a gaiff eu gosod yn y CDLlN.**

**O fewn Haen 4 – Mân Aneddiadau Gwledig, ystyrir y bydd mân fewnlenwi rhwng adeiladau presennol yn dderbyniol, yn amodol ar y gofynion polisi manwl a gaiff eu nodi yn y CDLlN.**

**Tu allan i Haenau 1-4, bydd polisïau cefn gwlad agored yn weithredol lle mai dim ond ar gyfer y mathau dilynol o ddatblygiad y rhoddir caniatâd cynllunio, yn amodol ar feini prawf cynllunio manwl:**

- **Addasiadau derbyniol i adeiladau gwledig**
- **Is-rannu anheddau presennol**
- **Anheddau mentrau gwledig**
- **Datblygiadau Un Blaned**
- **Defnyddiau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig**
- **Safleoedd eithriad tai fforddiadwy yn cydffinio â ffiniau aneddiadau i ddiwallu anghenion lleol**
- **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

*Mae ffigurau yn cynnwys lwfans hyblygrwydd dangosol o 10% a gaiff ei ystyried a'i fireiinio ymhellach ar y cam Cynllun Adnau. Dylid trin ffigurau dosbarthu gofodol fel rhai dangosol gan y gallant newyd yn dilynn gwaith asesu manwl ar safleoedd ymgeisiol.

4.27 Nod Polisi S2 yw canolbwyntio datblygiadau newydd yn gysylltiedig gyda'r Strategaeth a Ffefrir ym mhrif aneddiadau y Fenni (yn cynnwys Llan-ffwyst), Cas-gwent a Chil-y-coed yn cynnwys ardal Glannau Hafren, ynghyd â lefel is o dwf i'r aneddiadau haen is mwyaf cynaliadwy i ddarparu cartrefi fforddiadwy y mae angen mawr amdanynt ac i drin anghydraddoldeb gwledig ac ynysigrwydd gwledig yn yr ardaloedd hyn. Mae'n nodi'r gyfran ddangosol o dwf preswyl i gael ei ddarparu ym mhob un o'r haenau anheddiad (mae dadansoddiad llawn ar gael yn y Papur Cefndir Tai).

4.28 Mae'r Hierarchaeth Aneddiadau'n adlewyrchu canfyddiadau'r Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy[29], sydd wedi grwpio aneddiadau i haenau yn seiliedig ar eu rôl a'u swyddogaeth ac mae wedi llywio lle dylai datblygiad gael ei leoli'n ofodol i sicrhau patrwm twf cynaliadwy. Mae'r gwerthusiad yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu cynaliadwyedd pob anheddiad, yn seiliedig ar dair prif egwyddor trafnidiaeth a hygyrchedd, cyfleusterau a gwasanaethau, a darpariaeth cyflogaeth. Mae'r gwerthusiad yn cadarnhau rôl amlwg prif aneddiadau y Fenni, Cas-gwent, Cil-y-coed a Threfynwy. Mae'r adroddiad yn cydnabod fod gan rai o'r aneddiadau haen is berthynas ddaearyddol a swyddogaethol agos gydag anheddiad Haen 1 ac felly cawsant eu clystyru gyda'i gilydd. Mae'r aneddiadau ar hyd coridor yr M4 yn arbennig yn arddangos perthynas ddaearyddol a swyddogaethol gryf a gyda'i gilydd yn ffurfio Ardal Glannau Hafren wedi'i chanoli o amgylch prif anheddiad Cil-y-coed ac mae'n cynnwys Magwyr a Gwndy, Rogiet, Caerwent, Porthysgewin, Sudbrook a Crug. Yn yr un modd, mae'r gwerthusiad yn cydnabod y berthynas gref rhwng y Fenni a Llan-ffwyst a Threfynwy a Wyesham.

4.29 Mae'r strategaeth ofodol hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r sefylllfa ddiweddaraf ar fater ansawdd dŵr a gofynion cysylltiedig i arddangos niwtraliaeth neu wella yng nghyswllt ffosffadau wrth gynnig datblygu. Cafodd y strategaeth ei datblygu yn dilyn trafodaethau parhaus gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ar ddatrysiadau strategol y dyfodol ar gyfer lliniaru ffosffadau o fewn dalgylchoedd afonydd. Oherwydd diffyg dynodi datrysiad strategol at drin ffosffadau yng ngwaith trin dŵr gwastraff Trefynwy o fewn cyfnod y Cynllun, ni fedrir ystyried unrhyw ddyraniadau safle newydd yn rhan uchaf dalgylch yr Afon Gwy i'r gogledd o Bont Bigsweir, yn cynnwys prif anheddiad Trefynwy. Cafodd y cyfyngiad hwn hefyd ei ystyried yn y cyfraniad llai y gall lwfansau mewn-lenwi a ar hap eu gwneud o bosibl yn y dalgylch afon yma. Mae manylion llawn ar gaeal yn y Papur Cefndir Tai.

4.30 Fodd bynnag, rydym yn ymroddedig i ganfod datrysiadau i fater ffosffadau ar gyfer dalgylch rhannau uchaf yr Afon Gwy wrth i'r Cynllun fynd rhagddo. Bydd y CDLlN yn cadw dyraniadau presennol y Cynllun Datblygu Lleol yn Nhrefynwy o fewn ffiniau'r anheddiad fel 'safleoedd dyheadol' y gellid eu datblygu pe canfyddid datrysiad strategol ar gyfer ffosffadau yn nalgylch rhannau uchaf yr Afon Gwy yn ystod cyfnod y CDLlN. Ni fedrir dibynnu ar safleoedd o'r fath i gyfrannu at ddiwallu'r gofyniad tai ac

[29] Medrir gweld Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen ddilynol:

ni chânt eu cynnwys yn y ffigurau darpariaeth tai manwl. Byddai dull o'r fath yn cynnig potensial i ddatblygu fynd rhagddo yn Nhrefynwy pe gellid datrys y cyfyngiad amgylcheddol hwn cyn diwedd cyfnod y Cynllun, gan felly alluogi darparu cartrefi y mae eu mawr angen ar gyfer y cymunedau hynny.

4.31 Caiff union ddosbarthiad datblygiad ei ddynodi yn y CDLlN Adnau. Bydd unrhyw benderfyniadau ar p'un ai i ddyrannu safleoedd neilltuol ar gyfer datblygu ai peidio hefyd yn dibynnu ar faterion tebyg i'w heffaith ar ffurf ffisegol yr anheddiad, creu lleoedd, ôl-troed carbon, tirwedd, cyfyngiadau amgylcheddol a galluedd seilwaith. Lle na fedrir sicrhau twf mewn anheddiad unigol, caiff datblygiad ei gyfeirio at anheddiad yr un haen neu haen uwch o fewn yr un Ardal Marchnad Tai. Mae map o'r Ardaloedd Marchnad Tai yn y Papur Cefndir Tai. Caiff y Prif Aneddiadau Gwledig a'r Mân Aneddiadau Gwledig eu mireinio ymhellach ar gyfer y Cynllun Adnau i sefydlu pa rai o'r aneddiadau hyn sy'n addas ar gyfer twf cynalliadwy i ddiwallu anghenion lleol a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy.

4.32 I annog hyrwyddo cartrefi cymunedol lle gall preswylwyr fyw a gweithio yn yr un ardal, bydd swm cymesur o dir cyflogaeth yn mynd gyda thwf tai. Caiff cyfran twf cyflogaeth a ddarperir o fewn yr haenau anheddiad ei nodi yn y CDLlN Adnau. Mae manylion pellach ar ddarpariaeth safleoedd cyflogaeth ar gael ym Mholisi S12.

4.33 Disgwylir i gynigion datblygu wneud defnydd llawn a phriodol o dir, gyda ffafriaeth yn cael ei roi i dir a ddatblygwyd yn flaenorol er y cydnabyddir mai cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gyfer datblygiad sylweddol pellach ar dir llwyd yn Sir Fynwy. Er y caiff twf ei ganolbwyntio yn yr anheddiadau mwyaf cynaliadwy, rhaid cydnabod fod ansawdd tirwedd ac ansawdd tir amaethyddol yn uchel ledled y Sir, ac oherwydd hynny ni ellir osgoi'r heriau hyn drwy opsiwn gofodol gwahanol. Er enghraifft, mae tir amaethyddol gyda dosbarthiad lefel uchel o dir gorau a mwyaf aml-bwrpas o amgylch ein holl aneddiadau. Yn lle hynny, bydd y CDLlN yn ceisio dyrannu'r safleoedd hynny sydd â'r cysylltiadau gorau, sy'n fwyaf cynaliadwy, sydd orau wrth greu lleoedd ac sy'n lleiaf niweidiol, a fydd angen ystyriaeth ofalus a gwrthbwyso ar y cynllun Cyfnod Adnau. Cymerwyd yr un dull i ddynodi'r Dyraniad Strategol a Ffefrir ar gyfer pob prif anheddiad.

4.34 Mae Cymru'r Dyfodol 2040 (Polisi 34) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Datblygu Strategol De Ddwyrain Cymru ddynodi llain las i ogledd Caerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreinol y rhanbarth i reoli ffurf a thwf trefol. Mae Diagram Strategol Rhanbarth De Ddwyrain Cymru a gynhwysir yn Cymru'r Dyfodol yn amlinellu maint dangosol y llain las yn y rhanbarth sy'n cynnwys rhan o Sir Fynwy wledig. Mae'r Strategaeth Ofodol wedi ystyried Polisi 34 a ffin ddangosol y llain las ac mae prif aneddiadau Sir Fynwy y tu allan i ffin dangosol y llain las a pholisi cynllunio cenedlaethol[30] yn caniatau ymestyn aneddiadau presennol o faint priodol o fewn ac yn cyd-ffinio â'r llain las gan roi ystyriaeth i'r angen a ddynodwyd a thymor hirach ar gyfer tir datblygu, effeithiau

[30] PCC Rhifyn 11, paragraff 3.72

pwysau datblygu mewn ardaloedd tu hwnt i'r llain las, yr angen i leihau'r galw am deithio a diben dynodiad cyffredinol llain las. Dywed PCC 11 y gall hyn alw am ddiogelu tir ac mae'n rhaid i ffiniau lleiniau glas arfaethedig gael eu diffinio'n ofalus i gyflawni hyn. Comisiynwyd Astudiaeth Lleiniau Glas ar sail is-ranbarthol i lywio sylfaen tystiolaeth Cynlluniau Datblygu Lleol Newydd a Chynllun Datblygu Strategol De Ddwyrain Cymru.

4.35 Mae Tabl 2 yn crynhoi dosbarthiad gofodol dangosol cyffredinol darpariaeth tai ar gyfer y CDLlN. Mae dadansoddiad llawn o bob elfen ar gael yn y Papur Cefndir Tai.


**Tabl 2: Crynodeb o Ddosbarthiad Gofodol Dangosol Darpariaeth Tai ***

| Aneddiadau | Cyfanswm ymrwymiadau | | Strategaeth a Ffefrir | | Cyfanswm Darpariaeth Tai 2018-2033* |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer Cwblhau 2018-2021 | Ymrwymiadau Presennol | Cyfanswm Lwfansau (Safleoedd Bach; Safleoedd Ar Hap) | Dyraniadau Tai Newydd y CDLlN (Anheddau) | |
| Y Fenni (yn cynnwys Llan-ffwyst) | 426 | 132 | 245 | 600 | 1,403 |
| Cas-gwent | 192 | 267 | 165 | 145 | 769 |
| Trefynwy (yn cynnwys Wyesham) | 264 | 11 | 0 | 0 | 275 |
| Cil-y-coed (yn cynnwys Glannau Hafren | 466 | 723 | 220 | 1,200 | 2609 |
| Aneddiadau Eilaidd | 100 | 45 | 80 | 155 | 380 |
| Aneddiadau Gwledig | 131 | 83 | 190 | 100 | 504 |
| **Cyfanswm** | **1,579** | **1,261** | **900** | **2,200** | **5,940** |

*Mae ffigurau'n cynnwys lwfans hyblygrwydd dangosol o 10% a gaiff ei ystyried a'i fireinio ymhellach ar gam y Cynllun Adnau. Dylid trin y ffigurau dosbarthiad gofodol fel dangosol gan y gallant newid ar ôl ystyried y safleoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r Ail alwad am Safleoedd Ymgeisiol a gwaith manwl asesu safleoedd.

**4.36** Caiff y Strategaeth a Ffefrir ei dangos yn y Diagram Allweddol isod.

**Ffigur 2: Diagram Allweddol Strategaeth a Ffefrir**



| S2 – Dosbarthiad Gofodol a Hierarchaeth Aneddiadau – Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 1 – Twf Economaidd/Cyflogaeth<br>Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 10 – Tai<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 15 – Hygyrchedd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 1 – Ble fydd Cymru yn tyfu<br>Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus<br>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy<br>Polisi 34 – Lleiniau Glas yn y De Ddwyrain |
| Polisi Cynllunio Cymru (LlC, Chwefror 2021) | Thema Dewisiadau Strategol a Gofodol (Pennod 3) |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – ystyriaethau yn dilyn Covid-19:<br>Aros yn lleol: creu cymdogaethau<br>Newid arferion gwaith: angen y dyfodol am dir cyflogaeth |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwef 2018) | • Ymateb i'r heriau yn gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da. |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol Sir Fynwy 2022 | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau bod Sir Fynwy yn<br>• lle teg i fyw ynddo gydag effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi eu gostwng;<br>• lle gwyrdd i fyw a gweitho ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur;<br>• lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter;<br>• lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill |
| Tystiolaeth Allweddol | Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy – Rhagfyr 2022<br>Ail Alwad Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol – Chwefror 2022<br>Adolygiad o Safleoedd Ymgeisiol Ail Alwad o gymharu â'r Strategaeth a Ffefrir – Rhagfyr 2022<br>Papur Cefndir Tai - Rhagfyr 2022 |

| | |
|---|---|
| Monitro | I’w gadarnhau |
| Polisïau manwl | I’w gadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

# 5 GWEITHREDU A CHYFLENWI – POLISIAU STRATEGOL

## Cyflwyniad

5.1 Mae'r adran hon yn nodi'r polisïau strategol sy'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer gweithredu a chyflenwi Strategaeth a Ffefrir y CDLlN fel i caiff ei nodi ym Mholisïau Strategol S1 a S2. Mae'r fformat a'r strwythur yn adlewyrchu themâu creu lleoedd PCC11 a'r brif nod o gyflenwi datblygu cynaliadwy. Caiff y Polisïau Strategol felly eu grwpio yn ôl pynciau'r polisi cynllunioi wedi eu clystyru o amgylch y pedair thema creu lleoedd yn PCC11[31]:

| PCC 11 Themâu Creu Lleoeedd | Pynciau Polisi Cynllunio a nodir yn PCC11 |
|---|---|
| Dewisiadau Strategol a Gofodol | Dylunio Da / Hyrwyddo Lleoedd Iachach / Y Gymraeg / Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy / Cynllunio Strategol / Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig / Rheoli Ffurf Anheddiad |
| Lleoedd Actif a Chymdeithasol | Trafnidiaeth / Tai / Canolfannau Manwerthu a Masnachol / Cyfleusterau Cymunedol / Mannau Hamdden |
| Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | Datblygu Economaidd / Twristiaeth / Yr Economi Wledig / Seilwaith / Cludiant / Telathrebu / Ynni / Mwynau / Gwastaff |
| Lleoedd Unigryw a Naturiol | Tirwedd / Ardaloedd Arfordirol / Yr Amgylchedd Hanesyddol / Seilwaith Gwyrdd / Bioamrywiaeth / Dŵr, Aer Seinwedd a Golau / Llifogydd / Dadrisgio |

5.2 Dylid nodi nad yw holl bynciau PCC11 a restrir uchod yn dod o fewn Polisïau Strategol y CDLlN. Mae'n well ystyried rhai o'r pynciau hynny fel materion manylion sylfaenol drwy bolisïau eraill a gaiff eu cynnwys o fewn y CDLlN Adnau. Caiff eraill eu cynnwys yn ddigonol gan bolisi cynllunio cenedlaethol ac nid oes angen eu datblygu drwy'r CDLlN.

5.3 Sylweddolir y bydd peth gorgyffwrdd rhwng y gwahanol themâu a pholisïau ac felly dylid eu darllen mewn cysylltiad â'i gilydd. Mae pob adran yn rhoi sylw i'r polisi strategol perthnasol, y cyfiawnhad dros y polisi gyda chyfiawnhad am hynny ac mae'r tabl crynodeb yn dilyn pob un o'r polisïau strategol yn rhoi cyswllt yn ôl i amcanion perthnasol y CDLlN, polisïau Cymru'r Dyfodol 2040, themâu PCC11, Blaenoriaethu Adeiladu Lleoedd Gwell, Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff amlinelliad hefyd ei gynnwys o sut y bydd y Cynllun Adnau yn ymateb gyda meini prawf pellach neu bolisïau seiliedig ar bwnc, lle'n berthnasol. Caiff yr adran 'cyflenwi a monitro' ar ddiwedd pob polisi ei ddatblygu fel rhan o'r Cynllun Adnau. Mae adolygiad o bolisïau manwl Rheoli Datblygu y Cynllun Datblygu Lleol presennol yn Atodiad 7. Mae hyn yn dynodi polisïau sy'n

[31] Ffigur 6 PCC11 – Tudalen 20

gweithio'n effeithlon, y rhai lle mae'n debyg y bydd angen newidiadau ac yn dangos pa rai nad ydynt efallai'n briodol i'w cynnwys yn y CDLlN.

## DEWISIADAU STRATEGOL A GOFODOL

5.4 O fewn cyd-destun thema Dewisiadau Strategol a Gofodol PCC11, mae'r polisïau yn yr adran hon yn canolbwyntio ar nodi sut y bydd y lefel a ffefrir a dosbarthiad gofodol twf Sir Fynwy a nodir ym mholisïau S1 a S2 yn cyfrannu at gefnogi cymunedau cynaliadwy a chydnerth i bawb. Lle mae datblygu yn digwydd, mae'n bwysig ei fod yn cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy sydd â ffocws ar gyflenwi creu lleoedd a sicrhau bod cymunedau Sir Fynwy yn gynaliadwy yn yr hirdymor ac yn lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw.

### Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dyluniad Ansawdd Uchel

| **Polisi S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dyluniad Ansawdd Uchel** |
|---|
| **Bydd datblygu yn cyfrannu at greu lleoedd ansawdd uchel, deniadol a chynaliadwy sy'n cefnogi iechyd a llesiant y gymuned. Er mwyn cyflawni hyn, bydd datblygiad yn:**<br>**i) Cynnwys dyluniad ansawdd uchel, cynaliadwy, diogel a chynhwysol sy'n rhoi mynediad rhwydd i bawb ac yn cynnig cysylltedd rhwng defnyddiau;**<br>**ii) Cynnwys cymysgedd priodol o ddefnyddiau i leihau'r angen i deithio ac i uchafu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a defnydd trafnidiaeth gyhoeddus;**<br>**iii) Cynnwys dull gweithredu Seilwaith Gwyrdd sy'n parchu nodweddion unigryw a chymeriad y safle a'i amgylchedd; a**<br>**iv) Diogelu a gwella amgylcheddau naturiol, hanesyddol ac adeiledig a dangos dealltwriaeth o sut maent yn cydweithio i gyfrannu tuag at ansawdd lleoedd.** |

5.5 Mae Sir Fynwy yn adnabyddus am ei hunaniaeth unigryw ac ansawdd uchel ei hamgylcheddau naturiol, hanesyddol ac adeiledig. Bwriedir diogelu a gwella ansawdd aneddiadau'r Sir drwy sicrhau y caiff datblygiad newydd ei ddylunio i safon uchel sy'n creu adeiladau a lleoedd sy'n gynaliadwy, yn integreiddio'n dda o fewn eu cyd-destun ac yn cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau cryf, egnïol ac iach. Bydd y Cynllun yn anelu i gyflawni hyn drwy sicrhau bod datblygiad newydd yn cynnwys egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy a dyluniad da.

5.6 Bydd strategaeth a pholisïau y CDLlN yn ceisio dyluniad cynaliadwy ansawdd uchel a seilwaith gwyrdd ac yn rhoi pobl, adnoddau naturiol a'r amgylchedd naturiol wrth galon y broses ddylunio. Dylai cynigion gynnwys dull gweithredu dan arweiniad seilwaith gwyrdd a all gyflenwi ystod eang o fuddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac iechyd a llesiant ar gyfer cymunedau lleol a'r Sir gyfan. Bydd hyn yn cyfoethogi cymeriad a hunaniaeth aneddiadau a chefn gwlad Sir Fynwy, annog ffyrdd

o fyw cynaliadwy a chreu lleoedd deniadol, diogel a hygyrch. Bydd cyflawni hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ddynodi a deall y nodweddion lleol sy'n neilltuol i'r ardal: bydd dull seilwaith gwyrdd o ddylunio yn hanfodol i sicrhau creu lleoedd. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn partneriaeth gyda Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru wedi datblygu Siarter Creu Lleoedd Cymru: mae'r Cyngor wedi llofnodi'r egwyddorion hyn.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y Cynllun Newydd | Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirlun.<br>Amcan 8 – Iechyd a Llesiant<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 15 – Hygyrchedd<br>Amcan 16 – Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg<br>Amcan 17 – Newid Hinsawdd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol<br>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Pobl a Lleoedd: Llesiant trwy Greu Lleoedd (Pennod 2)<br>Thema Dewisiadau Strategol a Gofodol (Pennod 3) – Creu Lleoedd ar Waith: Dylunio Da yn Creu Lleoedd Gwell |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorff 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19<br>Ystyried Iechyd a Llesiant ym mhob rhan o'r Broses Cynllunio (tudalen 12)<br>Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Teithio llesol: ymarfer ac ailddarganfod dulliau trafnidiaeth (tudalen 16)<br>Adfywio canol ein trefi (tudalen 18)<br>Newid arferion gwaith – yr angen ar gyfer tir cyflogaeth yn y dyfodol (tudalen 20)<br>Ailddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru (tudalen 21)<br>Seilwaith Gwyrdd, iechyd a llesiant a chydnerthedd ecolegol (Tudalen 22)<br>Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a llesiant (Tudalen 23) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cynllun Llesiant Bwrdd | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn:<br>• lle teg i fyw ynddo gydag effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi eu gostwng;<br>• lle gwyrdd i fyw a gweitho ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur;<br>• lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter;<br>• lle diogel i fyw ynddo lle mae gan bobl gartref y maent yn teimlo'n saff ynddo;<br>• lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill |
| Tystiolaeth Allweddol | TAN 12 Dylunio |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w cadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

## Newid Hinsawdd

| **Polisi Strategol S4C – Newid Hinsawdd** |
|---|
| **Bydd yn ofynnol i bob cynnig datblygu drin achosion ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Bydd y dulliau o gyflawni hyn yn cynnwys:**<br>**i) Osgoi lleoli datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn risg o lifogydd, neu lle'n briodol, leihau'r risg o lifogydd yn cynnwys mesurau tebyg i Systemau Draeniad Trefol Cynaliadwy a dylunio gwrthsefyll llifogydd;**<br>**ii) Cynnwys gofynion ynni carbon isel/di-garbon drwy ostwng y galw am ynni a hyrwyddo effeithiolrwydd ynni;**<br>**iii) Cefnogi datblygu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel/di-garbon a thybiaeth yn erbyn cynhyrchu ynni sy'n defnyddio tanwydd ffosil, fframio a dulliau nad ydynt yn rhai carbon isel/di-garbon;**<br>**iv) Defnyddio technegau adeiladu cynaliadwy a chyflenwadau lleol drwy fabwysiadu egwyddorion economi cylchol;**<br>**v) Cynnwys mesurau effeithiolrwydd dŵr a lleihau effeithiau niweidiol ar adnoddau ac ansawdd dŵr;**<br>**vi) Defnyddio tir yn effeithiol a chyd-leoli defnyddiau i leihau'r angen cyffredinol i deithio ac uchafu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus;**<br>**vii) Darparu seilwaith gwefru cerbydau allyriad isel iawn i ostwng allyriadau a gwella ansawdd aer; a** |

| | |
|---|---|
| **viii)** | **Chefnogi cydnerthedd datblygiad drwy ddatrysiadau Seilwaith Gwyrdd yn cynnwys: cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth, darpariaeth gofodau gwyrdd a chysylltedd a rheoli adnoddau dŵr.** |

**Bydd targedau a mesurau manwl yn dilyn ym mholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau a dyraniadau safle.**

5.7 Mae'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn her sylfaenol os yw datblygu cynaliadwy a'r gofynion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gael eu cyflawni. Un o themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r angen am 'Gymru gydnerth' lle mae galluedd i addasu i newid tebyg i newid hinsawdd. Mae'n egwyddor allweddol mewn datblygu cynaliadwy, fel y cydnabyddir yn PCC11, i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy ostwng yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n achosi newid hinsawdd a sicrhau fod lleoedd yn gydnerth i ganlyniadau newid hinsawdd. Mae canllawiau cenedlaethol yn amlinellu sut gall y system cynllunio fod â rhan bwysig wrth wella cynaliadwyedd datblygiadau newydd tra hefyd yn trin newid hinsawdd. Bydd y CDLlN yn rhoi fframwaith polisi cynllunio cadarnhaol i gefnogi a galluogi'r dull hwn i gefnogi newid hinsawdd a datgarboneiddio.

5.8 Ym mis Mai 2019 derbyniodd Cyngor Sir Fynwy gynnig yn datgan argyfwng hinsawdd ac mae wedi ymrwymo i ymdrechu cyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5$^{o}$C. Yn fwy diweddar, cafodd hyn ei ehangu i gynnwys pwyslais cryfach ar adferiad natur i gydnabod yr argyfwng natur a'r berthynas rhwng y ddau. Cafodd y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Hinsawdd a Datgarboneiddio[32] oedd yn cyd-fynd â'r datganiad eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref 2019 a'u diweddaru ym mis Tachwedd 2021, gan osod yr amcanion a chamau gweithredu y bydd y Cyngor yn ceisio eu gweithredu i sicrhau gostyngiad net yn ei allyriadau carbon ei hun i sero-net erbyn 2030 a thrin materion ansawdd dŵr yn y Sir. I gydnabod y materion ansawdd dŵr yn y Sir, cafodd Cynnig ar gyfer Afonydd a'r Môr ei ddatgan gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022 gyda'r Cyngor yn cytuno ar gynllun gweithredu ym mis Medi 2022 i amlinellu'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i ddiogelu ein hafonydd a'r môr.

5.9 Mae Polisi S4 yn adeiladu ar nifer o'r camau gweithredu hyn ac yn tynnu ynghyd faterion penodol ar gynaliadwyedd yng nghyswllt defnydd a chynhyrchu ynni, defnydd effeithiol o adnoddau a risg llifogydd ac yn rhoi fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy sy'n anelu i alluogi datblygiad sy'n lliniaru achosion newid hinsawdd ac a all hefyd addasu i'w effeithiau tebygol. Mae dull gweithredu o'r fath yn hanfodol i sicrhau fod Sir Fynwy yn cyflawni yr ymrwymiadau a gynhwysir o fewn datganiad Sir Fynwy ar Argyfwng Hinsawdd (Tachwedd 2021) ac amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y CDLlN. Bydd agenda Argyfwng Hinsawdd y Cyngor yn dal i gael ei fonitro a rhoddir ystyriaeth bellach iddo yn y CDLlN Adnau.

[32] Strategaeth a Chynllun Argyfwng Hinsawdd: https://www.monmouthshire.gov.uk/climate-emergency/

5.10 Mae'r CDLlN yn cydnabod mai dim ond rhan o'r datrysiad i drin newid hinsawdd yw'r materion cynaliadwyedd a gynhwysir ym Mholisi S4 ac er fod gan y system cynllunio ran bwysig yn yr agenda hwn, mae gweithredu gan unigolion, cymunedau a sefydliadau tu allan i'r system cynllunio yn hollbwysig. Sylweddolwn fod cysylltiad cynhenid rhwng yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur a bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn eang ac yn cynnwys agweddau tebyg i drafnidiaeth, seilwaith gwyrdd a'r amgylchedd naturiol. Caiff yr egwyddorion hyn eu trin ym Mholisïau Strategol eraill y Cynllun, yn cynnwys S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Ansawdd Uchel, S9 – Trafnidiaeth Gynaliadwy a S17 – Seilwaith Gwyrdd, Tirlun a Chadwraeth Natur ac felly ni chânt eu hailadrodd yn y polisi hwn. Dylid ystyried y polisïau hyn fel un.

5.11 Mae risg llifogydd yn effaith sylweddol newid hinsawdd, o ran tebygrwydd llifogydd yn ogystal â dwysedd llifogydd. Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru o TAN 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydiad Arfordirol ar 28 Medi 2021 gyda'r bwriad iddo ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, cafodd cyhoeddiad ffurfiol ei ohirio tan 1 Mehefin 2023 ar gyfer penderfyniadau Rheoli Datblygu. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'r TAN 15 fel y cafodd ei ddiweddaru yn parhau i fod yn sail polisi ar gyfer paratoi'r CDLlN. Disgwylir ymgynghoriad pellach yn ystod 2022 cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol ym mis Mehefin 2023; rhoddir ystyriaeth i ganlyniad hwnnw fel yr aiff y Cynllun rhagddo. Dull gweithredu'r Cynllun fydd lleoli datblygiadau bregus i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd, asesu goblygiadau datblygu mewn ardaloedd sydd mewn risg llifogydd ac i sicrhau nad yw datblygiad yn cynyddu risg llifogydd mewn man arall.

5.12 Yn unol â TAN 15 fel y'i diweddarwyd, rydym wedi comisiynu Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ynghyd â naw Awdurdod Cynllunio Lleol arall yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru i lywio paratoi'r CDLlN. Defnyddir yr Asesiad Strategol hwn i helpu llywio adnabod yr ardaloedd sydd fwyaf addas ar gyfer datblygu a chefnogi adnabod a dynodi ardaloedd sy'n addas ar gyfer rheoli llifogydd mewn modd cynaliadwy a naturiol.

5.13 Rhaid i ddefnydd systemau draeniad cynaliadwy (SuDs) fod yn rhan gyfannol o ddatblygiad i ostwng effaith bosibl datblygiad newydd yng nghyswllt rhyddhau draeniad dŵr wyneb. Mae fframwaith reoleiddiol ar wahân, sef Corff Cymeradwyo Draeniad Cynaliadwy, bellach yn ei le i sicrhau fod hyn yn digwydd. Gall rheoli draeniad dŵr wyneb yn effeithlon leihau effaith datblygu yn nhermau llifogydd, effeithiolrwydd dŵr ac ansawdd dŵr.

5.14 Mae angen i'r CDLlN sicrhau fod datblygiadau newydd yn cynnwys egwyddorion ehangach dylunio cynaliadwy er mwyn sicrhau gostyngiad sylweddol mewn defnydd ynni ac allyriadau carbon, tebyg i wneud y defnydd gorau o gyfeiriadu a chysgodi. Lle'n briodol, bydd y Cynllun hefyd yn cefnogi technoleg cynhyrchu ynni carbon isel/sero carbon, yn amodol ar ystod o ystyriaethau cynllunio sylweddol. Cynhaliwyd Asesiad

Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel[33] gan yr Ymddiriedolaeth Carbon ar y potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn defnyddio Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru a bydd yn llywio'r Cynllun Adnau yn nhermau dynodi meysydd penodol i'w chwilio am gynhyrchu ynni adnewyddadwy a thargedau. Bydd y CDLlN Adnau yn cynnwys polisi yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad fod yn barod ar gyfer sero carbon net ynghyd â'r newidiadau arfaethedig i reoliadau adeiladu a gaiff eu gweithredu yn 2025, ac y caiff y manylion eu penderfynu yn y CDLlN Adnau.

5.15 Mae PCC11 yn hyrwyddo egwyddorion economi gylchol lle caiff defnydd adnoddau yn y diwydiant adeiladu ei ddylanwadu gan wneud y defnydd mwyaf addas a chynaliadwy o adnoddau y mae pen draw iddynt. Byddai dull gweithredu o'r fath yn sicrhau deunyddiau mor lleol ag sydd modd, yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy dechnegau dylunio ac adeiladu, ac yn lleihau gwastraff drwy ailddefnyddio deunyddiau ar y safle lle bynnag sy'n bosibl.

5.16 Mae darpariaeth a defnyddio adnoddau dŵr yn gynaliadwy hefyd yn ystyriaeth bwysig yn nhermau cydnerthedd adeiladu yng nghyswllt newid hinsawdd. Bydd angen i ddatblygwyr ddefnyddio dulliau a thechnegau defnyddio sy'n gwella effeithiolrwydd dŵr ac yn lleihau effeithiau niweidiol ar adnoddau dŵr. Bydd yn rhaid i gynigion datblygu o fewn ardaloedd dalgylch yr Afon Gwy ac Afon Wysg sy'n sensitif i ffosffadau fodloni canllawiau cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyswllt dangos y gall y datblygiad arddangos niwtraliaeth a gwella o ran ffosffadau mewn dyluniad a/neu gyfraniad at y corff dŵr.

5.17 Disgwylir i gynigion datblygu wneud defnydd llawn a phriodol o dir, gan sicrhau cydbwysedd rhwng dwysedd a chreu lleoedd, gyda ffafriaeth i ddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol, er y sylweddolir mai cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gyfer yn sylweddol fwy o ddatblygiad tir llwyd yn Sir Fynwy. Dylai effeithiau posibl newid hinsawdd fod yn ganolog i'r broses ddylunio, yn cynnwys y cyfraniad y gall lleoliad, dwysedd, gweddlun, ffurf adeiledig a chymysgedd defnyddiau ei wneud tuag at ddatblygiadau sy'n ymateb i'r hinsawdd. Mae'r CDLlN yn rhoi categoreiddio aneddiadau mewn hierarchaeth sy'n adlewyrchu eu cynaliadwyedd cymharol a bydd yn bolisi sy'n llywio yn nhermau gallu safle i ddarparu ar gyfer datblygiad. Bydd y Cynllun yn cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy, yn dilyn yr hierarchaeth teithio a nodir yn *Llwybr Newydd* sef gostwng yr angen i deithio a sicrhau newid mewn dulliau trafnidiaeth. Gellir cefnogi'r cynnydd mewn gweithio gartref a gweithio o bell fel canlyniad i bandemig Covid-19 dros y tymor hirach, er enghraifft drwy ddarparu gofodau rhannu gwaith lleol. ynghyd â mwy o gyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy tebyg i rwydweithiau teithio llesol, gwella trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith mannau gwefru cerbydau trydan, gellir lleihau effaith allyriadau seiliedig ar drafnidiaeth gan arwain at welliannau mewn ansawdd aer.

[33] Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Hydref 2020): https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2021/12/RLCEA-MCC-Report-Body-Version-1-1.pdf

| Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 4 – Risg Llifogydd<br>Amcan 6 – Tir<br>Amcan 7 – Adnoddau Naturiol<br>Amcan 15 – Hygyrchedd<br>Amcan 17 – Newid Hinsawdd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 8 – Llifogydd<br>Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol<br>Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwresogi<br>Polisi 17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig<br>Polisi 18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| Polisi Cynllunio Cymru 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus (Tudalen 5)<br>Thema Lleoedd Unigryw a Naturiol (Pennod 6) |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19<br>Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio (tudalen 14)<br>Seilwaith Gwyrdd, iechyd a llesiant a chydnerthedd ecolegol (tudalen 22)<br>Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a llesiant (tudalen 23) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle gwyrdd i fyw a gweithio ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur; |
| Tystiolaeth Allweddol | TAN 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)<br>TAN 12: Dylunio<br>TAN 15: Datblygu a Risg Llifogydd (2004)<br>Mapiau Cyngor Datblygu (TAN 15)<br>Canllawiau ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (LlC, 2014).<br>Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ar gyfer Cyngor Sir Fynwy – Hydref 2020 |

| | |
|---|---|
| | I ddilyn yn y Cynllun Adnau:<br>Asesiad Ynni Adnewyddadwy (yn defnyddio Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru. Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy ac Effeithiolrwydd Ynni – Mawrth 2016<br>Asesiad Strategol Canlyniadau Llifogydd yn cael ei baratoi |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w cadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

## Darpariaeth Seilwaith

**Polisi Strategol S – Darpariaeth Seilwaith**

**Lle mae seilwaith presennol yn annigonol i wasanaethu'r datblygiad a gynigir, mae'n rhaid darparu seilwaith a chyfleusterau newydd neu well i unioni diffygion fel rhan o'r datblygiad a gynigir. Lle'n bosibl, dylid darparu gwelliannau seilwaith cyn defnyddio safle. Lle nad yw darpariaeth ar y safle yn addas, ceisir darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniad ariannol at hynny.**

**Bydd angen trefniadau ar gyfer rheoli a chynnal a chadw y cyfleusterau yn y dyfodol, naill ai ar wedd cymorth dechreuol neu am byth bythoedd.**

**Ceisir Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau gwelliannau mewn seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, lle mae eu hangen i wneud datblygiad yn dderbyniol. Wrth ddynodi cyfraniadau addas, rhoddir yr ystyriaeth briodol i hyfywedd cyffredinol datblygiad, yn cynnwys cost mesurau sydd eu hangen i gyflenwi datblygiad yn ffisegol a sicrhau ei fod yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Gall rhwymedigaethau o'r fath gynnwys:**

- **Darpariaeth tai fforddiadwy**
- **Cyfleusterau addysg**
- **Teithio llesol**
- **Mesurau trafnidiaeth gynaliadwy**
- **Seilwaith trafnidiaeth**
- **Cyfleusterau hamdden, yn cynnwys mannau agored cyhoeddus ffurfiol ac anffurfiol**
- **Seilwaith Gwyrdd**
- **Cyfleusterau cymunedol a diwylliannol**
- **Lliniaru a gwella ecolegol**
- **Cyfleustodau strategol yn cynnwys seilwaith dŵr a charthffosiaeth**
- **Cyfleusterau rheoli gwastraff**
- **Cyfleusterau iechyd**

**Pe dengys ystyriaethau hyfywedd na fedrir yn rhesymol ofyn am yr holl gyfraniadau a ddynodwyd, caiff blaenoriaeth cyfraniadau ei benderfynu ar sail amgylchiadau unigol pob achos. Yn achos datblygiadau tai, rhoddir blaenoriaeth i'r tai fforddiadwy sydd eu hangen gan Bolisi S6 os nad oes angen llethol am i'r cyfraniad sydd ar gael, yn llwyr neu yn rhannol, i gael ei ddyrannu ar gyfer rhyw ddiben/ion arall angenrheidiol.**

5.18 Mae'r CDLlN yn cydnabod yr angen i sicrhau fod seilwaith priodol eisoes yn ei le neu y gellir ei ddarparu ar gyfer lefel y twf a ddynodwyd ac y caiff ei ddangos yn y strategaeth ofodol. Mae darpariaeth ystod o wasanaethau a chyfleusterau yn hanfodol i sicrhau datblygu cynaliadwy ac i ddiwallu anghenion amrywiol cymunedol, a bydd y Cynllun yn cefnogi darparu seilwaith briodol.

5.19 Mae seilwaith yn cynnwys ystod o wasanaethau a chyfleusterau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus a chyrff preifat ac mae'n cynnwys:

- Seilwaith ffisegol tebyg i gyfleusterau trafnidiaeth a seilwaith cysylltiedig (megis llwybrau troed, llwybrau seiclo), darpariaeth a thriniaeth dŵr, carthffosiaeth, atal llifogydd a draeniad, gwaredu â gwastraff, cynhyrchu a chyflenwad pŵer, yn cynnwys dulliau adnewyddadwy, seilwaith digidol a thelathrebu.
- Seilwaith gymunedol tebyg i ysgolion, gofal iechyd, gwasanaethau trafnidiaeth (yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus), adeiladau cymunedol, cyfleusterau ailgylchu cymunedol, chwaraeon a chyfleusterau hamdden, gofod agored, ac yn y blaen.
- Seilwaith Gwyrdd (fel y manylir ym Mholisi Strategol S17).

5.20 Heb fuddsoddiad priodol i alluogi darpariaeth seilwaith well neu newydd, ni fydd lefel y twf a gynigir naill ai'n gynaliadwy nac yn dderbyniol. Felly bydd angen datblygiad newydd i ddarparu neu gyfrannu tuag at ddarpariaeth y seilwaith angenrheidiol i alluogi ei ddarparu mewn modd amserol ac i gefnogi datblygu cynaliadwy yn Sir Fynwy. Dim ond lle daethpwyd i gytundeb rhwng y partïon perthnasol ar y cyllid a rhaglen gweithredu yn unol â Pholisi S5 y caniateir datblygu.

5.21 Dylai datblygwyr ymgynghori a gweithio gydag ymgymerwyr statudol a darparwyr gwasanaeth i sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol ar gyfer seilwaith o'r fath – mae hyn yn cynnwys priffyrdd, gwasanaethau cyfleustod, draeniad dŵr wyneb a gwaredu â charthffosiaeth. Oherwydd cymeriad gwledig Sir Fynwy, mae darparu seilwaith ddigidol ddigonol yn allweddol i wella cysylltedd economaidd a chymunedol ac anghenion cyfathrebu y Sir a'r angen i deithio.

5.22 Caiff y polisi hwn ei gyflenwi drwy'r broses rheoli datblygu. Gellir sicrhau cyfraniadau cynllunio ar gytundebau a wneir dan Adran 106 Deddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990 neu drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Caiff penderfyniad ar ba offeryn sydd orau wrth gyflenwi'r seilwaith gofynnol ei wneud i'r CDLlN fynd rhagddo a bod yr anghenion seilwaith yn hollol hysbys. Mae rhwymedigaethau cynllunio yn ddull o geisio cyfraniadau gan ddatblygwyr i gyfoethogi ansawdd datblygiad, darparu buddion cymunedol a seilwaith, a lleihau unrhyw effeithiau negyddol a all godi fel canlyniad i'r datblygiad. Yn unol â Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd), bydd y Cyngor yn negodi rhwymedigaethau lle mae eu hangen, sy'n berthnasol i gynllunio, gyda chysylltiad uniongyrchol gyda'r datblygiad a gynigir ac sy'n rhesymol ym mhob agwedd arall. Mae canllawiau pellach ar ddefnyddio rhwymedigaethau

cynllunio ar gael yn PCC11 a Chylchlythyr 13/97 Rhwymedigaethau Cynllunio Llywodraeth Cymru. Caiff Canllawiau Cynllunio Atodol eu paratoi i roi mwy o fanylion ar bolisi Rhwymedigaethau Cynllunio y Cyngor.

5.23 Caiff Cynllun Seilwaith ei baratoi i gyd-fynd â'r CDLlN Adnau, fydd yn dynodi'r seilwaith allweddol sydd ei angen, yr amserlenni a ragwelir ar gyfer cyflenwi a ffrydiau cyllid posibl i gefnogi cyflenwi'r safleoedd a ddyrannwyd.

5.24 Lle bernir bod angen asesiad hyfywedd, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr roi gwybodaeth fanwl a thystiolaeth i gefnogi. Gofynion polisi y Cyngor ddylai fod y man cychwyn ar gyfer gwerthusiadau hyfywedd gyda disgwyliad y bydd gwerthoedd tir yn eu hadlewyrchu. Y datblygwr fydd yn talu'r costau lle ystyrir bod angen cynnal asesiad annibynnol o hyfywyedd.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth<br>Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd<br>Amcan 4 – Risg Llifogydd<br>Amcan 8 – Iechyd a Llesiant<br>Amcan 10 – Tai<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 17 – Newid Hinsawdd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol<br>Polisi 14 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Dewisiadau Strategol a Gofodol (Pennod 3) – Cefnogi Seilwaith |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2021) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – ystyriaethau yn dilyn Covid-19 (tudalen 11)<br>Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Teithio Llesol: ymarfer ac ailddarganfod dulliau trafnidiaeth (tudalen 16)<br>Lleoedd digidol – rhaff fywyd y cyfnodau clo (tudalennau 19-20)<br>Seilwaith Gwyrdd, iechyd a llesiant a chydnerthedd ecolegol (tudalen 22) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |

| | |
|---|---|
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol Sir Fynwy 2022 | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn:<br>• lle teg i fyw ynddo gydag effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi eu gostwng;<br>• lle gwyrdd i fyw a gweitho ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur;<br>• lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter;<br>• lle diogel i fyw ynddo lle mae gan bobl gartref y maent yn teimlo'n saff ynddo;<br>• lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill;<br>• lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial. |
| Tystiolaeth Allweddol | Cynllun Seilwaith i ddilyn wrth ochr y CDLlN Adnau<br>Asesiadau Hyfywedd ar gyfer dyraniadau mewn pryd ar gyfer y CDLlN Adnau |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w gadarnhau yn y CDLlN Adnau |

## LLEOEDD ACTIF A CHYMDEITHASOL

5.25 Nod y thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol yw creu cymunedau cydlynus sydd â chysylltiadau da. Mae'r Polisïau Strategol yn yr adran hon yn anelu i sicrhau cymunedau gyda chysylltiadau da, actif ac iach sydd â mynediad i gartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol o ansawdd da.

### Cartrefi Fforddiadwy

| **Polisi Strategol S6 – Cartrefi Fforddiadwy** |
|---|
| **Targed cartrefi fforddiadwy ar gyfer cyfnod y Cynllun o 2018-2033 yw 1,580 – 1,850 cartref.** |

**Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau y caiff 50% o gartrefi fforddiadwy eu darparu ar bob dyraniad safle newydd.**

**Caiff manylion pellach ar drothwyon tai fforddiadwy eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau i ddangos deilliannau'r gwaith sy'n dod i'r amlwg ar hyfywedd.**

5.26 Mae Polisi S6 yn anelu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn benodol drwy geisio cyfarch anfforddiadwyedd prisiau tai, sydd ar hyn o bryd yn atal rhai o'n cymunedau rhag cael mynediad i gartrefi addas o fewn y Sir. Mae hyn yn debygol o fod o fudd i bobl iau, fydd yn ei dro yn gwneud ein cymunedau heneiddiol yn fwy cytbwys yn gymdeithasol ac economaidd ac yn fwy cynaliadwy. Mae cartrefi ansawdd da a fforddiadwy yn bwysig wrth ostwng tlodi a ffyniant teg, a chefnogi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae darparu cartrefi fforddiadwy y mae eu mawr angen yn gyflym ac yn niferus i helpu cyfarch anghydraddoldeb ac ailgydbwyso demograffeg y Sir i sicrhau fod cymunedau yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd yn amcan creiddiol i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau fod dyraniadau safle newydd yn darparu ar gyfer 50% tai fforddiadwy.

5.27 Cynyddodd pandemig Covid-19 yr angen am gartrefi fforddiadwy a dangos faint o ddigartrefedd cudd sydd yn y Sir. Cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol na ddylai neb ddychwelyd i'r strydoedd yn dilyn Covid-19.

### Targed Tai Fforddiadwy

5.28 Mae darparu tai fforddiadwy ar draws y Sir sy'n anelu i gyfarch y materion hyn yn nod allweddol yn y Strategaeth a Ffefrir, ac yn rhan gyfannol o ddarpariaeth gyffredinol tai yn y CDLlN. Bydd dyraniadau sy'n hyfyw yn economaidd ac sy'n bosibl eu cyflawni yn hwyluso'r nod hon ac yn sicrhau fod gan gymunedau fynediad i nifer ddigonol o gartrefi ansawdd da a fforddiadwy i ddiwallu ystod o anghenion.

5.29 Mae'r Asesiad diweddaraf o'r Farchnad Tai Leol (Rhagfyr 2020) yn dynodi diffyg blynyddol o 468 annedd ar gyfer y cyfnod 5-mlynedd 2020-25 ar gyfer daliadaethau tai fforddiadwy perchentyaeth cost isel, rhent canolradd a rhent cymdeithasol. Byddai hyn yn gyfartal â gofyniad tai fforddiadwy o 7,017 cartref os caiff ei allosod dros gyfnod y Cynllun. Nid yw hyn yn darged tai fforddiadwy realistig ar gyfer y Cynllun ac ni ddisgwylir iddo fod felly gan mai dim ond un ffordd o gyflawni cyflenwad o dai fforddiadwy yw datblygiadau newydd. Fodd bynnag, fel y nodir yn Adran 4 a Pholisi S1, mae darpariaeth tai fforddiadwy yn fater allweddol ar gyfer y Sir ac mae'n ffurfio rhan gyfannol o'r Strategaeth drosfwaol gydag angen darpariaeth o 50% ar bob dyraniad safle newydd.

5.30 Bydd y CDLlN yn cynnwys polisïau manwl yn nodi trothwyon lle bydd angen datblygiad i ddarparu tai fforddiadwy. Cynhelir Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy i lywio'r trothwyon priodol a nodir yn y CDLlN Adnau.

5.31 Caiff manylion ynghylch y rhaniad gofynnol rhwng daliadaethau ei gynnwys yn y CDLlN Adnau yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd yn yr Asesiad o'r Farchnad Tai Leol.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 10 – Tai<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol<br>Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus<br>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy<br>Polisi 33 – Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol (Pennod 4) |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19:<br>Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru gydnerth<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwef 2018) | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc.<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da). |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle teg i fyw ynddo, lle cafodd effeithiau anghydraddoldeb a thlodi eu gostwng ac yn lle diogel i fyw ynddo lle mae gan bobl gartref y maent yn teimlo'n saff ynddo. |

| | |
|---|---|
| Tystiolaeth Allweddol | Diweddaru Adroddiad Tystiolaeth Demograffig y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, Edge Analytics Tachwedd 2021<br>Papur Cefndir Tai – Rhagfyr 2022<br>Asesiad o Farchnad Tai Leol Sir Fynwy – Rhagfyr 2020<br>Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy – i'w gynnal ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau manwl | I'w gadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

## Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir

| Polisi Strategol S – Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir |
|---|
| **Caiff Safleoedd Strategol eu dyrannu i gyfrannu at gyflenwi cyfraddau tai a thwf polisi a nodir ym Mholisi S1. Caiff y safleoedd dilynol eu dynodi fel Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir:**<br>**a) Dwyrain y Fenni**<br>**b) Bradfield, Cas-gwent**<br>**c) Dwyrain Cil-y-coed** |

5.32 Er mwyn gweithredu Strategaeth y CDLlN, cafodd Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir eu dynodi ar gyfer Prif Aneddiadau y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed. Dewiswyd y safleoedd hyn o gyfanswm o 13 opsiwn twf strategol ar draws y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy a Glannau Hafren yr ymgynghorwyd yn flaenorol arnynt yn Strategaeth a Ffefrir 2021. Cafodd dewis safleoedd ei lywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ar Strategaeth a Ffefrir 2021. I lywio'r Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir hyn, cynhaliwyd asesiad lefel uchel i ddynodi'r safleoedd hynny a fedrai gyfrannu at sicrhau'r lefel twf (tai a swyddi) sydd ei angen i gyflenwi'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r safleoedd hyn wedi rhoi tystiolaeth ddigonol o hyfywedd a'r gallu i'w cyflawni ac adeiledir ar hynny wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen. Rhagwelir y bydd dwy o'r safleoedd, sef Dwyrain y Fenni a Dwyrain Cil-y-coed, yn darparu tai o fewn a hefyd tu hwnt i gyfnod y CDLlN.

5.33 Dim ond at Ddyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir y mae Polisi S7 yn cyfeirio, mae angen safleoedd ychwanegol i gyflawni'r gofyniad tai a nodir yn y Strategaeth a chaiff y rhain eu dynodi Polisi yn y Cynllun Adnau. Bydd detholiad terfynol safleoedd ar gyfer y Cynllun Adnau yn dibynnu ar fwy o waith asesu manwl.

5.34 Rhoddir manylion Dyraniadau y Safleoedd Strategol a Ffefrir yn Ffigurau 3 i 5 a Thablau 3 i 5. Mae manylion pellach yn Atodiad 5.

5.35 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd ail-ddefnyddio safleoedd tir llwyd, fodd bynnag mae'r cyfleoedd yn gyfyngedig ar gyfer datblygiad pellach sylweddol ar dir llwyd yn Sir Fynwy. Yr amcan yw sicrhau estyniadau trefol mewn lleoliad cynaliadwy gyda chysylltiadau da gyda chanol trefi a thrafnidiaeth gyhoeddus.


Bydd y CDLlN yn ceisio dyrannu'r safleoedd hynny sydd â'r cysylltiadau gorau, sydd fwyaf cynaliadwy, sydd orau ar gyfer creu lleoedd ac sy'n lleiaf niweidiol, a fydd angen ystyriaeth gytbwys a bargeinio ar gam y Cynllun Adnau. Defnyddiwyd yr un ymagwedd i ddynodi'r Dyraniad Safleoedd Strategol a Ffefrir ar gyfer pob prif anheddiad.

5.36 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir bydd y Cyngor yn cynnal asesiad manwl o bob safle i sicrhau y caiff Strategaeth y Cynllun ei chyflenwi, yn cynnwys darpariaeth:

- 50% cartrefi fforddiadwy;
- Cartrefi parod ar gyfer carbon sero-net;
- Seilwaith uwch gynllunio
- Proses meistrgynllun i sicrhau bod dyraniadau yn creu lleoedd cynaliadwy, cydlynus ac wedi eu dylunio'n dda a gaiff eu cyflenwi drwy ddull gweithredu cryf ar gyfer creu lleoedd; ac
- Asesiad hyfywedd ariannol i sicrhau y gellir cyflenwi safleoedd o fewn cyfnod y Cynllun.

# Y Fenni

### Ffigur 3: Dwyrain y Fenni





### Tabl 3: Manylion Safle Dwyrain y Fenni

| Enw'r Safle | Maint (Ha) | Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Defnydd a Gynigir | Nifer cartrefi a gynigir yng ngheisiadau safleoedd ymgeisiol | Nifer fras cartrefi o fewn cyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Fenni (Dwyrain)** | **24.75** | **CS0213** | **Defnydd Cymysg: Preswyl, Cyflogaeth, Manwerthu, Hamdden, Addysg a Defnydd Cymunedol** | **635** | **500** |

# Cas-gwent

### Ffigur 4: Bayfield, Casgwent





### Tabl 4: Manylion Safle Bayfield, Cas-gwent

| Enw'r Safle | Maint (Ha) | Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Defnydd a Gynigir | Nifer cartrefi a gynigir yng ngheisiadau safleoedd ymgeisiol | Nifer ffras cartrefi o fewn cyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bayfield, Cas-gwent** | **10.07** | **CS0098** | **Preswyl** | **145** | **145** |

## Glannau Hafren

### Ffigur 5: Dwyrain Cil-y-coed




### Tabl 5: Manylion Safle Dwyrain Cil-y-coed

| Enw'r Safle | Maint (Ha) | Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Defnydd a Gynigir | Nifer cartrefi a gynigir yng ngheisiadau safleoedd ymgeisiol | Nifer fras cartrefi o fewn cyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cil-y-coed (Dwyrain)** | **67.67** | **CS0087 CS0251** | **Defnydd Cymysg: Preswyl, Cyflogaeth, Manwerthu, Hamdden** | **1460** | **925** |

| Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 1 – Twf Economaidd/Cyflogaeth<br>Amcan 6 – Tir<br>Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 10 – Tai<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 15 - Hygyrchedd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol<br>Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus<br>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig<br>Polisi 34 – Lleiniau Glas yn y De-Ddwyrain |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, 2021) | Thema Dewisiadau Strategol a Gofodol (Pennod 3) –<br>Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn Chwilio am Safleoedd |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (Llywodraeth Cymru, 2021) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19:<br>Aros yn lleol – creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Teithio Llesol: ymarfer ac ailddarganfod dulliau trafnidiaeth (tudalen 16)<br>Newid mewn arferion gwaith – ein hanghenion ar gyfer tir cyflogaeth yn y dyfodol (tudalen 20) |
| Deddf Llesiant Cymunedau'r Dyfodol (LlC, 2015 | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Tystiolaeth Allweddol | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn:<br>• lle gwyrdd i fyw a gweithio ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur;<br>• lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter;<br>• lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill. |

| | |
|---|---|
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w gadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau |

## Sipsiwn a Theithwyr

| Polisi Strategol S8 – Sipsiwn a Theithwyr |
|---|
| **Gwneir tir ar gael i ddarparu ar gyfer anghenion llety heb eu diwallu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a ddynodwyd yn yr asesiad diweddaraf o lety Sipsiwn a Theithwyr** |

5.37 Mae'r Ddeddf Tai yn ei gwneud yn ofynnol diweddaru'r Asesiadau Anghenion Sipsiwn a Theithwyr bob pum mlynedd. Paratowyd diweddariad o'r Asesiad Anghenion a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2021 i'w gymeradwyo. Roedd hyn yn dynodi angen am naw llain breswyl rhwng 2020 – 2025 a phedair llain arall ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun o 2026 – 2033, gan roi cyfanswm o 13 llain tan ddiwedd cyfnod y Cynllun. Ni wnaeth y diweddariad ddynodi angen am safle tramwy. Caiff tir ei ddynodi yn y Cynllun Adnau i ddarparu ar gyfer anghenion llety na chaiff ei ddiwallu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

5.38 O ran safleoedd tramwy, ystyrir mai'r peth gorau fyddai ystyried y rhain ar sail ranbarthol, sydd angen cydweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos drwy broses y Cynllun Datblygu Strategol.

5.39 Caiff polisïau penodol seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n dod ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun eu hystyried o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau.

| Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 10 – Tai<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol (Pennod 4) – Sipsiwn a Theithwyr |
| Adeiladu Lleoedd Gwell | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid 19: |

| | |
|---|---|
| (LlC, Chwefror 2021) | Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwef 2018) | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn:<br>• lle teg i fyw ynddo gydag effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi eu gostwng;<br>• lle diogel i fyw ynddo lle mae gan bobl gartref yn teimlo'n saff ynddo. |
| Tystiolaeth Allweddol | Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr – Mai 2016<br>Drafft Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr – 2020-2025 (Ionawr 2021) – cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth yn Ionawr 2021 (yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd)<br>Deddf Tai (Cymru) 2014<br>Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn Teithwyr a Sioemyn<br>TAN 6: Cynllunio Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w gadarnhau yn y CDLlN Adnau |

## Trafnidiaeth Gynaliadwy

| Polisi Strategol S9 – Trafnidiaeth Gynaliadwy |
|---|
| **Mae'n rhaid i gynigion datblygu hyrwyddo dulliau cynaliadwy, carbon isel a diogel o drafnidiaeth sy'n gostwng yr angen i deithio mewn car, cynyddu darpariaeth ar gyfer cerdded a seiclo a gwella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus (rheilffordd a bws) er mwyn sicrhau buddion iechyd a llesiant sylweddol drwy gynyddu gweithgaredd ffisegol dynol a buddion amgylcheddol drwy ostwng llygredd aer a sŵn. Caiff hyn ei hwyluso gan:**<br><br>• **Datblygiad sy'n cydymffurfio gyda'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy (fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol a Llwybr Newydd) o ostwng yr angen i deithio mewn car, a hyrwyddo cerdded, seiclo, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriad isel iawn uwch ben cerbydau modur preifat;** |

- **Hyrwyddo seilwaith digidol ac arloesol mewn ardaloedd trefol a hefyd wledig i alluogi gweithio o bell a gostwng yr angen i deithio i'r gweithle ar sail dydd-i-ddydd;**
- **Hyrwyddo cysylltedd Teithio Llesol (cerdded a seiclo) drwy ddiogelu, gwella ac ehangu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol);**
- **Lleoli datblygiad yn agos at gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus a dylunio datblygiadau i hwyluso a gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, cysylltiadau a chyrraedd daearyddol i ardaloedd gwledig;**
- **Sicrhau bod datblygiadau'n cynnwys a/neu alluogi defnydd cerbydau allyriad isel iawn drwy ddarparu'r seilwaith sylfaenol angenrheidiol;**
- **Gwella diogelwch seilwaith teithio;**
- **Sicrhau y caiff datblygiadau eu gwasanaethu gan lefel briodol o ddarpariaeth parcio yn dibynnu ar natur a lleoliad y cynnig;**
- **Datblygu rôl Prif Aneddiadau Sir Fynwy yn unol â Chynllun Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy lle gellir datblygu cyfleoedd teithio cynaliadwy a'u cysylltu gyda metro De Ddwyrain Cymru; ac**
- **Arddangos sut mae datblygiadau a gynigir mewn ardaloedd gwledig yn galluogi datrysiadau i ddiwallu problemau trafnidiaeth wledig, tebyg i wella cysylltiadau i drafnidiaeth gyhoeddus, seilwaith digidol a datrysiadau blaengar, tebyg i gynlluniau rhannu ceir.**

**Bydd y Cynllun Adnau yn diogelu'r safleoedd angenrheidiol i gyflawni'r mesurau a chynlluniau trafnidiaeth allweddol a ddynodwyd mewn cynlluniau trafnidiaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.**

5.40 Caiff y flaenoriaeth ar gyfer 'gostwng yr angen i deithio' a symud i ffwrdd o'r car preifat ei adlewyrchu yn nogfen Llywodraeth Cymru Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 sy'n nodi blaenoriaethau:

- Gwella cysylltedd ffisegol a digidol i gefnogi gweithio o bell a gostwng yr angen i bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol. Mae hyn yn cyd-fynd â tharged ehangach Llywodraeth Cymru o 30% o'r gweithlu i weithio o bell ar sail reolaidd.[34]
- Buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth carbon isel, hygyrch ac effeithiol sy'n galluogi mwy o bobl i gerdded a seiclo, gan annog ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy ac iach.
- Seilwaith trafnidiaeth addas ar gyfer y dyfodol i addasu i newid hinsawdd a rhoi blaenoriaeth i'r 'Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy' a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11, sy'n rhoi blaenoriaeth i seilwaith cerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus dros y car preifat. Lle caiff ceir preifat eu defnyddio, mae angen symud ymaith o gerbydau petrol a disel i gerbydau allyriadau isel iawn.

[34] Gweithio'n ddoethach: Strategaeth gweithio o bell ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru (2022)

5.41 Mae strategaeth ofodol y CDLlN yn canolbwyntio datblygu yn ein aneddiadau mwyaf cynaliadwy sef y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed, yn cynnwys Glannau Hafren, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer gostyngiad mewn teithio a rhoi cyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy, yn arbennig gerdded, seiclo (Teithio Llesol) a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn unol â Deddf Teithio Llesol 2013 a Chanllawiau Deddf Teithio Llywodraeth Cymru (2021)[35], mae'r Cyngor wedi paratoi Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol[36], yn dynodi'r llwybrau cerdded a seiclo sydd eu hangen i greu rhwydweithiau hollol integredig ar gyfer cerdded a seiclo.

5.42 Bydd y CDLlN yn hyrwyddo cysyniad 'cymdogaeth 20 munud'[37] lle dylai datblygiad newydd fod o fewn pellter cerdded o wasanaethau beunyddiol allweddol, a fydd yn ei dro yn hyrwyddo gweithgaredd corfforol ac iechyd a lles ein preswylwyr. Bydd y CDLlN hefyd yn gosod y sylfeini i annog newidiadau tymor hirach i'r lefel hanesyddol uchel o ddefnydd ceir yn Sir Fynwy a hyrwyddo newid dulliau trafnidiaeth yn unol â Llwybr Newydd. Caiff y dyraniadau safle eu lleoli'n gynaliadwy a bydd ganddynt gysylltiadau da i annog teithio llesol a defnydd trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd polisïau yn sicrhau fod datblygiadau newydd yn rhoi'r seilwaith gwefru sydd ei angen i gefnogi symud ymaith o gerbydau petrol a disel i gerbydau allyriant isel iawn, tebyg i lai o leoedd parcio mewn lleoliadau cynaliadwy.

**Trafnidiaeth Wledig**

5.43 Mae Sir Fynwy yn sir wledig gan bennaf ac fel y nodir ym Mholisi 5 Cymru'r Dyfodol, cydnabyddir fod gwahaniaethau sylweddol rhwng ardaloedd trefol yng nghyswllt dichonolrwydd darparu systemau trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon a llwybrau teithio llesol. 'Mae lleoliad gwledig sy'n agos at ardaloedd trefol mawr yn wynebu problemau gwahanol i leoliad gwledig mwy anghysbell. Efallai na fydd yn briodol dilyn yr un polisïau ar gyfer y ddau fath o leoliad.'[38] Felly gall teithio mewn car fod yr unig ddull teithio realistig mewn rhai rhannau o Sir Fynwy.

5.44 Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i 'lwybr gwledig' sy'n nodi sut y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig rhanbarthol a gwneuthurwyr polisi Llywodraeth Cymru yn cydweithio ar strategaethau i deilwra datrysiadau i ymestyn cyrraedd daearyddol cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i ardaloedd gwledig a

---

[35] Llywodraeth Cymru, Canllawiau Deddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021) https://llyw.cymru/deddf-teithio-llesol-canllawiau-ffurflenni#canllawiau

[36] Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Sir Fynwy: https://maps.monmouthshire.gov.uk/custom/activetravelATNM.html

[37] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2020) Wythnos Hinsawdd – Sut y gall cymdogaethau 20-munud ein helpu i ymladd yn erbyn yr Argyfwng Hinsawdd ac achub ein trefi a'n dinasoedd Wythnos Hinsawdd: Sut y gall cymdogaethau 20-munud ein helpu i ymladd yn erbyn yr Agyfwng Hinsawdd ac achub ein trefi a dinasoedd – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

[38] Cymru'r Dyfodol 2040: Polisi 5: Cefnogi'r ecoonomi wledig Diweddariad i Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 (llyw.cymru)

gostwng tripiau drwy gynlluniau rhannu ceir a chreu hybiau 'rhwydweithiau dosbarthu lleol' i helpu rheoli effeithiau cynnydd yn nifer dosbarthiadau i gartrefi.[39] Felly dylai cynigion datblygu mewn rhannau gwledig o Sir Fynwy arddangos datrysiadau blaengar i gysylltu lleoliadau gwledig gyda gwasanaethau a chyfleusterau.

**Cynllunio Rhanbarthol**

5.45 Mae Sir Fynwy yn rhan o Ranbarth De Ddwyrain Cymru a bydd angen i'r datblygu a gynigir yn y CDLlN ddangos sut y gellir cynnwys dyheadau a chyfleoedd rhanbarthol mewn cynlluniau lleol fel rhan o ddull gweithredu cydlynus gyda chynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir lleol. Mae polisïau 11 a 12 Dyfodol Cymru 2040 yn nodi cynlluniau a chynlluniau trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer Cymru a phwysigrwydd cynllunio'n strategol ar gyfer cyfleoedd yn deillio o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Mae 'Cynllun Argymhellion Terfynol Comisiwn Trefniadaeth De Ddwyrain Cymru 2020' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn argymell 'rhwydwaith o ddewisiadau eraill' i ddatrys tagfeydd a dibyniaeth teithio ar lwybr teithio yr M4,[40] sy'n nodi cynlluniau gwella trafnidiaeth gyhoeddus a'r angen am 'newid ymddygiad' mewn pobl i newid patrymau cymudo. O fewn Sir Fynwy mae'r adroddiad yn argymell yn benodol welliannau a threfniadau mynediad i orsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren, a datblygu gorsaf rodfa ym Magwyr gyda Gwndy. Mae Polisi 16 Cymru'r Dyfodol: Metro De Ddwyrain Cymru, y mae Sir Fynwy yn rhan ohono, yn dynodi y Metro ymhellach fel "cyfle strategol pwysig i wella seilwaith rheilffyrdd, bysiau, beicio a cherdded ledled y rhanbarth"[41] a bod yn rhaid i'r fframweithiau polisi cynllunio lleol sicrhau fod penderfyniadau strategol hirdymor yn uchafu cyfleoedd mewn ardaloedd fydd yn manteisio o'r Metro.

5.46 Bydd y CDLlN felly yn cynllunio ar gyfer datblygu strategol o fewn lleoliadau mwyaf cynaliadwy Sir Fynwy sydd â chyfleoedd a photensial i gysylltu gyda nodau a chynllunio teithio rhanbarthol, yn neilltuol y cyfleoedd a ddynodwyd yng Nghyffordd Twnnel Hafren a chynllun Metro De Ddwyrain Cymru. Caiff yr ardaloedd twf strategol a ffefrir a ddynodwyd sef Dwyrain y Fenni, Bayfield a Dwyrain Cil-y-coed eu cysylltu gyda chanol y dref a gorsafoedd rheilffyrdd drwy gysylltiadau teithio llesol.

**Cynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy**

5.47 Bydd Cynllun Trafnidiaeth Lleol[42] yn cyd-fynd â'r CDLlN fydd yn amlygu nifer o wahanol fesurau trafnidiaeth y bydd Sir Fynwy yn eu cynnal i hwyluso datblygiad arfaethedig a nodir yn y CDLlN. Mae'r rhaglenni a amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol presennol

---

[39] Mae Byw'n Lleol yng Nghymru Wledig: RTPI Cymru 2022 yn ymchwilio rôl y gall y system cynllunio ei chwarae wrth gefnogi byw lleol mwy cynaliadwy yng Nghymru wledig Plan The World We Need (rtpi.org.uk)

[40] Argymhellion Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/comisiwn-trafnidiaeth-de-ddwyrain-cymru-argymhellion.terfynol.pdf

[41] Cymru'r Dyfodol 2040 Polisi 36: Metro De Ddwyrain Diweddariad i Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 (llyw.cymru)

[42] Cynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy – Mai 2015 https://www.monmouthshire.gov.uk/local-transport-plan/

yn cynnwys seilwaith cerdded a seiclo, rhwydwaith bysiau, gwelliannau gorsaf a phriffyrdd, cynlluniau Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, terfynau 20mya a chynlluniau diogelwch ffordd. Caiff y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ei ddiweddaru a bydd yn sylfaen i'r Cynllun Adnau. Bydd y CDLlN yn cefnogi'r cynlluniau trafnidiaeth a ddynodir o fewn Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar ôl ei ddiweddaru a, lle'n briodol, yn gwarchod tir ar gyfer cynigion trafnidiaeth allweddol tebyg i Orsaf Rhodfa Magwyr a ffordd gyswllt Cyffordd Twnnel Hafren a'r gyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 1 – Twf Economaidd/Cyflogaeth<br>Amcan 8 – Iechyd a Llesiant<br>Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 15 – Hygyrchedd<br>Amcan 17 – Newid Hinsawdd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC) Chwefror 2021 | Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol<br>Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol<br>Polisi 36 – Metro De Ddwyrain Cymru |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Gorff 2020) | Thema Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol (Pennod 4) - Symud o fewn a rhwng lleoedd |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19<br>Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Teithio llesol: ymarfer ac ailddarganfod dulliau trafnidiaeth (tudalen 16) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Cymru lewyrchus<br>Cymru cydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn: |

| | |
|---|---|
| Chorfforaethol 2022 | • lle gwyrdd i fyw a gweitho ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur;<br>• lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill. |
| Tystiolaeth Allweddol | • Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021<br>• Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Ddeddf Teithio Llesol Gorffennaf 2021<br>• Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru: Argymhellion Terfynol: Tachwedd 2020<br>• Cynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi ei ddiweddaru i gael ei baratoi wrth ochr y Cynllun Adnau.<br>• ATNM ar gyfer Sir Fynwy.<br>• Byw'n Lleol yng Nghymru Wledig: Polisi ac ymarfer cynllunio, papur trafod RTPI 2022 |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w cadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau |

## CCanol Trefi a Chanolfannau  Lleol a Chymdogaeth

| **Polisi Strategol S10– Canol Trefi a Chanolfannau Lleol a Chymdogaeth** |
|---|
| **Caiff pob datblygiad manwerthu, masnachol a chymdeithasol neu welliannau newydd, yn cynnwys defnyddiau hamdden, diwylliannol ac adloniant, eu ffocysu yn unol â'r hierarchaeth a ddiffinnir isod. Dylai datblygiadau fod yn gyson o ran maint a natur gyda maint a chymeriad y ganolfan a'i rôl yn yr hierarchaeth.**<br><br>**Mae'n rhaid i gynigion gynnal neu wella bywiogrwydd y ganolfan a'i gwneud yn fwy deniadol. Ni chaniateir cynigion a fyddai'n tanseilio bywiogrwydd a pha mor deniadol yw'r ganolfan.** |

| | |
|---|---|
| **Canol Trefi:** | **Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent, Trefynwy** |
| **Canolfannau Lleol:** | **Magwyr, Rhaglan, Brynbuga** |
| **Canolfannau Cymdogaeth:** *(Caiff y rhain eu hadolygu fel rhan o'r CDLlN Adnau)* | **Y Fenni – Heol Hillcrest, Rhodfa Rother, Y Mardy**<br>**Cil-y-coed – Gorllewin**<br>**Cas-gwent – Bulwark, Thornwell**<br>**Trefynwy – Overmonnow, Wyesham, Yr Albion** |

5.48 Mae PCC11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi hierarchaeth o ganolfannau sy'n gwahaniaethu rhwng canolfannau graddiad uwch sydd ag ystod ehangach o ddefnyddiau a dalgylchoedd mwy, a chanolfannau graddiad is sy'n bwysig ar gyfer cymunedau ar gyfer anghenion dydd-i-ddydd. Mae Polisi S10 yn nodi'r hierarchaeth hon ar gyfer Sir Fynwy, er y rhoddir ystyriaeth bellach i hyn fel rhan o'r Astudiaeth Fanwerthu fydd yn sylfaen i'r Cynllun Adnau.

5.49 Mae Prif Aneddiadau y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy yn debyg i drefi marchnad, gan gynnig ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau, gyda manwerthu yn elfen allweddol, ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r canolfannau yn denu nifer sylweddol o siopwyr o'u gwahanol drefi a'r gefnwlad o'u hamgylch. Y trefi hefyd yw'r prif gyrchfannau i ymwelwyr yn y Sir, sy'n darparu amrywiaeth o gyfleusterau hamdden, twristiaeth a diwylliannol. Mae gan ganol tref Cil-y-coed gynnig mwy cyfyngedig na'r prif aneddiadau eraill, er ei bod yn dal i fod yn ganolfan bwysig yn gwasanaethu'r ardal gydag amrywiaeth o gyfleusterau. Mae Cyngor Sir Fynwy, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid allweddol tebyg i Gyngor Tref Cil-y-coed, Prifddinas Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru, yn gweithredu prosiect uchelgeisiol i adfywio canol tref Cil-y-coed. Er nad yw'r dref yn brif gyrchfan twristiaeth, mae Cil-y-coed yn atyniad lleol ac mae'r Cyngor yn hyrwyddo atyniadau twristiaeth cyfagos tebyg i Gastell a Pharc Gwledig Cil-y-coed, Craig Ddu a Gwastadeddau Gwent.

5.50 Mae gan ganolfannau lleol y Sir – Magwyr, Rhaglen a Brynbuga – hefyd rôl bwysig yn yr hierarchaeth gyda rôl fwy lleol ar gyfer preswylwyr, gyda ffocws amlwg ar siopa cyfleustra (bwyd) ac elfen o siopa cymhariaeth (heblaw bwyd) ynghyd â pheth darpariaeth gwasanaethau lleol. Yn yr un modd mae canolfannau cymdogaeth hefyd yn rhoi swyddogaeth dydd-i-ddydd leol bwysig ar gyfer eu cymunedau lleol.

5.51 Mae Diweddariad Rhagolygon Gwariant Manwerthu Sir Fynwy (2020)[43] yn nodi bod canolfannau Sir Fynwy yn perfformio'n gymharol dda fel cyrchfannau ar gyfer masnachu cyfleustra, ond dim cystal fel cyrchfannau ar gyfer siopa cymhariaeth. Mae mwy o wybodaeth ar iechyd a swyddogaeth canol trefi a chanolfannau lleol hefyd ar gael ym Mhapur Cefndir Manwerthu Awst 2022[44]. Mae'r dirywiad yn rôl canol trefi fel cyrchfannau ar gyfer siopa nwyddau cymhariaeth yn dangos pwysigrwydd denu ystod amrywiol o ddefnyddiau i ganolfannau masnachol tebyg i ddefnyddiau hamdden a chymunedol. O gofio am newid yn rôl canolfannau masnachol, caiff ffiniau cyfredol yr Ardal Siopa Ganolog a'r Prif Ffryntiad Siopa eu hadolygu yn y CDLlN Adnau a'u diwygio, os oes angen, i gydnabod yr angen am hyblygrwydd wrth gynnal defnydd a nifer ymwelwyr ac annog cymysgedd o ddefnyddiau fydd yn hyrwyddo iechyd a bywiogrwydd cyffredinol canol trefi. Cynhelir diweddariad o Ragolygon Gwariant Manwerthu (2020) Sir Fynwy hefyd i roi ystyriaeth i'r lefelau twf poblogaeth a sefydlwyd yn y Strategaeth a Ffafrir. os yn briodol, caiff y tir ei ddynodi yn y Cynllun Adnau ar gyfer anghenion manwerthu yn y dyfodol.

5.52 Oherwydd rôl a swyddogaeth hanfodol y canolfannau hyn, mae'n bwysig y caiff sefyllfa canolfan yn yr hierarchaeth ei gynnal a, lle'n bosibl, ei wella. Mae cynnal a gwella prif aneddiadau y Sir fel canolfannau bywiog a deniadol a chynnal swyddogaeth hanfodol ein canolfannau eraill yn amcan allweddol i'r CDLlN drwy ganolbwyntio datblygiadau

[43] Rhagolygon Gwariant Masnachol Sir Fynwy – 2020 https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/development-of-an-evidence-base/
[44] Papur Cefndir Manwerthu – Awst 2022 https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/annual-monitoring/retail/

manwerthu newydd a gwell, a masnachol, yn cynnwys hamdden, adloniant a datblygiadau diwylliannol a chymunedol o faint a natur addas, mewn canolfannau dynodedig. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau fod y canolfannau'n parhau'n lleoedd deniadol i fyw ynddynt ac i ymweld â nhw ac mae ganddynt rôl hanfodol wrth ddiwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr.

5.53 Mae dogfen Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2020) yn cydnabod y canlyniadau economaidd mewn canol trefi fel canlyniad i'r pandemig diweddar. Mae'n rhoi'r dasg i'r system cynllunio o ymateb i hyn gan sicrhau y gall canol trefi a chanolfannau lleol weithredu mor hyblyg ag sydd modd. Er yn cydnabod rôl bwysig canol ein trefi, bydd y stryd fawr yn parhau i newid ac mae angen clir am bolisïau cynllunio hyblyg yn ein canolfannau i alluogi 'ail-ddychmygu' ein stryd fawr ar draws y Sir. Gallai mwy o weithio ystwyth/gweithio gartref hefyd arwain at fwy o wariant yng nghanol ein trefi, gyda'r ewyllys da cymunedol a grisialwyd gan ymateb Covid-19 yn helpu i gefnogi busnesau a manwerthwyr lleol. Yng ngoleuni'r newidiadau hyn caiff angen am fwy o hyblygrwydd ei adlewyrchu yn y fframwaith polisi cynllunio manwl a gaiff ei nodi yn y Cynllun Adnau.

5.54 Er yn cydnabod yr angen am fwy o hyblygrwydd, yn Cymru'r Dyfodol mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ymagwedd 'Canol Trefi yn Gyntaf'. Mae hyn yn rhoi iechyd a bywiogrwydd canol trefi fel y man cychwyn ar gyfer gwneud penderfynaidau ar leoliad. Mae hefyd yn cyfeirio cyfleusterau a gwasanaethau i fannau lle gall y defnyddwyr arfaethedig gerdded neu seiclo yn rhwydd a/neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i'w cyrraedd. Caiff datblygiadau o faint addas o fewn canol ein trefii a chanolfannau lleol eu cefnogi yn y CDLlN. Mae maint a graddfa datblygiadau canol trefi yn y dyfodol yn hollbwysig i gynnal cymeriad a swyddogaeth aneddiadau'r Sir. Mae felly'n bwysig fod datblygiadau newydd yn gydnaws gyda maint a swyddogaeth y canolfannau presennol ac yn rhoi ystyriaeth i'w safle o fewn yr hierarchaeth gyffredinol. Caiff datblygiad anaddas a fyddai'n tanseilio bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canol trefi a chanolfannau lleol a chymdogaeth y Sir, tebyg i fanwerthu allan o'r dref, ei wrthwynebu'n gryf. Caiff polisïau manwl eu cyflwyno yn y CDLlN Adnau gan roi eglurhad pellach ar ble y caniateir a ble na chaniateir datblygiad, a lle bydd newid defnydd yn gyfyngedig.

5.55 Mae canol trefi a chanolfannau lleol a chymdogaeth y Sir yn rhoi cyfleoedd manwerthu, cyflogaeth, hamdden, twristiaeth a diwylliannol. Mae gan dwristiaeth, yn neilltuol, ran bwysig wrth gynnal canol trefi hanesyddol Sir Fynwy sef y Fenni, Cas-gwent a Threfynwy, yn ogystal â Brynbuga. Mae'n hanfodol cynnal rôl a swyddogaeth yr aneddiadau hyn fel cyrchfannau pwysig i ymwelwyr a chynyddir hynny dros gyfnod y Cynllun. Bydd cyd-leoli cyfleusterau manwerthu, masnachol a hamdden a chyfleusterau twristiaeth yn y canolfannau hyn lle medrir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drwy gerdded a seiclo, yn helpu i gynnal a chynyddu eu bywiogrwydd, hyfywedd a'u hapêl ac yn cyfrannu at ostyngiad yn y galw am deithio.

**Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach**

| | |
|---|---|
| Amcanion y CDLl Newydd | Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth<br>Amcan 2 – Canol Trefi a Chanolfannau Lleol<br>Amcan 8 – Iechyd a Llesiant<br>Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 15 – Hygyrchedd<br>Amcan 16 – Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 6 –Canol Trefi yn Gyntaf |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol (Pennod 4) – Datblygiadau Manwerthu a Masnachol |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19:<br>Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Teithio Llesol: ymarfer ac ailddarganfod dulliau trafnidiaeth (tudalen 16)<br>Adfywio canol ein trefi (tudalen 18)<br>Newid arferion gwaith – yr angen ar gyfer tir cyflogaeth yn y dyfodol (tudalen 20)<br>Ailddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru (tudalen 21)<br>Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a llesiant (Tudalen 23) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, Gorffennaf 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (LlC, 2015) | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn:<br>• lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter; |

| | |
|---|---|
| | • lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill |
| Tystiolaeth Allweddol | TAN 4: Datblygiadau Manwerthu a Masnachol – Tachwedd 2016<br>Adolygiad o ffiniau'r Ardal Siopa Ganolog a Phrif Ffryntiadau Siopa – bydd hyn yn cefnogi'r ffiniau manwl a ddiffinir yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau<br>Paratoir Astudiaeth Fanwerthu Sir Fynwy i lywio'r Cynllun Adnau<br>Papur Cefndir Manwerthu – Awst 2022<br>Canllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa – Ebrill 2016 |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w cadarnhau yn y CDLlN Adnau |

## Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

| **Polisi Strategol S11 – Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden** |
|---|
| **Lle nad yw lleoliad mewn canol tref neu ganolfan leol ar gael neu'n addas, caniateir cynigion datblygu sy'n darparu a/neu yn gwella cyfleusterau cymunedol a hamdden o fewn neu ger ffiniau aneddiadau yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl. Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol a hamdden heb fod cyfiawnhad dros hynny.** |

5.56 Mae'r Cyngor yn ymroddedig i warchod a gwella cyfleusterau cymunedol i ddiwallu anghenion preswylwyr dros gyfnod y Cynllun. Mae darparu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol sy'n hygyrch i gynifer o bobl ag sy'n bosibl yn hanfodol i ddatblygu cymunedau cynaliadwy, cydnerth a chynhwysol. Mae cyfleusterau o'r fath yn werthfawr yn nhermau'r cyfleusterau a ddarparant, y gyflogaeth a gynhyrchant ac wrth ddenu pobl i fyw gyda ni o fewn ardal. Fel y nodir uchod, mae Cymru'r Dyfodol yn hybu dull 'Canol Trefi yn Gyntaf' sy'n rhoi iechyd a bywiogrwydd canol trefi fel y man dechrau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar leoliad. Mae hefyd yn cyfeirio cyfleusterau a gwasanaethau i fannau lle gall y defnyddwyr arfaethedig gerdded neu seiclo yn rhwydd iddynt a/neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i'w cyrraedd.

5.57 Ar gyfer diben y polisi hwn, caiff cyfleusterau cymunedol eu diffinio fel cyfleusterau a ddefnyddir gan gymunedau lleol ar gyfer dibenion hamdden, cymdeithasol, iechyd, addysg a diwylliannol ac maent yn cynnwys neuaddau pentref a siopau, ysgolion, meddygfeydd teulu/canolfannau iechyd, canolfannau hamdden, tai tafarn, mannau addoli, rhandiroedd, tyfu bwyd cymunedol a llyfrgelloedd. Gallant fod mewn perchnogaeth gyhoeddus, breifat neu gymunedol. Gellir ystyried cyfleusterau cymunedol yn addas mewn ardaloedd preswyl ac mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai preswyl, lle maent yn bodloni'r polisïau perthnasol, gan eu bod yn gwasanaethu anghenion y gymuned ehangach. Er fod tybiaeth gyffredinol o blaid cyfleusterau cymunedol, ni ddylent leihau cymeriad ac ymddangosiad yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, na nodweddion dyluniad eu lleoliad. Dylai cyfleusterau newydd fod â

mynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol, yn ogystal â bod o fewn pellter cerdded i gynifer o gartrefi ag sydd modd. Caiff y meini prawf ar gyfer asesu cynigion sy'n golygu colli cyfleusterau cymunedol neu hamdden eu gosod ym mholisïau Rheoli Datblygu y Cynllun Adnau.

5.58 Mae'r pandemig Covid-19 diweddar wedi tanlinellu pwysigrwydd ystyried iechyd a llesiant ym mhob rhan o'r system cynllunio i sicrhau fod cymunedau ar draws Cymru yn iach, bywiog a chynhwysol. Mae dogfen Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2020) yn cydnabod fod gan y system gynllunio rôl bwysig wrth gefnogi ffyrdd mwy iach o fyw. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu, gwarchod a gwella mannau agored yn y Sir sy'n bwysig ar gyfer hamdden, amwynderau, bioamrywiaeth, cysylltedd a/neu dreftadaeth. Mae mynediad i fannau agored yn hanfodol i gyfoethogi ansawdd bywyd ar gyfer pawb a hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a chydnerth ar gyfer pawb. Gall helpu i faethu cynhwysiant cymdeithasol, cynorthwyo ffyrdd mwy iach o fyw a chaniatáu gweithgareddau hamdden. Mae'n bwysig cynnal a gwella rhwydwaith hygyrch o fannau agored.

5.59 Mae cyfleusterau hamdden yn cynnwys chwaraeon ffurfiol, hamdden a gweithgareddau tebyg i gemau tîm, cyfleusterau chwarae i blant, yn ogystal â gweithgareddau mwy anffurfiol tebyg i gerdded yng nghefn gwlad. Rhoddir manylion pellach categorïau a safonau hamdden yn y Cynllun Adnau yn ogystal â dynodi tir i gael ei warchod ar gyfer dibenion o'r fath. Mae cyfleusterau hamdden yn bwysig ar gyfer twristiaeth ac, yn ymarferol, mae'n anodd diffinio'r gwahaniaeth rhwng cyfleusterau ar gyfer preswylwyr lleol ac ymwelwyr. Fodd bynnag, ar gyfer dibenion y Cynllun hwn, mae polisïau sy'n cyfeirio at gyfleusterau hamdden a chymunedol yn cyfeirio at weithgareddau a wneir yn bennaf gan breswylwyr lleol yn hytrach na gweithgareddau sy'n gysylltiedig yn fwy gyda thwristiaeth.

5.60 Ceisir darparu cyfleusterau cymunedol a hamdden newydd a mannau agored a/neu gyfraniadau tuag at wella mannau agored presennol a hamdden mewn cysylltiad gyda datblygiadau preswyl newydd lle mae eu hangen a bod cyfiawnhad drostynt. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i greu datblygiadau cynaliadwy sy'n darparu ar gyfer anghenion y gymuned yn ogystal â hyrwyddo datblygiadau defnydd cymysg cynaliadwy sy'n hwyluso mynediad drwy drafnidiaeth cyhoeddus, cerdded a seiclo.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 3 –Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd<br>Amcan 8 – Iechyd a Llesiant<br>Amcan 9 - Demograffeg<br>Amcan 11 = Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 15 – Hygyrchedd |

| | |
|---|---|
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol<br>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 6 –Canol Trefi yn Gyntaf<br>Polisi 34 – Lleiniau Glas yn y De Ddwyrain |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol (Pennod 4) -<br>Cyfleusterau Cymunedol<br>Mannau Hamdden |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorff 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19<br>Ystyried Iechyd a Llesiant ym mhob rhan o'r Broses Cynllunio (tudalen 12)<br>Aros yn lleol: creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Teithio Llesol: ymarfer ac ailddarganfod dulliau trafnidiaeth (tudalen 16)<br>Seilwaith Gwyrdd, iechyd a llesiant a chydnerthedd ecolegol (Tudalen 22) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru iachach<br>Cymru fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynol<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle gyda chysylltiadau gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi cysylltu gydag eraill. |
| Tystiolaeth Allweddol | TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored<br>Archwiliad Mannau Agored Amwynder Sir Fynwy i ddilyn gyda'r Cynllun Adnau. |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w gadarnhau yn y CDLl Adnau |

## MANNAU CYNHYRCHIOL A MENTRUS

5.61 Mae twf economaidd a chydnerthedd yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer Cyngor Sir Fynwy a gaiff ei yrru gan yr angen i drin y gostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith a lefelau uchel o gymudo allan o'r sir. Er mwyn creu cymunedau cynaliadwy a chydnerth, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn dynodi lefel twf sy'n darparu cydbwysedd

addas o dwf aelwydydd a thwf swyddi. Bydd y CDLlN yn anelu i hwyluso'r twf hwn drwy roi fframwaith polisi sy'n caniatáu i Sir Fynwy ddenu a chadw buddsoddiad, creu swyddi, gwella seilwaith strategol drwy ddynodi digon o dir cyflogaeth ar gyfer cyflogaeth draddodiadol (dosbarth defnydd B) a hyrwyddo cynhyrchwyr cyflogaeth eraill sy'n bwysig i economi Sir Fynwy. Daw twf swyddi hefyd drwy dwf a chadw busnesau bach a chanolig a ffurfio rhai newydd, gyda pholisïau cynllunio cefnogol, marchnata ac ymyriadau eraill fel sydd angen i wneud i hyn ddigwydd.

## Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth

| **Polisi Strategol S12 – Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth** |
|---|
| **Gwneir darpariaeth ar gyfer o leiaf 38 ha o dir ar amrywiaeth a dewis addas o safleoedd ar gyfer datblygiad diwydiannol a busnes (dosbarthiadau B1, B2 a B8 Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd Cynllunio Tref a Gwlad 1987) yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun.**<br><br>**Caiff tir a safleoedd cyflogaeth presennol sy'n parhau i fod eu hangen ar gyfer dibenion cyflogaeth eu gwarchod rhag mathau eraill o ddatblygiad.**<br><br>**i sicrhau y darperir ystod o fathau a meintiau tir a safleoedd cyflogaeth, caniateir datblygu ar gyfer y dilynol, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl.**<br>• **Unedau bach a gweithdai ar gyfer busnesau ledled y sir i gynorthwyo wrth ddarparu cyfleoedd adfywio, gan alluogi busnesau bach a chanolig i sefydlu a thyfu, a sicrhau twf economaidd cynaliadwy;**<br>• **Integreiddio cyfleoedd cyflogaeth newydd mewn datblygiadau defnydd cymysg.** |

5.62 Caiff proffil economaidd Sir Fynwy ei nodweddu gan lefelau cyflogaeth isel, ond cyfradd anweithgaredd economaidd uchel, gan adlewyrchu ei phoblogaeth gynyddol heneiddiol a gostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith. Bu lefelau all-gymudo a'r pellteroedd a deithiwyd hefyd yn uchel yn hanesyddol. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar dwf cyflogaeth o fewn Sir Fynwy a chynaliadwyedd cymdeithasol ein cymunedau. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn anelu i drin y materion hyn drwy hyrwyddo lefel twf a strategaeth ofodol fydd yn hyrwyddo mwy o dwf cyflogaeth, cefnogi mwy o gadw'r gweithlu a sicrhau gostyngiad yn all-lif net gweithwyr. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhoi'r fframwaith polisi cynllunio i alluogi darparu 6,240 o swyddi dros gyfnod y Cynllun (416 swydd y flwyddyn). Mae lefel y twf swyddi yn alinio gyda'r rhagamcan twf poblogaeth a thai ac yn rhoi ystyriaeth i addasiadau ar gyfer cyfraddau aelodaeth aelwydydd ar gyfer grwpiau oedran iau allweddol a lefel is o gymudo drwy gadw mwy o'r gweithlu preswyl.

5.63 Mae sicrhau twf economaidd lleol a ffyniant yn nod allweddol i'r Cynllun a chyflawnir hynny drwy amrywiaeth o ddulliau a sectorau. Bydd angen mwy na dim ond dyrannu tir yn y CDLlN i gyflawni'r uchelgais am dwf; mae'r Datganiad Uchelgais Economaidd

yn gosod cyfeiriad teithio y cyngor a'r cyfuniad o fesurau sydd eu hangen, yn cynnwys Prosbectws Buddsoddi, ymgysylltu agos gyda'r sector busnes, gan ddangos diwylliant o blaid busnes ac ymyriadau cynnull tir i sicrhau y caiff safleoedd eu cyflwyno. Mae hefyd yn debyg y bydd angen ymyriadau polisi hefyd o ran polisïau cymysgedd tai, i gyflawni'r nod o gadw a hyfforddi demograffig ieuengach.

5.64 Mae gan y CDLlN rôl allweddol wrth gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer twf economaidd a bydd yn un o'r prif alluogwyr wrth gyflenwi twf economaidd cynaliadwy a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau presennol a sectorau newydd. Fel y nodir uchod, caiff blaenoriaethau Sir Fynwy ar gyfer twf economaidd eu nodi yn 'Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd' a'r Prosbectws Buddsoddi sy'n cyd-fynd ag ef. Mae'r datganiad yn adlewyrchu polisïau cenedlaethol a rhanbarthol yn cynnwys yr uchelgeisiau ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn adeiladu ar argymhellion 'Adroddiadau Economïau y Dyfodol'. Fel y manylir yn Adran 2, mae'r Datganiad yn nodi blaenoriaethau economaidd Sir Fynwy wrth symud ymlaen fel:

- Lle deinamig ar gyfer busnes
- Lle credadwy i fuddsoddi ynddo
- Lle anhygoel i fyw ac ymweld ag ef ac aros ynddo

5.65 Mae gan Sir Fynwy gysylltiadau da yn ddaearyddol, wedi'i lenwi mewn lleoliad strategol allweddol sy'n manteisio o gysylltiadau da i Gaerdydd, Bryste a Chanolbarth Lloegr. Gyda dileu tollau Pont Hafren yn ddiweddar, disgwylir hefyd y bydd perthynas Sir Fynwy gydag Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr, Dinas Ranbarth Bryste, Coedwig y Ddena a De Swydd Caerloyw yn cryfhau a hybu rôl economaidd y Sir yn y rhanbarth. Mae Sir Fynwy mewn lleoliad da i fanteisio o gynlluniau tebyg i Great Western Cities a'r Western Power House, sy'n anelu i hybu twf economaidd drwy gydweithio rhanbarthol.

5.66 Fel y nodwyd yn Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), nod y strategaeth yw sicrhau cydbwysedd rhwng cartrefi a swyddi a thrwy hynny ostwng yr angen ar gyfer cymudo (paragraff 5.25). Mae'r Llawlyfr yn cydnabod y bydd ffactorau yn cynnwys y gweithlu sydd ar gael, lefelau mudiad net a phatrymau cymudo yn dylanwadu'n gryf ar faint y twf economaidd a gyflwynir mewn cynllun. Er bod y ffactorau hyn yn parhau'n berthnasol ac yn amcanion allweddol yn y Cynllun, derbynnir yn eang fod y newid sylfaenol mewn arferion gwaith a brofwyd fel gwaddol pandemig Covid-19, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref/o bell, wedi ei gwneud yn llai pwysig lle mae rhai swyddi wedi eu lleoli gan nad oes angen mwyach i gyflogeion gymudo i'r gwaith mewn llawer o achosion. Mae hyn wedi rhoi cyfle i lawer o bobl fyw a gweithio yn yr un lleoliad drwy ddull gweithio o bell newydd ac yn alinio gyda 'Gweithio Doethach: Strategaeth Gweithio o Bell ar gyfer Cymru'. Mae hyn yn nodi dull gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod 30% o weithlu Cymru yn gweithio gartref neu'n agos at gartref ac yn sefydlu diwylliant sy'n cefnogi gweithio o bell.

5.67 Mae buddion y newid hwn yn ymestyn tu hwnt i ostwng llygredd a thagfeydd traffig: dangosodd profiad yn ystod y pandemig fod pobl yn gweithio gartref yn gwario eu hincwm yn lleol yn hytrach nag yn eu man gweithio. Mewn llawer o achosion, er y cyfyngiadau ehangach yn gysylltiedig gyda'r pandemig, fe wnaeth busnesau lleol yn ein trefi marchnad oroesi: mae canol tref Magwyr yn astudiaeth achos neilltuol o lwyddiannus o gynnydd mewn gwariant lleol. Ar hyn o bryd, mae'r data yn gyfyngedig ar faint o weithio gartref/lleol sydd wedi parhau ond mae'r ffocws cynyddol ar ansawdd bywyd ac amgylchedd cartref a chynnydd mewn costau tanwydd yn gweithredu fel ysgogwyr parhaus i annog newid ymddygiad. Gall y CDLlN gefnogi hyn drwy sicrhau darparu hybiau rhannu gwaith lleol, darparu seilwaith band eang a chreu lleoedd i sicrhau amghylcheddau cartref ansawdd uchel.

5.68 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru ac Adeiladu Lleoedd Gwell a'r gofyniad i roi sylfaen tystiolaeth datblygu economaidd i gefnogi paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, comisiynodd y Cyngor baratoi Adolygiad o Dir Cyflogaeth[45]. Mae hyn wedi cynnal adolygiad o ragolygon cyflogaeth a gofynion tir dosbarth defnydd B ar gyfer cyfnod y Cynllun 2018 – 2033. Mae'r astudiaeth yn argymell defnyddio rhagolwg sefyllfa wedi ei seilio ar gyfraddau galw y gorffennol ar gyfer y CDLlN. Mae hyn yn rhoi isafswm gofyniad o 38ha o dir, yn cynnwys clustog pum mlynedd i ganiatáu dewis ac ansicrwydd mewn darogan. Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn dadansoddi hyn yn ôl mathau defnydd tir unigol fel sy'n dilyn:

- B1: 3.5ha
- B2: 9.2ha
- B8: 25.2ha

5.69 Mae darparu ar gyfer y lefel yma o dwf swyddi yn rhan o ddarlun cymhleth. Elfen sylfaenol fydd darparu ystod o gyflenwad tir cyflogaeth, mewn lleoliadau priodol ac yn y meintiau cywir i ddenu busnesau newydd mewn sectorau twf allweddol a galluogi ein busnesau presennol i dyfu. Mentrau bach a chanolig yw llawer o fusnesau'r Sir ac efallai na fyddant angen dyraniadau tir newydd er mwyn tyfu.

5.70 Ymhellac=h, mae tueddiad cynyddol ar gyfer gweithio ystwyth a gweithio gartref dros y tymor hirach, gan olygu fod y galw am dir neu ofod ffisegol ar gyfer cyflogaeth yn newid. Cydnabyddir fod hyn yn tueddu i i ymwneud mwy gyda sectorau seiliedig mewn swyddfa ac na all pob sector weithio gartref nac mewn modd ystwyth. Bydd y CDLlN yn darparu ystod o safleoedd i ddiwallu anghenion cyflogaeth i 2033 i gefnogi uchelgais y Cyngor ac i gefnogi'r economi lleol, gan fod yn hyblyg i newidiadau yn y dyfodol. Mae hybiau gweithio o bell seiliedig yn y gymuned yn cefnogi ffordd hybrid o weithio gartref ac o bell mewn hyb lleol, gan ostwng yr angen i deithio a chefnogi anghenion mentrau bach a chanolig sy'n sector allweddol yn y Sir. Gan roi ystyriaeth i ganlyniad y sylfaen tystiolaeth a nodir uchod, bydd y CDLlN Adnau yn dyrannu digon

[45] Adolygiad Tir Cyflogaeth (BE Group, Hydref 2022)

o dir cyflogaeth (dosbarth defnydd B) i ddarparu ar gyfer anghenion cyflogaeth y Sir mewn lleoliadau yn gyson gyda strategaeth ofodol y Cynllun. Rhoddir manylion dyraniadau tir cyflogaeth a safleoedd presennol a warchodir yn y CDLlN Adnau, ynghyd â meini prawf yn gosod yr amgylchiadau eithriadol lle ystyrir bod colli safleoedd neu adeiladau diwydiannol a busnes presennol yn dderbyniol.

5.71 Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn cynnal asesiad o addasrwydd ac ymarferoldeb dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol, safleoedd cyflogaeth a warchodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â Safleoedd Ymgeisiol yr Ail Alwad. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn llywio'r dyraniadau cyflogaeth yn y CDLlN Adnau. Bydd dyraniadau safle hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r strategaeth ofodol a'r cyfyngiadau ar ddatblygu yn ardal Dalgylch Ffosffadau rhannau uchaf yr Afon Gwy. Bydd dyraniadau a dosbarthiad safleoedd hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r dyraniad cyflogaeth presennol mawr yn Quay Point, Magwyr, sy'n cyfrif am gyfran sylweddol o'r tir cyflogaeth sydd ar gael mewn un safle (13.76ha). Argymhellir cyflenwad pellach i ddiwallu'r diffyg cyflenwad a rhoi mwy o hyblygrwydd yn y farchnad yn nhermau mathau o dir a lleoliadau.

5.72 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn cyd-fynd â'r Astudiaeth Cyflogaeth Rhanbarthol[46], sy'n cynnwys Ardal Mwy na Lleol sef Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen. Mae'r astudiaeth gysylltiedig hon yn rhoi dadansoddiad ar raddfa ranbarthol o'r sylfaen tystiolaeth economaidd a'r farchnad eiddo a thir cyflogaeth yn yr Ardal Mwy na Lleol, hyd at 2040 (mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth ar gyfer 2018 – 2033). Mae'r Astudiaeth hon yn rhoi safbwynt rhanbarthol o alw a gofynion tir o fewn y rhanbarth ac yn cydnabod rôl bwysig coridor yr M4 yn y rhanbarth yn ogystal â swyddogaeth strategol gogledd yr is-ranbarth yn cysylltu gyda Swydd Henffordd a gorllewin Canolbarth Lloegr. Dylai cyflogaeth strategol gael ei ddosbarthu'n ddaearyddol ym mhob rhan o'r rhanbarth i gefnogi hyn. Caiff canfyddiadau'r Astudiaeth hon eu hystyried fel rhan o'r CDLlN Adnau ynghyd â'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth.

5.73 Dylid nodi na fydd yr holl swyddi hyn yn rhai defnyddiau cynllunio dosbarth B ac y caiff llawer eu darparu drwy sectorau sylfaen tebyg i dwristiaeth, hamdden, bwyd a manwerthu a'r sector amaethyddol a choedwigaeth sydd â rôl bwysig yn economi Sir Fynwy. Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod ac yn cefnogi'r rôl sylweddol y gall y sectorau sylfaen ac amaethyddol ei chwarae yn economi Cymru yn gyffredinol ond gyda pherthnasedd sylweddol i gefnogi'r economi gwledig (Polisi 5 Cymru'r Dyfodol). Mae'r CDLlN yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y sectorau drwy Bolisïau Strategol ategol yn cynnwys S10 – Hierarchaeth Canol Trefi a Chanolfannau Lleol a Chymdogaeth, S13 – Menter Gwledig ac S14 – Economi Ymwelwyr.

[46] Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol: Mwy na Lleol (BE Group, Mawrth 2020)

| Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth<br>Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 15 – Hygyrchedd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig<br>Polisi 6 – Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf |
| Polisi Cynllunio Cymru 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus (Pennod 5) – Datblygu Economaidd |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chynlluniau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19<br>Aros yn lleol – creu cymdogaethau<br>Lleoedd digidol – rhaff fywyd y cyfnodau clo<br>Y newid mewn arferion gwaith: angen y dyfodol ar gyfer tir cyflogaeth<br>Ailddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwef 2018) | • Ymateb i'r heriau yn gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da. |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter. |
| Tystiolaeth Allweddol | Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd (Tachwedd 2019)<br>Gweledigaeth 2040: Tyfu eich Busnes eich Hun, Prosbectws Mewnfuddsoddi Sir Fynwy (Mawrth 2020)<br>Adolygiad Tir Cyflogaeth Sir Fynwy (Hydref 2022)<br>Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol – Astudiaeth Mwy na Lleol – Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen (BE Group) (Mawrth 2020) |

| | |
|---|---|
| | Dadansoddiad Economïau'r Dyfodol – Adroddiad Cyfeiriadau Strategol (Hydref 2018) |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w cadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

## Mentrau Gwledig

| Polisi Strategol S13 – Mentrau Gwledig |
|---|
| **Caniateir datblygu i alluogi defnyddiau mentrau gwledig ac arallgyfeirio'r economi gwledig tu allan i ffiniau datblygu aneddiadau lle mae o faint a math sy'n gydnaws gyda'r ardal o amgylch ac na fydd yn achosi unrhyw niwed annerbyniol i'r tirlun o amgylch, treftadaeth hanesyddol a diwylliannol, i amrywiaeth neu werth amwynder lleol. Mae'n rhaid i ddatblygu ailddefnyddio neu addasu adeiladau presennol lle'n bosibl. Caiff yr amgylchiadau eithriadol lle gellir caniatáu adeiladau newydd tu allan i ffiniau anheddiad i gefnogi'r economi gwledig eu nodi yn y CDLlN Adnau.** |

5.74 Mae'r angen i gynnal ac adfywio economi gwledig y Sir yn amcan allweddol yn y Cynllun. Wrth ganiatáu swm priodol o arallgyfeirio a menter mewn ardaloedd gwledig, mae'n nod gan y Cynllun i gynnal a gwella a, lle'n briodol, adfywio aneddiadau gwledig y Sir. Mae hyrwyddo gweithgaredd economaidd amrywiol yn elfen allweddol yn hyn, a gaiff hefyd ei gydnabod fel amcan allweddol yn 'Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd' [47], sy'n anelu parhau i gefnogi a hyrwyddo busnesau a gwasanaethau gwledig. Gan adeiladu ar waith y Rhaglen Datblygu Gwledig [48], a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac a ddaeth i ben ym mis Medi 2022, bu'r Cyngor yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid o £2.04M fel rhan o Gronfa Adnewyddu Cymunedol y Deyrnas Unedig[49] a lansiwyd gan Lywodraeth y DU fel rhagflaenydd i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gymryd lle ffynonellau cyllid yr Undeb Ewropeaidd. Dyfarnwyd £7.16 miliwn i'r Cygnor o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin dros y tair blynedd nesaf.

5.75 Mae Cymru'r Dyfodol 2040 wedi mynegi ym nrwymiad i gefnogi ardaloedd gwledig bywiog. Mae Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig – yn sefydlu'r dull gweithredu polisi

---

[47] Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd: https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2020/03/Economic-Growth-and-Ambition-Statement-November-2019.pdf

[48] Manylion Rhaglen Datblygu Gwledig - 2014-2020 ar wefan Sir Fynwy yn Sir Fynwy Busnes a Menter l Arloesedd Gwledig l Croesawu arloesedd a galluogi pethau mawr i ddigwydd yng Ne Cymru a Llywodraeth Cymru drwy https://busnescymru.llyw.cymru/rhwydwaithgwledigcymru/uned-cymorth-rhgc/cyllid-rhaglen-datblygu-gwledig

[49] Manylion Cronfa Gymunedol y DU a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewal-fund-prospectus/uk-community-renewal-fund-prospectus-2021-22

cenedlaethol i Gynlluniau Datblygu Lleol gynllunio mewn modd cadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig drwy dwf economaidd priodol a chymesur.

5.76 Mae polisi cenedlaethol yn cefnogi menter gwledig ac arallgyfeirio amaethyddol lle mae hynny'n dderbyniol yn amgylcheddol. Mae TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) yn cynghori y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol hwyluso arallgyfeirio'r economi gwledig drwy ddarparu ar gyfer anghenion diwydiannau gwledig traddodiadol a hefyd fentrau newydd, tra'n lleihau effeithiau ar y gymuned leol a'r amgylchedd. Dylai mentrau newydd fod yn rhai graddfa fach a chael eu lleoli o fewn neu'n agos at ffiniau aneddiadau a pheidio cael effaith annerbyniol ar y gymuned neu amgylchedd lleol. Caiff manylion prawf manwl ar gyfer asesu mentrau gwledig eu nodi yn y Cynllun Adnau. Mae meini prawf ar wahân ar gyfer arallgyfeirio gwledig fel y nodir yn TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy. Gall arallgyfeirio gynnwys da byw, da byw heb fod yn draddodiadol a ffermio cnydau, prosiectau twristiaeth a chynigion ynni adnewyddadwy sy'n helpu i gynyddu hyfywedd mentrau gwledig drwy ostwng eu costau gweithredu (5.6.13 – PCC11). Bydd y Cynllun Adnau hefyd yn rhoi meini prawf polisi manwl i asesu cynigion ar arallgyfeirio gwledig.

5.77 Caiff ròl sylweddol twristiaeth yn economi Sir Fynwy yn neilltuol wrth gynorthwyo gydag arallgyfeirio'r economi gwledig hefyd ei gydnabod. Felly gallai arallgyfeirio at gyfer dibenion o'r fath gynorthwyo wrth gynnal a hybu cyfleoedd cyflogaeth lleol, gyda manylion pellach ym Mholisi Strategol S14 – Economi Ymwelwyr.

5.78 Sylweddolir fod cydbwysedd pwysig rhwng mentrau gwledig/arallgyfeirio a'r angen i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chynnal natur unigryw leol ac ansawdd uchel amgylchedd Sir Fynwy. I gyflawni'r cydbwysedd hwn, ac yn unol â PCC11, dylid rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio adeiladau presennol yn hytrach na datblygu rhai newydd. Lle nad yw hyn yn bosibl, gallai adeiladu newydd cyfyngedig fod yn dderbyniol mewn amgylchiadau eithriadol. Caiff meini prawf manwl ar hyn eu nodi yn y CDLlN Adnau.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth<br>Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirlun<br>Amcan 6 – Tir<br>Amcan 7 – Adnoddau Naturiol<br>Amcan 9 – Demograffeg<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 15 – Hygyrchedd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol | Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig |

| | |
|---|---|
| 2040 (LlC, Chwefror 2021) | |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus (Pennod 5)-<br>7Economi Wledig |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19<br>Aros yn lleol – creu cymdogaethau (tudalen 14)<br>Lleoedd digidol – rhaff bywyd yn y cyfnodau clo (tudalen 19)<br>Y newid mewn arferion gwaith: angen y dyfodol ar gyfer tir cyflogaeth (tudalen 20)<br>Ailddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru (tudalen 21) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy | • Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig gyda newid demograffig<br>• Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd a gyda chysylltiadau da<br>• Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter. |
| Tystiolaeth Allweddol | Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd (Tachwedd 2019)<br>Gweledigaeth 2040: Tyfu eich Busnes eich Hun, Prosbectws Mewnfuddsoddi Sir Fynwy (Mawrth 2020)<br>TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w cadarnhau yn y CDLlN Adnau |

## Economi Ymwelwyr

| Polisi Strategol S14 – Economi Ymwelwyr |
|---|
| **Caniateir cynigion datblygu sy'n darparu ar gyfer a/neu yn gwella mathau cynaliadwy o dwristiaeth yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl.**<br><br>**Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai ag effaith niweidiol annerbyniol ar nodweddion a meysydd o ddiddordeb twristiaeth a'u gosodiadau, neu a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth heb gyfiawnhad dros hynny.** |

5.79 Mae gan dwristiaeth rôl sylweddol yn economi Sir Fynwy, yn arbennig wrth gynorthwyo arallgyfeirio'r economi wledig a chynnal canol trefi hanesyddol y Sir. Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn cydnabod fod twristiaeth a hamdden yn gyflogwr a chyfrannwr mawr a chynyddol at economi wledig Cymru. Mae Polisi 5: Cefnogi'r economi wledig [50] yn nodi y dylai dulliau cynaliadwy o dwristiaeth yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer twristiaeth actif, gwyrdd a diwylliannol gael eu hymchwilio o fewn fframwaith y polisi cynllunio.

5.80 Mae PCC11 (5.5.3) yn rhoi gwerth cyfartal i bwysigrwydd twristiaeth i ffyniant economaidd a chreu swyddi a'i allu i weithredu fel catalydd ar gyfer diogelu'r amgylchedd, adfywio a gwella mewn ardaloedd trefol a hefyd wledig. Mewn ardaloedd gwledig mae datblygiad sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn elfen hanfodol mewn darparu economi leol iach ac amrywiol ac wrth gyfrannu at ddarpariaeth a chynnal cyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol. Cafodd rôl twristiaeth hefyd ei gydnabod yn nogfen polisi 'Adeiladu Lleoedd Gwell' Llywodraeth Cymru lle nodir bod y sectorau twristiaeth ac ymwelwyr o fewn ardaloedd gwledig Cymru yn feysydd allweddol i hwyluso adferiad economaidd yn dilyn Covid-19.

5.81 Mae gan Sir Fynwy fantais asedau naturiol a diwylliannol helaeth sy'n cynnig potensial sylweddol i breswylwyr ac ymwelwyr eu mwynhau. Mae'r Sir yn nodedig am ei harddwch naturiol ac mae ganddi dirwedd cyfoethog ac amrywiol yn ymestyn o arfordir Gwastadeddau Gwent yn y de i dir uchel Bannau Brycheiniog yn y gogledd a choridor afon prydferth Dyffryn Gwy yn y dwyrain. Mae trefi marchnad hanesyddol ac asedau diwylliannol/treftadaeth Sir Fynwy hefyd yn atyniadau allweddol.

5.82 Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol ar gyfer llesiant a mwynhad cymunedau lleol a phreswylwyr Sir Fynwy. Yn ôl ffigurau gan y dangosydd economaidd twristiaeth STEAM ('Scarborough Tourism Economic Activity Monitor'), daeth y sector â £245m i Sir Fynwy yn 2019 (y ffigurau cywir diweddaraf oedd ar gael cyn Covid-19) a chefnogi cyfwerth â 3,119 o swyddi llawn-amser (adroddiad STEAM 2019)[51]. Caiff y weledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer

[50] Cymru'r Dyfodol 2040: Polisi 5: Cefnogi'r economi wledig [Diweddariad i Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (llyw.cymru)]

[51] Adroddiad Tueddiad STEAM 10-2019 https://www.visitmonmouthshire.com/dbimgs/STEAM%20Report%20MOM%202021.pdf

yr economi ymwelwyr eu nodi yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan Sir Fynwy – 2017-2020[52]. Mae'r drafft gynllun diwygiedig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Oherwydd pwysigrwydd twristiaeth i economi Sir Fynwy mae angen hanfodol i ddiogelu, darparu a chyfoethogi'r economi ymwelwyr/cyfleusterau twristiaeth wrth sicrhau fod Sir Fynwy yn gwireddu eu photensial fel cyrchfan ansawdd uchel a chystadleuol i ymwelwyr. Fodd bynnag, mae adroddiad diweddar gan y RTPI ar Fyw'n Lleol yng Nghymru Wledig[53], yn dweud y gall cynnydd mewn nifer ymwelwyr twristiaeth gael effaith niweidiol ar bentrefi gwledig llai ac mae felly angen cynllunio a rheoli gofalus a bod twristiaeth gwerth isel yn rhoi pwysau ar wasanaethau a seilwaith gan gyfrannu cymharol ychydig at fusnesau lleol ac felly bod angen sicrhau cydbwysedd.

5.83 Felly mae gan y CDLlN rôl allweddol wrth gefnogi a gwarchod economi wledig Sir Fynwy drwy alluogi datblygiad sy'n diogelu, darparu a hybu twristiaeth sy'n cefnogi cymunedau lleol a hefyd yn diogelu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, sy'n ysgogwyr allweddol yn economi ymwelwyr Sir Fynwy. Bydd y CDLlN yn ceisio cryfhau diwydiant twristiaeth y Sir drwy annog a chynllunio ar gyfer mathau cynaliadwy o dwristiaeth yn Sir Fynwy. Caiff hyn ei ddiffinio fel twristiaeth sy'n economaidd hyfyw, yn sicrhau buddion lleol, yn cael ei groesawu gan gymunedau lleol ac yn helpu i'w cefnogi, yn gostwng effeithiau amgylcheddol byd-eang ac yn gwarchod/gwella'r amgylchedd lleol.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 1 – Twf Economaidd/Cyflogaeth<br>Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig<br>Amcan 16 – Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig<br>Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus (Pennod 5) – Twristiaeth<br>Economi Wledig |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19: Ailddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru (tudalen 21) |

[52] Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Fynwy 2017-2020 https://www.visitmonmouthshire.com/dbimgs/FINAL%20July%202017%20Monmouthshire%20Destination%20Plan%202017-2020(1).pdf
[53] Byw'n Lleol yng Nghymru wledig: RTPI Cymru 2022 Plan The World We Need (rtpi.org.uk)

| | |
|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Sir Fynwy | • Mae'r polisi hwn yn cefnogi nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle llewyrchus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaith a menter. |
| Tystiolaeth Allweddol | • Canllawiau Cynllunio Atodol Twristiaeth Gynaliadwy – Tachwedd 2017<br>• Canllawiau Cynllunio Atodol Addasu Adeiladau Gwledig at Ddefnydd Preswyl neu Dwristiaeth 2018<br>• Cynllun Rheoli Cyrchfan 2017-2020 Sir Fynwy<br>• Byw'n Lleol yng Nghymru Wledig: Polisi ac ymarfer cynllunio, papur trafod RTPI 2022 |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w gadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

## RRheoli Gwastraff mewn Modd Cynaliadwy

| **Polisi Strategol S15 – Rheoli Gwastraff mewn Modd Cynaliadwy** |
|---|
| **Er mwyn hwyluso sicrhau rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy bydd y Cynllun yn:**<br>**i) Sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio gydag egwyddorion hierarchaeth gwastraff sy'n cefnogi'r rhai sy'n symud gwastraff i fyny'r hierarchaeth;**<br>**ii) Cefnogi rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau rheoli gwastraff sy'n rhoi ystyriaeth i'r cysyniad gosodiad priodol agosaf ac egwyddorion hunan-ddigonolrwydd lle bo angen;**<br>**iii) Dynodi safleoedd diwydiannol Dosbarth B2 a gafodd eu dyrannu a'u diogelu'n addas sy'n briodol ar gyfer cyfleusterau trin rheoli gwastraff mewn adeilad, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl;**<br>**iv) Cefnogi'r economi gylchol drwy annog gostwng cynhyrchu gwastraff ac ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau yng nghamau dylunio, adeiladu a dymchwel datblygiad; a**<br>**v) Sicrhau y gwneir darpariaeth ar gyfer rheoli, didoli, storio a chasglu gwastraff mewn modd cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd.** |

5.84 Mae gan y system cynllunio rôl bwysig mewn hwyluso rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. Caiff polisi Llywodraeth Cymru ar reoli gwastraff ei nodi yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' (2010) a chynlluniau sector cysylltiedig. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu dull gweithredu cynaliadwy at reoli gwastraff, yn cynnwys cefnogi cynigion sy'n symud rheolaeth gwastraff i fyny'r hierarchaeth gwastraff, gydag atal ac ailddefnyddio gwastraff ar frig yr hierarchaeth, a ddilynir gan baratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu, adfer ac yn olaf waredu.

5.85 Mae Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn nodi'r fframwaith rheoli gwastraff yr ystyrir ei bod yn rhoi'r datrysiad gorau i ddiwallu anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru hyd 2050. Mae'r Cynllun hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu rhwydwaith integredig a chynaliadwy o gyfleusterau gwastraff. Dim ond yng nghyswllt gwastraff bwrdeisiol cymysg (a ddaw o fewn Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff Diwygiedig) y bydd cysyniad 'lleoliad agosaf addas' ac egwyddor hunanddigonolrwydd yn berthnasol.

5.86 Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod gwastraff fel maes polisi sydd angen fframwaith cydlynus drwy baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd cynnydd ar baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru yn parhau i gael ei fonitro wrth i'r Cynllun fynd rhagddo. Yn y cyfamser mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 a TAN 21: Gwastraff, yn sefydlu trefniadau monitro rhanbarthol i lywio paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a chynorthwyo wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer De Ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2016[54] a daw i'r casgliad nad oes angen capasiti tomen lanw ychwanegol ar hyn o bryd o fewn y rhanbarth. Yn ychwanegol, mae'r adroddiad yn cynghori y dylai unrhyw gynnig newydd ar gyfer mwy o driniaeth gwastraff preswyl gael ei asesu'n ofalus i sicrhau nad oes gor-ddarpariaeth o fewn y rhanbarth. Felly, ni chafodd unrhyw angen penodol am gyfleusterau rheoli gwastraff o'r fath eu dynodi ar lefel ranbarthol ar hyn o bryd.

5.87 Ar lefel leol, mae gan Sir Fynwy nifer o bartneriaethau yn eu lle i drin ei gwastraff bwrdeisiol.

- Gwastraff Bwrdeisiol Gweddilliol – mae Sir Fynwy yn aelod o Project Gwyrdd, partneriaeth caffael gwastraff gweddilliol sy'n cynnwys pump awdurdod lleol (Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) sydd wedi ymrwymo i gontract hirdymor gyda Viridor Waste Management Cyf i drin gwastraff gweddilliol bwrdeisiol yn eu Safle Ynni o Wastraff ym Mharc Trident yng Nghaerdydd.
- Gwastraff Bwyd – caiff hyn ei drin drwy bartneriaeth caffael hirdymor yn cynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy a Thorfaen gyda safle treulio anaerobig Dŵr Hafren Trent yn Stormy Down, ger Porthcawl.

[54] Adroddiad Cynllunio De Ddwyrain Cymru – Ebrill 2016 https://gov.wales/waste-planning-monitoring-reports

- Gwastraff Gardd – mae gan Sir Fynwy gontract tymor canol gyda Abergavenny Green Waste Company.
- Gwastraff wedi ei Ailgylchu – caiff ei gasglu at ei gilydd a'i anfon at ailbroseswyr ar draws y Deyrnas Unedig.
- Gwastraff Masnachol Gweddilliol – caiff ei gasglu at ei gilydd a'i drin fel rhan o drefniadau Project Gwyrdd.
- Gwastraff Masnach – Mae Cyngor Sir Fynwy hefyd yn cynnig gwasanaethau casglu masnach ar gyfer gwastraff gweddilliol, a gaiff ei ailgylchu yn yr un ffordd â gwastraff bwrdeisiol wedi ei ailgylchu.
- Tomen Lanw – Aiff llai na 1% o wastraff Sir Fynwy i domen lanw, gyda'r cyfleusterau a ddefnyddir yn dibynnu ar ble caiff y deunydd ei ailbrosesu. (Ffynhonnell: Adran Gwasanaethau Cymdogaeth Cyngor Sir Fynwy).

5.88 Mae TAN 21: Gwastraff yn nodi fod llawer o safleoedd cyflogaeth cyffredinol ac ardaloedd diwydiannol mawr yn debyg o fod yn safleoedd addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff[55]. Caiff manylion y dyraniadau tir cyflogaeth hynny yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer darparu cyfleusterau rheoli gwastraff eu rhoi yn y Cynllun Adnau yn ogystal â'r meini prawf manwl ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Fel sy'n ofynnol gan TAN 21: Gwastraff (2014), bydd angen asesiad cynllunio gwastraff ar gyfer pob cais am safle gwastraff a ddosbarthwyd fel safle gwaredu, adfer neu ailgylchu. Dylai'r asesiad fod yn gymesur i natur, graddfa a maint y datblygiad a gynigir.

5.89 Lle'n bosibl dylai datblygiadau leihau cynhyrchu gwastraff yn y broses ddatblygu drwy ddefnyddio agregau eilaidd ac wedi eu hailgylchu fel rhan o'r broses adeiladu yn unol gydag egwyddor economi gylchol.

5.90 Mae hefyd yn bwysig fod datblygiadau newydd yn hwyluso opsiynau rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer pobl sy'n byw yn ac yn defnyddio datblygiadau newydd pan fyddant wedi eu cwblhau. Mae'r Polisi hwn yn anelu i annog ailgylchu deunyddiau gwastraff drwy ddarparu cyfleusterau digonol ar gyfer storio a chasglu gwastraff a gwahanu yn y ffynhonnell. Dylid rhoi ystyriaeth i faterion cysylltiedig â gwastraff wrth ddylunio'r datblygiad fel eu bod wedi eu hintegreiddio'n iawn i ac yn hollol hygyrch i gerbydau casglu.

[55] Paragraff 3.19 TAN 21: Gwastraff (2014)

| *Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 5 – Mwynau a Gwastraff<br>Amcan 7 – Adnoddau Naturiol<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 17 – Newid Hinsawdd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC) 2021 | Polisi 19 – Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 20211) | Thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus (Pennod 5) |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19:<br>Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio: symud ymlaen gyda mesurau i ymwreiddio egwyddorion economi gylchol (tudalen 11) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru gydnerth<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 Cyngor Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nodau'r drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle lle gwyrdd i fyw a gweitho ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i gyfarch yr argyfwng hinsawdd a natur. |
| Tystiolaeth Allweddol | Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (2014)<br>Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff De Ddwyrain Cymru Ebrill 2016<br>Adolygiad o Dir Cyflogaeth – Hydref 2022 |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau manwl | I'w gadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adnau |

## Mwynau

| Polisi Strategol S16 – Mwynau |
|---|
| **Bydd y Cyngor yn rheoli ei adnoddau mwynol mewn dull cynaliadwy drwy:**<br>**i) Ddiogelu tir y gwyddir amdano/posibl ar gyfer adnoddau tywod a gro a chreigiau mâl ar gyfer defnydd posibl yn y dyfodol;**<br>**ii) Cadw cronfa dir 10-mlynedd o leiaf o greigiau mâl a 7 mlynedd o adnoddau tywod a gro seiliedig ar dir drwy gydol cyfnod y Cynllun yn unol â gofynion Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf Gweithgor Agregau De Cymru ar Agregau; ac** |

| | |
|---|---|
| **iii)** | **Annog defnydd effeithiol ac addas o fwynau ansawdd uchel ac uchafu'r potensial ar gyfer defnydd agregau eilaidd ac wedi ailgylchu yn lle prif adnoddau a enillir ar y tir.** |

5.91 Yn unol â gofynion polisi cenedlaethol a rhanbarthol, mae'r CDLlN yn annog dull cynaliadwy o gynllunio mwynau. Nod hyn yw sicrhau diogelu adnoddau gwerthfawr y mae terfyn arnynt ar gyfer echdynnu posibl yn y dyfodol ac y defnyddir cymaint ag sydd modd o agregau eilaidd neu wedi eu hailgylchu yn lle agregau sylfaenol.

5.92 Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod fod mwynau yn faes polisi sydd angen fframwaith gydlynus drwy baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd cynnydd ar baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru yn parhau i gael ei fonitro wrth i'r Cynllun fynd rhagddo. Mae PCC11 a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (2004) (MTAN1) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Rhanbarthol wneud darpariaeth ar gyfer isafswm banc tir o 10 mlynedd ar gyfer creigiau mâl a 7 mlynedd ar gyfer tywod a gro seiliedig ar dir drwy gydol 15 mlynedd lawn cyfnod cynllun datblygu. I sefydlu'r gofynion hyn mae MTAN1 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr ardaloedd y mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru a hefyd Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gyfrifol amdanynt.

5.93 Cyhoeddwyd Datganiad Technegol Rhanbarthol – 2$^{il}$ Adolygiad De Cymru[56] ym mis Medi 2020 a chafodd ei gymeradwyo gan y Gweinidog Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2021. Mae'r Datganiad diwygiedig hwn yn gwneud argymhellion ar gyfer y dyraniadau sydd eu hangen i sicrhau bod cyflenwad digonol o greigiau mâl, yn cynnwys yr isafswm darpariaeth a argymhellir yn genedlaethol o 7 a 10 mlynedd, ar gael ar gyfer holl gyfnod y CDLlN. Y cyfanswm dyraniadau sydd eu hangen ar gyfer Sir Fynwy yw dim ar gyfer tywod a gro o'r tir a 6.05 miliwn tunnell fetrig ar gyfer creigiau mâl.. Mae hyn yn cymharu gyda banciau tir presennol (ac eithrio safleoedd segur) o ddim ar gyfer tywod a gro, a 11.25 miliwn tunnell fetrig ar gyfer creigiau mâl (fel ar 31 Rhagfyr 2016), gan adlewyrchu'r cronfeydd wrth gefn sylweddol a ganiateir o galchfaen heb ei weithio yn chwarel Ifton. O gymharu gyda'r gofyniad a ddyrannwyd yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2, mae gan Sir Fynwy warged darpariaeth ac felly nid oes angen penodol am unrhyw ddyraniadau pellach ar gyfer eu gweithio yn y dyfodol i gael eu dynodi o fewn y CDLlN pan gaiff ei benderfynu ar sail Awdurdod Cynllunio Lleol.

5.94 Ar sail ranbarthol mae Sir Fynwy yn ffurfio rhan o gyn is-ranbarth Gwent ynghyd â Thorfaen, Casnewydd a Blaenau Gwent. Mae diffyg cyffredinol o gronfeydd wrth gefn o fewn yr is-ranbarth. Mewn amgylchiadau o'r fath mae PCC11 yn nodi fod yn rhaid i

[56] Datganiad Technegol Rhanbarthol – prif adroddiad Ail Ddiwygiad – Terfynol Medi 2020 - 1 (swrawp-wales.org.uk) a De Cymru Atodiad B - 1 (swrawp-wales.org.uk) a Llythyr Egluro Datganiad Technegol Rhanbarthol Llywodraeth Cymru – 11 Tachwedd 2021

awdurdodau mewn amgylchiadau o'r fath gytuno ar ddull gweithredu ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos yn unol â threfniadau rhanbarthol cyfredol[57]. Bydd Sir Fynwy yn cydweithio gydag awdurdodau cyfagos i ystyried opsiynau ar gyfer bodloni dyraniadau rhanbarthol. Caiff y sefyllfa ddiweddaraf ei diweddaru yn y Cynllun Adnau.

5.95 Caiff ardaloedd a ddiogelir ar gyfer ffynonellau posibl o agregau gro a chreigiau mâl eu dynodi ar y Map Cynigion sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Adnau yn unol â Mapiau Cenedlaethol Adnoddau Mwynau a Mapiau Cenedlaethol Diogelu Agregau Cymru.

5.96 Mae'r polisi yn anelu i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau mwynau ansawdd uchel ac na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer diben gradd is nag a fwriadwyd. Caiff cynyddu defnydd deunyddiau heblaw mwynau naturiol hefyd ei hyrwyddo. Mae ail-ddefnyddio a/neu ailgylchu deunydd adeiladu a dymchwel a gwastraff diwydiannol yn gostwng faint o wastraff a gynhyrchir a hefyd yn cadw adnoddau prin ac yn lleihau difrod i'r amgylchedd.

5.97 Bydd y Cynllun Adnau hefyd yn cyflwyno ystyriaethau manwl ar gyfer cynllunio mwynau yn cynnwys y meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau mwynau a diogelu ardaloedd clustog.

| **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach** | |
|---|---|
| Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd | Amcan 1 – Twf Economaidd/Cyflogaeth<br>Amcan 5 – Mwynau a Gwastraff<br>Amcan 6 – Tir<br>Amcan 7 – Adnoddau Naturiol<br>Amcan 14 - Seilwaith<br>Amcan 17 – Newid Hinsawdd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwefror 2021) | Polisi 19 – Mae polisïau strategol ar gyfer cynllunio rhanbarthol yn dynodi meysydd polisi sy'n torri ar draws awdurdodau cynllunio lleol ac sydd angen ymateb cynllunio rhanbarthol wedi ei gydlynu drwy baratoi Cynllun Datblygu Strategol, yn cynnwys echdynnu mwynau. |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 1 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus (Pennod 5) – Mwynau |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd - Ystyriaethau yn dilyn Covid-19:<br>Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio: symud ymlaen â mesurau i ymwreiddio egwyddorion rheolaeth gynaliadwy o adnoddau mwynol (tudalen 11). |

[57] Paragraff 5.14.16 – Polisi Cynllunio Cymru 11 – Chwefror 2021

| | |
|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WG, 2015) | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy) (Chwef 2018) | • Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da. |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle gwyrdd i fyw a gweithio ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i drin yr argyfwng hinsawdd a natur. |
| Tystiolaeth Allweddol | Cyngor Technegol Mwynau Nodyn 1 (2004) (MTAN1)<br>Cyhoeddwyd 2il adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol ym mis Medi 2020 a chafodd ei gymeradwyo gan y Gweinidog Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2021 a Llythyr Egluro Datganiadau Technegol Rhanbarthol Llywodraeth Cymru – 11 Tachwedd 2021<br>Mapiau Cenedlaethol Adnoddau Mwynau<br>Mapiau Cenedlaethol Diogelu Agregau Cymru |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w cadarnhau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd |

## LLEOEDD UNIGRYW A NATURIOL

5.98 Mae gan Sir Fynwy adnoddau sylweddol Seilwaith Gwyrdd, tirlun, bioamrywiaeth a chadwraeth natur, gyda nifer ohonynt o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol.

5.99 Gan adlewyrchu'r weledigaeth, mae'r adran Lleoedd Unigryw a Naturiol yn anelu i warchod, gwella a rheoli asedau Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy yn cynnwys ei: threftadaeth naturiol, mannau agored ansawdd uchel, tirweddau unigryw, safleoedd gwarchodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a diddordebau bioamrywiaeth eraill a'r cysylltedd ecolegol rhyngddynt. Mae pandemig diweddar Covid-19 wedi tanlinellu gwerth a phwysigrwydd creu lleoedd a darparu mannau agored/gwyrdd sy'n hygyrch yn lleol ar gyfer iechyd, llesiant a hamdden. Mae hyn yn elfen hanfodol o greu lleoedd ac yn cysylltu gyda nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau bod Sir Fynwy yn lle gwyrdd i fyw a gweithio ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i drin yr argyfwng hinsawdd a natur.

5.100 Mae'r angen i warchod a gwella'r adnoddau hyn yn ffocws allweddol i'r CDLlN. Mae gwarchod a gwella cymeriad neilltuol asedau Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy yn elfen sylfaenol yng Ngweledigaeth y CDLlN. Caiff hyn ei gyflawni drwy gadw a gwella y gorau

o'i amgylchedd naturiol ansawdd uchel, cymeriad unigryw a chyflenwi dull gweithredu creu lleoedd.

5.101 Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn cynnwys ymrwymiad i warchod a chyfoethogi adnoddau naturiol ac mae Polisi 9 'Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd' yn nodi y dylai CDLlN ddynodi ardaloedd i gael eu gwarchod a dynodi cyfleoedd lle gellir cynyddu Seilwaith Gwyrdd i'r eithaf. Mae hefyd angen pwyslais ar fudd bioamrywiaeth (budd net) i sicrhau fod twf yn gynaliadwy.

5.102 Mae Polisi 15 Cymru'r Dyfodol 'Fforest Genedlaethol' hefyd yn ymrwymo i'r angen i ddynodi safleoedd fforest cenedlaethol er mwyn cynyddu gorchudd coetir ledled Cymru a helpu adeiladu cydnerthedd ein ecosystemau. Caiff gwarchod a gwella ein lleoedd naturiol ei gyfnerthu ymhellach yn Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru, sy'n tanlinellu pwysigrwydd mynediad i a darpariaeth Seilwaith Gwyrdd wrth gynorthwyo buddion iechyd a llesiant pobl yn yr adferiad yn dilyn Covid-19. Yn ychwanegol at hyn mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: Argymhellion Polisi Llywodraeth Cymru yn nodi ymrwymiad i adferiad graddfa fawr ar gynefinoedd, creadigrwydd a chysylltedd fel prif flaenoriaeth polisi[58]. Bydd y CDLlN yn rhoi fframwaith cadarnhaol ar gyfer polisi cynllunio i gefnogi a galluogi'r dull gweithredu polisi hwn drwy ddarparu mannau gwyrdd sy'n hygyrch yn lleol a diogelu a chyfoethogi ein hamgylchedd naturiol.

## Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur

| **Polisi Strategol S17 – Seilwaith Gwyrdd, Tirlun a Chadwraeth Natur** |
|---|
| **Bydd y cynigion datblygu yn coleddu'r dull creu lleoedd ac yn cynnwys asedau a chyfleoedd Seilwaith Gwyrdd a gaiff eu hasesu, eu dylunio a'u rheoli i gyflenwi adnodd aml-swyddogaeth, a all ddarparu ystod eang o fuddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac iechyd a llesiant ar gyfer cymunedau lleol a'r Sir yn ei chyfanrwydd, yn cynnwys gweithredu ar newid hinsawdd, gweithredu ar fioamrywiaeth, lliniaru a budd net.**<br><br>**Mae'n rhaid i gynigion datblygu:**<br><br>**Cynnal, diogelu a gwella integriti a chysylltedd seilwaith gwyrdd, tirweddau, bioamrywiaeth, hawliau tramwy cyhoeddus ac asedau Sir Fynwy drwy'r swyddogaethau allweddol dilynol:**<br><br>**(i) Lleoliad tirwedd ac ansawdd lle, drwy ddynodi, asesu, gwarchod a gwella y tirwedd unigryw, treftadaeth hanesyddol, diwylliannol, ecolegol a daearegol, yn cynnwys elfennau naturiol a gwneuthuredig yn gysylltiedig gyda chymeriad neilltuol y tirwedd;** |

[58] Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: Argymhellion Polisi Llywodraeth Cymru https://www.cenedlaethaurdyfodol.cymru/wp-content/uploads/2020/06/Argymhellion-Llywodraeth-Cymru.pdf

| | |
|---|---|
| **(ii)** | **Bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth drwy ddiogelu, asesu, rheoli a gwella bioamrywiaeth a diddordebau daearegol mewn modd cadarnhaol, yn cynnwys safleoedd wedi eu dynodi a heb eu dynodi, rhywogaethau gwarchodedig blaenoriaeth a'u cynefinoedd, cysylltedd ecolegol rhyngddynt;** |
| **(iii)** | **Darpariaeth gofod gwyrdd, cysylltedd a mwynhad drwy sicrhau creu gofodau aml-swyddogaeth hygyrch sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden ac iechyd a llesiant;** |
| **(iv)** | **Defnydd ynni cynaliadwy;** |
| **(v)** | **Cynhyrchu bwyd lleol; a** |
| **(vi)** | **Lliniaru llifogydd a rheoli adnoddau dŵr.** |

### Seilwaith Gwyrdd

5.103 Mae PCC11 yn diffinio Seilwaith Gwyrdd fel "rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n britho ac yn cysylltu lleoedd"[59]. Mae pwysigrwydd gwarchod a gwella Seilwaith Gwyrdd yn thema polisi allweddol yn y Polisi hwn, gan gydnabod y rolau aml-swyddogaethol sydd ganddo wrth gyflawni nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy deithio llesol, creu lleoedd, gwasanaethau ecosystem, gwella cydnerthedd ecosystemau, lliniaru newid hinsawdd a gwella iechyd a llesiant cyffredinol.

5.104 Mae buddsoddiad mewn Seilwaith Gwyrdd yn sylfaen i lwyddiant parhaus y Sir yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gefnogi twf cynaliadwy, gwella ansawdd bywyd a lle, darparu gwasanaethau ecosystem a thrin newid hinsawdd ac ansawdd dŵr gwael. Mae Sir Fynwy yn lle gwyrdd ac iach i fyw ynddo, gydag asedau seilwaith gwyrdd niferus yn cynnwys parciau, mannau agored, caeau chwarae, coed/coetiroedd, gwrychoedd, rhandiroedd, nodweddion tirwedd a threftadaeth, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safle Treftadaeth Byd, camlesi, afonydd, cyrsiau dŵr, arfordir llanw, llwybrau beic, llwybrau ceffylau, hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad agored.

5.105 Mae coleddu dull creu lleoedd yn nod gyffredin ar gyfer mannau agored a nodweddion amgylcheddol eraill. Dylai hyn helpu i greu rhwydwaith o asedau seilwaith gwyrdd a gafodd ei ddylunio a'i ddarparu'n strategol a ddylai gael ei ddylunio a'i reoli fel adnodd amlswyddogaethol, a all sicrhau ystod eang o fuddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, trafnidiaeth ac iechyd a llesiant ar gyfer cymunedau lleol sy'n cynnwys:

- Osgoi difrod i Seilwaith Gwyrdd, bioamrywiaeth a'r rhwydwaith ecolegol;
- Asesu, cynnal a gwella hawliau tramwy cyhoeddus a safleoedd gwledig;
- Mynd i'r afael ag amddifadedd a difreintiad drwy ddileu rhwystrau i deithio llesol a galluogi mwy o gyfranogiad mewn hamdden a mynediad i'r amgylchedd naturiol a mannau gwyrdd;

[59] Paragraff 6.2.1 – Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11 – Chwefror 2021

- Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd;
- Gwella iechyd a llesiant drwy ddull gweithredu Seilwaith Gwyrdd a drwy'r dull gweithredu yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy;
- Cefnogi a rhoi cyfleoedd ar gyfer cydlyniaeth gymunedol ac ymgysylltu cymdeithasol;
- Darparu creu lleoedd a choleddu unigrywedd lleol; a
- Chefnogi'r economi leol drwy greu lleoedd a dull gweithredu a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd.

5.106 Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl y gall Seilwaith Gwyrdd ei chwarae mewn defnydd ynni cynaliadwy drwy ddyluniad safle ac adeiladu effeithiol. Mae cysyniadau fel toeau gwyrdd a phlannu rhywogaethau neilltuol i hwyluso cysgodi ac oeri yn cyfnerthu'r rôl y gall Seilwaith Gwyrdd ei chwarae wrth ostwng allyriadau carbon a rhoi cyfleoedd ar gyfer addasu newid hinsawdd tebyg i liniaru llifogydd a rheoli adnoddau dŵr. Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd y Cyngor hefyd yn cydnabod fod Seilwaith Gwyrdd yn ddull ar gyfer trin gweithredu ar newid hinsawdd a lliniaru a chaiff hefyd ei drin ym Mholisi Strategol S4 – Newid Hinsawdd.

5.107 Mae gan Sir Fynwy economi wledig ac amaethyddol gryf, a dylid ymchwilio cyfraniad Seilwaith Gwyrdd wrth gefnogi a chynyddu'r swyddogaeth hon drwy gyfleoedd cynhyrchu bwyd lleol ac arallgyfeirio gwledig. Gallai hyn gynnwys darparu rhandiroedd, isafswm maint gerddi, dylunio a rheoli cynhyrchu bwyd, plannu mewn mannau agored i'r cyhoedd a chefnogi pryfed peillio drwy gynyddu bioamrywiaeth a rhywogaethau planhigion.

### Datganiadau Ardal

5.108 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ofyniad i gynhyrchu Datganiad Ardal ar gyfer De Ddwyrain Cymru, a chafodd hynny ei gyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mawrth 2000. Prif ffocws y Datganiad Ardal yw adolygu'r ffordd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli a'u defnyddio, cefnogi gwasanaethau ecosystem a magu cydnerthedd. Cafodd darpariaeth Seilwaith Gwyrdd ei gydnabod fel bod yn cyfrannu'n allweddol at gynnal a hefyd gyfoethogi darpariaeth gwasanaethau ecosystem yn ogystal â chefnogi cydnerthedd adnoddau naturiol ac felly mae eu gwarchod a'u cryfhau yn ddull allweddol wrth gyflawni amcanion cenedlaethol a lleol ar gynaliadwyedd. Bydd y CDLlN yn rhoi ystyriaeth i'r Datganiad Ardal.

5.109 Mae Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy 2019 wedi llywio sylfaen tystiolaeth Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru. Mae'r Strategaeth yn rhoi fframwaith gynhwysfawr ar gyfer gweithredu cadarnhaol gan yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â gwarchodaeth, rheoli a gwella Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy yn y dyfodol ac mae'n nodi amcanion a blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer llywio cynllunio, rheoli a darpariaeth Seilwaith Gwyrdd yn Sir Fynwy. Mae hefyd yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth llinell sylfaen i helpu llywio Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Rhanbarthol ar gyfer

Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent. Caiff y Canllawiau Cynllunio Atodol a Fabwysiadwyd[60] ar Seilwaith Gwyrdd eu hadolygu fel rhan o broses y CDLlN.

5.110 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad 2020-2030 [61] (a gaiff hefyd ei alw yn Gynllun Gwella Hawliau Tramwy) sy'n rhoi cynllun 10 mlynedd i reoli, hyrwyddo a gwella mynediad, gan ddarparu ar gyfer anghenion y cyhoedd yn awr a hefyd yn y dyfodol.

### Cymeriad Tirwedd

5.111 Mae Sir Fynwy yn manteisio o adnoddau tirwedd ac ardaloedd o ansawdd gweledol sylweddol ac mae'n gartref i dirweddau gyda dynodiad rhyngwladol a chenedlaethol. Mae nodweddion tirwedd allweddol y Sir yn amrywio o rostir uchel agored yn y gogledd orllewin i iseldir canolog coediog wedi'u britho gyda thir amaethyddol ansawdd da, gyda thair afon, a'r tirwedd arfordirol ecolegol unigryw i'r de. Mae ganddynt fuddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sylweddol ac maent yn helpu i greu ymdeimlad o le.

5.112 Mae Maen Prawf (i) Polisi S17 yn anelu i warchod, cynnal a gwella cymeriad ac ansawdd tirwedd Sir Fynwy. Bydd polisïau Rheoli Datblygu yn y CDLlN yn benodol yn gwarchod Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Diwydiannol Blaenafon sydd â dynodiad rhyngwladol a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd â dynodiad tirwedd cenedlaethol sydd hefyd yn Warchodfa Awyr Dywyll[62], ac Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy. Rhoddir lefelau priodol o warchodaeth hefyd i nodweddion tirwedd arall sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw y Sir a rhoddir sylw i'w harwyddocâd yn defnyddio proses LANDMAP.

5.113 Cynhaliwyd adolygiad o ddynodiadau Ardaloedd Tirwedd Arbennig fel rhan o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Dynododd hyn bump ardal oedd yn cyfiawnhau dynodiad fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig, yn ymarferol yn cynnwys y rhan fwyaf o Sir Fynwy. Daethpwyd i'r casgliad y gall dynodi mwyafrif y Sir fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig danseilio bwriad y polisi i warchod y tirweddau mwy arbennig hyn fel yr adlewyrchir yn PCC11. Felly nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig yn cynnwys dynodiadau Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac yn lle hynny defnyddiodd ddull polisi at warchodaeth a rheoli tirwedd wedi ei seilio ar LANDMAP. Eir ymlaen â'r dull hwn yn y CDLlN a chaiff Canllawiau Cynllunio Atodol Asesiad Cymeriad Tirwedd ar gyfer sir Fynwy eu paratoi i cefnogi polisïau tirwedd y CDLlN.

---

[60] Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd Ebrill 2015
https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2015/07/GI-April-2015.pdf

[61] Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad Sir Fynwy 2020-2030:
https://www.monlife.co.uk/outdoor/countryside-access/rights-of-way-improvement-plan/

[62] Awyr Dywyll Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog https://www.beacons-npa.gov.uk/communities/sustainability-2/sustainable-development-fund/sdf-supported-projects/social-inclusion-education-conservation/dark-skies/

5.114 Comisiynodd y Cyngor ddiweddariad ar yr Asesiad Tirwedd a Chapasiti Sensitifrwydd presennol a baratowyd gan Simon White Associates yn 2008/2009 i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Mae'r diweddariad yn rhoi ystyriaeth i ddyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig, datblygu a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol ac asesu meysydd allweddol a gyflwynwyd ar yr Alwad Cam 1 ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar y Prif Aneddiadau, Aneddiadau Glannau Hafren ac Aneddiadau Eilaidd ac mae'n rhoi barn ar yr ardaloedd lleiaf sensitif o ran tirwedd yn yr aneddiadau hyn ar gyfer potensial twf preswyl. Mae'r asesiad yn rhoi ystyriaeth i'r ecosystem sylfaenol ac asedau cydnerthedd ynghyd ag ystod o ddynodiadau.

5.115 Dylid defnyddio'r wybodaeth a gynhwysir yn Asesiadau Cymeriad Tirlun LANDMAP a'r Astudiaeth Diweddaru Sensitifrwydd Tirwedd (Hydref 2020)[63] i sicrhau bod y cynigion datblygu yn adlewyrchu natur unigryw, nodweddion a sensitifrwydd tirwedd y Sir.

### Cydnerthedd Amgylchedd Naturiol/Bioamrywiaeth ac Ecosystem

5.116 Mae Sir Fynwy yn gyfoethog mewn amrywiaeth biolegol a daearegol a chaiff hynny ei adlewyrchu yn yr ystod o ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o fewn ardal y cynllun, sy'n cynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol [cenedlaethol]
- Gwarchodfa Natur Leol a Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur [cenedlaethol]
- Gwarchodfa Natur Leol a Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur [lleol].

5.117 Mae Deddf yr Amgylchedd [Cymru] yn cyflwyno Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau estynedig (Dyletswydd Adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy sicrhau nad yw datblygiad yn achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau ac mae'n rhaid iddo fod o fudd net i fioamrywiaeth. Mae PCC11 yn nodi y bydd y fframwaith eang ar gyfer gweithredu Dyletswydd Adran 6 ac adeiladu cydnerthedd drwy'r system cynllunio yn cynnwys trin pump thema allweddol cydnerthedd ecosystemau: Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd ac Addasu i Newid. Caiff cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7 eu dynodi gan Weinidogion Cymru fel y rhai yr ystyriant eu bod o arwyddocâd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng nghyswllt Cymru.

[63] Astudiaeth Diweddaru Sensitifrwydd Tirlun Hydref 2020 https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/candidate-sites/landscape-sensitivity-study/

5.118 Bydd y CDLlN yn anelu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a daeareg y Sir drwy asesu, gwarchod, adfer a gwella cynefinoedd ecolegol gwerthfawr, rhwydweithiau a choridorau bywyd gwyllt, yn ogystal â chreu cynefinoedd newydd a gostwng lledaeniad ac effaith rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Mae hyn yn ymwneud ag effeithiau uniongyrchol a hefyd anuniongyrchol gan y gall datblygiadau tu allan i safle pwysig ddal gael effaith niweidiol.

5.119 Mae darpariaeth yn PCC11 a Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a chynllunio ar gyfer gwarchodaeth mewn haenau ar gyfer safleoedd dynodedig ac maent yn gosod cyd-destun clir ar gyfer y dull polisi perthnasol at y safleoedd hyn, gyda'r rhai o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol yn cael mwy o warchodaeth na rhai o bwysigrwydd lleol.

5.120 Caiff safleoedd Natura 2000 eu dosbarthu dan Gyfarwyddebau yr Undeb Ewropeaidd ac felly maent yn mwynhau gwarchodaeth statudol dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad priodol ar gynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd. Mae canllawiau cenedlaethol a deddfwriaeth ar y mater hwn. Caiff Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei baratoi fel rhan o broses y CDLlN.

5.121 Caiff cynigion datblygu sy'n effeithio ar safleoedd anstatudol gyda dynodiad lleol neu safleoedd heb ddynodiad sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer dynodiad, a chynefinoedd/rhywogaethau pwysigrwydd Adran 7, eu hasesu ar y Polisïau Rheoli Datblygu perthnasol a gynhwysir yn y Cynllun Adnau.

5.122 Yn dilyn tystiolaeth newydd am effeithiau amgylcheddol ffosffadau mewn cyrsiau dŵr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu targedau tynnach ar gyfer ansawdd dŵr cyrsiau dŵr ac wedi asesu'r naw Ardal Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Yn Sir Fynwy dynodwyd fod 88% o gyrff dŵr yr Afon Wysg yn methu cyrraedd y targed gofynnol a bod 67% o gyrff dŵr yr Afon Gwy yn methu cyrraedd y targed gofynnol. Fel canlyniad i'r methiant hwn, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru adroddiad cydymffurfiaeth ffosffadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol[64] i Gymru gyfan i sicrhau nad yw capasiti amgylcheddol ac ansawdd dŵr yr afonydd yn gwaethygu ymhellach. Bydd yn rhaid i gynigion datblygu o fewn dalgylchoedd sensitif i ffosffadau yr Afon Gwy a'r Afon Wysg fodloni canllawiau cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos y gall y datblygiad sicrhau niwtraliaeth a gwella o ran ffosffadau yn ei ddyluniad a/neu gyfraniad i'r corff dŵr.

[64] Canllawiau Cynllunio Interim Cyfoeth Naturiol Cymru https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=en

### Mynediad i Gefn Gwlad

5.123 Fel y nodir uchod cafodd Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad Sir Fynwy ei gynhyrchu ar ôl ymgynghori ac asesiadau helaeth. Mae llawer o ddarpariaeth mynediad i gefn gwlad yn Sir Fynwy, Mae dros 2,100km o hawliau tramwy, gyda dros 500km ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dim ond 11% o'r rhwydwaith sydd naill ai yn llwybrau ceffyl neu'n gilffyrdd cyfyngedig y gall cerddwyr, seiclwyr a marchogion eu defnyddio. Mae'r rhwydwaith hwn yn ddarniog a chyfyngedig, felly polisi Cyngor Sir Fynwy yw cynyddu mynediad i seiclwyr a marchogion lle bynnag sy'n bosibl. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored yn agos at ble mae preswylwyr yn byw yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bydd yn ategu darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae pandemig diweddar Covid-19 wedi tanlinellu gwerth a phwysigrwydd mannau agored/gwyrdd sy'n hygyrch yn lleol ar gyfer iechyd, llesiant a hamdden.

| Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Polisi Ehangach | |
|---|---|
| Amcanion y CDLlN | Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirlun<br>Amcan 4 – Risg Llifogydd<br>Amcan 6 – Tir<br>Amcan 7 – Adnoddau Naturiol<br>Amcan 8 – Iechyd a Llesiant<br>Amcan 11 – Creu Lleoedd<br>Amcan 12 – Cymunedau<br>Amcan 14 – Seilwaith<br>Amcan 17 – Newid Hinsawdd |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (LlC, Chwef 2021)) | Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd<br>Polisi 15 – Fforest Genedlaethol |
| Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (LlC, Chwefror 2021) | Thema Lleoedd Unigryw a Naturiol (Pennod 6) |
| Adeiladu Lleoedd Gwell (LlC, Gorffennaf 2020) | Blaenoriaethau a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau yn dilyn Covid-19<br>Seilwaith Gwyrdd, iechyd a llesiant a chydnerthedd ecolegol (tudalen 22)<br>Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwella iechyd a llesiant (tudalen 23) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlC, 2015) | Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| | |
|---|---|
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy (Chwefror 2018) | • Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc<br>• Gwarchod a gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol gan liniaru ac addasu effaith newid hinsawdd |
| Drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol Sir Fynwy | Mae'r polisi hwn yn cefnogi nod y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol o sicrhau fod Sir Fynwy yn lle gwyrdd i fyw a gweithio ynddo gyda llai o allyriadau carbon, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i drin yr argyfwng hinsawdd a natur. |
| Tystiolaeth Allweddol | TAN 5: Cadwraeth Natur a Cynllunio, Astudiaeth Diweddaru Sensitifrwydd Tirwedd Sir Fynwy (White Consultants, Hydref 2020)<br>Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Cyngor Sir Fynwy 2019<br>Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd a fabwysiadwyd – Ebrill 2015 (i'w adolygu fel rhan o broses y CDLlN)<br>Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad Sir Fynwy 2020-2030<br>Adroddiad Cydymffurfiaeth (ffosffadau) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Polisïau Manwl | I'w gadarnhau yn y CDLlN Adnau |

## Y Camau Nesaf

5.124 Yn dilyn yr ymgynghoriad ac ymgyfraniad rhanddeiliaid ar y Strategaeth a Ffefrir, bydd y Cyngor yn cwblhau'r CDLlN ac yn ei roi ar Adnau. Rhoddir manylion adborth o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn Adroddiad yr Ymgynghoriad ar y Strategaeth. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn fynd gydag Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig y CDLlN a dogfennau eraill yn cefnogi ar Adnau, yn unol â Rheoliad 17 Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2015). Rhoddir crynodeb o'r materion allweddol a godwyd drwy'r ymgynghoriad a'r Strategaeth a Ffefrir gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Cyngor yn y Gwanwyn 2023 i geisio cymeradwyaeth i'r Strategaeth a Ffefrir. Caiff y Cynllun Adnau wedyn ei baratoi a'i ystyried gan y Cyngor cyn ymgynghoriad statudol ac ymgysylltu yn ystod Gwanwyn 2024.

5.125 Yn dilyn ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau ac ystyried y materion a godwyd, caiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fydd yn penodi Arolygydd annibynnol i archwilio'r CDLlN. Gan roi ystyriaeth i'r dystiolaeth a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad Adnau, mae'n rhaid i'r Arolygydd benderfynu os yw'r CDLlN yn cydymffurfio gyda'r 'profion cadernid' a nodir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

5.126 Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CDLlN. Bydd adroddiad yr Arolygydd yn rhwymo ac mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau a mabwysiadu'r CDLlN fel y'i diwygiwyd.

Unwaith y cafodd ei fabwysiadu, bydd y CDLlN yn cymryd lle'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig.

## Atodiad 1 – Camau Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

| Camau Allweddol | Amserlen | Manylion ychwanegol |
|---|---|---|
| **Cytundeb Cyflenwi –** sefydlu amserlen ar gyfer camau allweddol paratoi'r cynllun a'r dull o ymgysylltu â'r gymuned. | Ymgynghoriad 4-wythnos 21 Mawrth -18 Ebrill 2018 | |
| | Adolygiad cyntaf Mawrth 2020 | Diwygiwyd i adlewyrchu'r oedi cyn cam Strategaeth a Ffefrir oherwydd y cyfnod cyn Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019, yr amser a'r gwaith ychwanegol oedd ei angen i lywio'r Strategaeth a Ffefrir ac oedi yn gysylltiedig gyda chydweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos ar waith sylfaen tystiolaeth ar y cyd. |
| | Ail adolygiad Rhagfyr 2020 | Diweddaru i adlewyrchu oedi na fedrid ei osgoi oherwydd pandemig Covid-19, yr adolygiad o'r Materion, Gwerthoedd, Amcanion a'r Sylfaen Tystiolaeth, a chyhoeddi rhagamcaniadau poblogaeth seiliedig ar 2018. |
| | Trydydd adolygiad Rhagfyr 2022 | Diweddarwyd i adlewyrchu amserlenni diwygiedig yn dilyn y penderfyniad i ddechrau ar Strategaeth a Ffefrir newydd. |
| **Materion, Gweledigaeth ac Amcanion** – yn dynodi'r materion allweddol, heriau ac ysgogwyr sy'n wynebu'r Sir ac yn gosod gweledigaeth ac amcanion y CDLlN | Ymgynghoriad Ionawr – Chwefror 2019 | |
| | Adolygwyd a diwygiwyd Mehefin 2019 | Diweddarwyd i adlewyrchu adborth perthnasol o'r broses ymgysylltu wedi ei thargedu a datganiad y Cyngor am argyfwng hinsawdd ym Mai 2019 |
| | Cynhwyswyd yr adolygiad a gynhaliwyd ym Mehefin 2020 yn Adolygiad y CDLlN o Faterion, Gweledi-gaeth, Amcanion a'r Sylfaen Tystiolaeth yng ngoleuni Covid 19 (Medi 2020 a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2020) | Daeth yr adolygiad i'r casgliad yr ystyrir fod gan nifer o faterion ac amcanion fwy o bwyslais a phwysigrwydd oherwydd Covid-19, yn gydnaws gyda'r blaenoriaethau a ddynodwyd yn nogfen Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020. |
| | Diweddarwyd Rhagfyr 2022 | Mân ddiweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf |

| | | |
|---|---|---|
| **Opsiynau Twf a Gofodol -** nifer o opsiynau ar gyfer twf a gofodol ar gyfer y CDLlN gan roi ystyriaeth i sylfaen tystiolaeth a dyheadau polisi y Cynllun. | Ymgynghoriad anstatudol am gyfnod pedair wythnos Gorffennaf – Awst 2019 | Cynhaliwyd yn seiliedig ar ragamcaniadau poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2014 |
| | Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020) – Ymgynghoriad anstatudol ar y papur opsiynau wedi ei ddiweddaru Ionawr - Chwefror 2021 | Diweddarwyd i roi ystyriaeth i ragamcaniadau poblogaeth ac aelwydydd seiliedig ar 2018 |
| | Datblygu Adroddiad Cyngor CDLlN Sir Fynwy – 27 Medi 2022 | Cymeradwyo'r opsiynau twf a gofodol arfaethedig ar gyfer datblygu'r CDLlN, gan roi ystyriaeth i nifer o heriau a gododd yn cynnwys gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i'r Strategaeth a Ffefrir (Mehefin 2021) a materion ffosffadau ac ansawdd dŵr y Gwy a'r Wysg. |
| **Strategaeth a Ffefrir** (ynghyd â'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig) – y cyntaf o'r camau ymgynghori statudol, yn rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a defnydd tir ar gyfer cyfnod y Cynllun 2018-2023. Mae hefyd yn dynodi faint o dwf sydd ei angen a syniad o leoliadau'r twf hwn. | Strategaeth a Ffefrir (Mawrth 2020) – Cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad 6 wythnos 9 Mawrth 2020 – 22 Ebrill 2020. | |
| | 20 Gorffennaf 2020 – hysbysiad atal yr Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir oherwydd Covid-19 | Yn dilyn cyngor yn llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (7 Gorffennaf 2020), penderfynwyd atal yr ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLlN. Roedd y llythyr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal asesiad o sylfaen tystiolaeth, strategaeth a pholisïau y CDLlN yn nhermau sensitifrwydd i ganlyniadau pandemig Covid-19 cyn symud ymlaen i baratoi'r Cynllun. |
| | Strategaeth a Ffefrir (Mehefin 2021) – Cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad wyth wythnos 5 Gorffennaf 2021 – 31 Awst 2021. | Diweddarwyd i roi ystyriaeth i ragamcaniadau poblogaeth 2018 a'i adolygu oherwydd Covid-19. |
| | Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2022) | Diweddarwyd i roi ystyriaeth i wrthwynebiad Llywodraeth Cymru i'r Strategaeth a Ffefrir Mehefin 2021 a materion ffosffadau ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | ansawdd dŵr Afon Gwy ac Afon Wysg. |

## Atodiad 2 – Dogfennau Cefnogi y CDLlN

Cafodd nifer o ddogfennau cefndir ychwanegol eu paratoi i lywio'r Strategaeth a Ffefrir. Cânt eu rhestru islaw a dylid eu darllen wrth ochr y Strategaeth a Ffefrir gan mai dim ond eu prif ganfyddiadau y rhoddir sylw iddynt yn y ddogfen hon oherwydd y data/gwybodaeth sylweddol sydd ynddynt. Mae'r dogfennau ar gael ar dudalen Polisi Cynllunio gwefan y Cyngor[65]. Bydd dogfennau eraill yn dilyn wrth i'r Cynllun fynd rhagddo.

| Dogfen Gefnogi | Diben |
|---|---|
| **Dogfennau'r CDLlN** | |
| Adroddiad Adolygu y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (cymeradwywyd gan y Cyngor, Mawrth 2018) | Gwerthuso i ba raddau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig yn gweithredu'n effeithiol |
| Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig y CDLlN, Rhagfyr 2022[66]. | Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn nodi sut y caiff y CDLlN ei baratoi ac mae'n rhoi amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun ynghyd â Chynllun Ymgyfraniad Cymunedol sy'n amlinellu egwyddorion ymgysylltu cymunedol y Cyngor. |
| Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (diweddarwyd Rhagfyr 2022) | Gosod y materion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor wrth ochr gweledigaeth ac amcanion y CDLlN i drin y materion, heriau a chyfleoedd a ddynodwyd. |
| Adolygu Materion, Gweledigaeth, amcanon a Sylfaen Tystiolaeth y CDLlN yng ngoleuni Covid-19 (Medi 2020, cymeradwywyd gan y Cyngor Hydref 2020) | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ac adolygiad ar baratoi'r CDLlN yng ngoleuni pandemig Covid-19 ac mewn ymateb i gyhoeddi llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 7 Gorffennaf 2020[67]. Mae'r llythyr yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal asesiad o sylfaen tystiolaeth, strategaeth a pholisïau y CDLlN yn nhermau sensitifrwydd i ganlyniadau'r pandemig cyfredol cyn symud ymlaen i baratoi'r cynllun. |
| **Dogfennau Cysylltiedig Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig a Rheoliadau Cynefinoedd** | |

[65] Gellir gweld y papurau cefndir sy'n cefnogi yn: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/development-of-an-evidence-base/

[66] Cafodd y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2018. Cafodd diwygiadau dilynol i'r Cytundeb Cyflenwi eu cymeradwyo gan y Cyngor a'u cytuno gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2020 a Hydref 2020.

[67] Llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parc Cenedlaethol – System Cynllunio a Covid-19, 7 Gorffennaf 2020

| | |
|---|---|
| Adroddiad Cwmpasu Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (diweddarwyd Rhagfyr 2022) | Diweddarwyd i roi ystyriaeth i ymateb gan ymgynghoriad wedi ei dargedu. Mae hyn yn gosod cefndir proses Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig/Asesiad Amgylcheddol Strategol a gaiff ei ddilyn drwy gydol proses y CDLlN ac yn ystyried nodweddion ardal y Cynllun drwy adolygu cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol a gwybodaeth llinell sylfaen. |
| Adroddiad Sgrinio Dechreuol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Rhagfyr 2018) | Diweddarwyd i roi ystyriaeth i ymatebion o ymgynghoriad a dargedwyd, mae hyn yn amlinellu'r gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng nghyswllt y CDLlN ac yn dynodi'r safleoedd Ewropeaidd perthnasol i'w hystyried o fewn y broses. |
| Adroddiad Dechreuol Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (AECOM, Tachwedd 2022) | Yr Adroddiad Dechreuol hwn yw ail gam proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Strategol ac mae'n gwerthuso effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Strategaeth y Ffefrir y CDLlN. Mae hyn yn cynnwys y Weledigaeth, Amcanion Strategol, Opsiynau Twf a Gofodol a'r Strategaeth a Ffefrir, yn cynnwys y Polisïau Strategol. |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd CDLlN Sir Fynwy – Strategaeth a Ffefrir (AECOM, Tachwedd 2022) | Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi asesiad rhagarweiniol lefel uchel o'r Strategaeth a Ffefrir. Ar y cam hwn, nod yr adroddiad yw dynodi safleoedd Ewropeaidd y mae potensial i'r CDLlN effeithio arnynt ac i ddynodi effeithiau sylweddol tebygol posibl y gall y Cynllun eu cael. Mae hefyd yn dynodi cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill a all fod ag effeithiau 'mewn cyfuniad' os cânt eu hystyried wrth ochr effeithiau'r CDLlN. |
| **Tystiolaeth Gefnogi a Phapurau Cefndir** | |
| Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig Ddiweddaredig CDLlN Sir Fynwy a gynhyrchwyd gan Edge Analytics (Rhagfyr 2021) | Comisiynwyd Edge Analytics i baratoi cyfres o sefyllfaoedd ddemograffig, anheddau a thwf cyflogaeth wedi eu diweddaru yn defnyddio rhagamcaniadau seiliedig ar 2018 fel y man dechrau, wedi eu diweddaru i roi ystyriaeth i MYE ONS 2020 a ffigurau cwblhau tai hyd at 2011. Mae'r Adroddiad yn defnyddio ystod o dybiaethau sensitifrwydd i drin y materion a heriau allweddol i roi ystod o sefyllfaoedd twf ar gyfer y Sir. Caiff y twf cyflogaeth posibl y gellid ei gefnogi gan sefyllfaoedd demograffig ac anheddau hefyd ei nodi yn cynnwys tybiaethau allweddol ar weithgaredd economaidd, cyfraddau diweithdra a newid demograffig cysylltiedig â chymhareb cymudo a newid economaidd. Mae'r adroddiad yn rhoi cyfres o ddeilliannau poblogaeth, tai a thwf economaidd i'w hystyried wrth ffurfio'r CDLlN. |
| Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy (diweddarwyd Rhagfyr 2022) | Asesu a dynodi aneddiadau o fewn Sir Fynwy, a allai fod yn addas i ddarparu ar gyfer twf y dyfodol yn nhermau eu lleoliad, maint, rôl a swyddogaeth ac sy'n nodi'r hierarchaeth aneddiadau dechreuol yn deillio o'r gwerthusiad i lywio'r Strategaeth a Ffafrir. |

| | |
|---|---|
| Papur Opsiynau Twf a Gofodol (Medi 2022) | Rhoi cefndir opsiynau twf a gofodol y Strategaeth a Ffefrir ynghyd ag adolygu i ba raddau y byddant yn cyflawni amcanion y CDLlN. |
| Papur Cefndir Tai (Rhagfyr 2022) | Mae’r papur yn dadansoddi pob elfen o gyflenwad tai mewn fwy o fanylder cyn cyrraedd darpariaeth dyraniadau tai newydd yn seiliedig ar y fethodoleg a fanylir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Rhifyn 3 (Mawrth 2020). Mae’n cynnwys Astudiaeth Potensial Tai sy’n anelu i ddynodi lle gellid lleoli safleoedd ar hap o fewn ardaloedd aneddiadau presennol Sir Fynwy. |
| Asesiad o’r Farchnad Tai Lleol (2020) | Rhoi gwybodaeth fanwl ar y marchnadoedd tai lleol ar draws y Sir. Mae’n cynnwys asesiad meintiol o angen tai a ddefnyddir i lywio polisïau tai y CDLlN yn nhermau darpariaeth tai fforddiadwy, daliadaethau a mathau o lety sydd ei angen. Caiff Asesiad wedi ei ddiweddaru ei baratoi yn defnyddio templed newydd Llywodraeth Cymru. |
| Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr – Ionawr 2021 | Adroddiad yn asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a sefydlu nifer y lleiniau sydd eu hangen i ateb yr angen a ddynodwyd.<br>Cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ionawr 2021 – disgwylir cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. |
| Adolygiad Tir Cyflogaeth Sir Fynwy, BE Group (Hydref 2020) | Sylfaen tystiolaeth a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru Mae’r Adolygiad hwn yn rhoi asesiad o’r cyflenwad a’r galw am dir cyflogaeth yn y Sir, gan edrych ar y dyraniadau cyflogaeth sydd ar gael ac ardaloedd cyflogaeth presennol ac yn adolygu’r farchnad eiddo, yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid lleol ac yn darogan twf cyflogaeth i ddeall gofynion galw cyflogaeth ar gyfer cyfnod y Cynllun. |
| Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol – Astudiaeth Fwy na Lleol, BE Group (Mawrth 2020) | Mae’r adroddiad yn trin materion tir cyflogaeth ar sail ranbarthol ac yn cwmpasu pump awdurdod lleol: - Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili a Casnewydd. Mae’n rhoi sylfaen tystiolaeth economaidd, yn adolygu’r farchnad eiddo a thir cyflogaeth ac yn argymell safleoedd cyflogaeth o arwyddocâd ranbarthol i’w ystyried ym mhob un o’r ardaloedd awdurdod lleol. |
| Adroddiadau Economïau Dyfodol Cyngor Sir Fynwy, BE Group (2018) | Roedd Adroddiadau Economïau’r Dyfodol Cyngor Sir Fynwy yn llywio datblygiad y Strategaeth Twf Economaidd a Mewnfuddsoddiad diwygiedig ar gyfer y Cyngor. Mae’r dadansoddiad hefyd yn ddarn sylfaenol o waith sy’n rhoi tystiolaeth i gefnogi CDLlN Sir Fynwy |
| Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd (Tachwedd 2019) | Mae’r Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd yn nodi’r uchelgais economaidd ar gyfer y Sir a bydd yn gweithio wrth ochr y CDLlN i ddynodi safleoedd ac adeiladau cyflogaeth addas er mwyn |

| | |
|---|---|
| | galluogi busnesau presennol i dyfu a denu mewnfuddsoddiad gan fusnesau newydd mewn sectorau twf allweddol. |
| Prosbectws Mewnfuddsoddi 2020: Tyfu eich Busnes yn Sir Fynwy (Mawrth 2020) | Mae'r ddogfen hon yn cefnogi Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd (Tachwedd 2019) a nodir uchod. Mae'r prosbectws yn gosod ein dyheadau i godi proffil economaidd Sir Fynwy gyda blaenoriaethau i ymchwilio cyfleoedd busnes a denu cyllid, tra'n bod yn sensitif i dirwedd Sir Fynwy. |
| Astudiaeth Diweddaru Sensitifrwydd Tirlun Sir Fynwy (White Consultants, Hydref 2020) | Diweddariad i'r Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd a gynhaliwyd yn 2009 yn rhoi asesiadau manwl a gwerthuso sensitifrwydd ardaloedd cymeriad tirwedd lleol a safleoedd ymgeisiol strategol, gyda golwg ar sefydlu'r ardaloedd lleiaf sensitif yn nhermau tirwedd ar gyfer potensial twf tai. Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys ardaloedd a safleoedd ymgeisiol a ddiffiniwyd o amgylch prif aneddiadau, aneddiadau eilaidd a Glannau Hafren. |
| Papur Cefndir Manwerthu (Awst 2022) | Rhoi 'gwiriad iechyd' manwerthu blynyddol ar ein pump prif dref (sef Brynbuga, Cas-gwent, Cil-y-coed, Trefynwy a'r Fenni). |
| Papur Cefndir Tir Cyflogaeth (Mai 2022) | Asesiad blynyddol o'r defnydd o dir cyflogaeth ar draws safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd ac a warchodwyd fel y'u dynodir yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. |
| Datganiad Technegol Rhanbarthol Mwynau – 2il Adolygiad De Cymru (Medi 2020) a Llythyr Egluro Datganiad Technegol Rhanbarthol Llywodraeth Cymru – 11 Tachwedd 2021 | Mae Nodyn Cyngor Technegol 1 Mwynau (2004) yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer ardaloedd Gweithgorau Agregau Rhanbarthol De Cymru a hefyd Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Cyhoeddwyd 2il Adolygiad ar gyfer De Cymru ym mis Medi 2020 a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru Lythyr Egluro ym mis Tachwedd 2021. Mae'r rhain yn gwneud argymhellion ar gyfer y dyraniadau sydd eu hangen i sicrhau bod cyflenwad digidol o greigiau mân, yn cynnwys yr isafswm darpariaeth a argymhellir yn genedlaethol o 7 a 10 mlynedd ar gael ar gyfer holl gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, |
| Adroddiad Cynllunio Gwastraff De Ddwyrain Cymru – Ebrill 2016 | Mae PCC11 a TAN 21: Gwastraff, yn sefydlu trefniadau monitro rhanbarthol i lywio paratoi cynlluniau datblygu lleol a chynorthwyo wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae'r adroddiad yn asesu'r angen am fwy o gapasiti mewn tomennydd llanw a chyfleusterau rheoli gwastraff ar lefel ranbarthol. |
| Asesiad Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel, Hydref 2020 | Sylfaen tystiolaeth i lywio datblygu polisïau ynni adnewyddadwy a charbon isel i'w cynnwys yn y CDLlN, a gynhaliwyd yn unol â *Canllawiau Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr, Medi 2015* Llywodraeth Cymru. Nod yr asesiad yw amcangyfrif faint o adnoddau ynni adnewyddadwy sydd o fewn Sir Fynwy er mwyn |

| | |
|---|---|
| | rhoi peth ffocws ar gyfer gosod polisi a thargedau gofodol lleol. Gan adeiladu ar ganfyddiadau adroddiad 2020o gwneir mwy o waith gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon i ddynodi Ardaloedd Chwilio Lleol a thargedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w gynnwys yn y Cynllun Adnau. Caiff y rhain eu llywio gan gyfweliadau ymgysylltu gyda'r diwydiant, gweithdai i randdeiliaid a mwy o asesiadau sensitifrwydd tirwedd. |
| Hunanasesiad o'r Strategaeth a Ffefrir o gymharu â'r Profion Cadernid (Rhagfyr 2022) | Mae hyn yn gosod asesiad o'r Strategaeth a Ffefrir o gymharu â'r Profion Cadernid, ynghyd â chydymffurfiaeth cyffredinol y Strategaeth gyda Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol. |
| **Safleoedd Ymgeisiol** | |
| Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (Chwefror 2022) | Cofnod o'r Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd yn ystod yr ail alwad am safleoedd, i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys ar gyfer datblygu, ailddatblygu a/neu eu gwarchod yn y CDLlN. |
| Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Lefel Uchel (Rhagfyr 2022) | Asesiad lefel uchel o safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn ystod yr Ail Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, yn seiliedig ar gymhwysedd safle gyda'r Strategaeth a Ffefrir, cyfyngiadau na fedrir eu goresgyn ar ddatblygiad safle, trothwy maint safleoedd a gwelededd safleoedd. |

## Atodiad 3 – Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

Paratowyd y Strategaeth a Ffefrir yng nghyd-destun deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau ar y lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, a chaiff y manylion eu nodi isod.

| | |
|---|---|
| **Cyd-destun Deddfwriaethol** | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Gosod y fframwaith ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy sicrhau fod datblygu cynaliadwy wrth galon llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Caiff y Ddeddf ei seilio ar saith nod llesiant ac mae'n gosod pump ffordd o weithio sydd eu hangen i wasanaethau cyhoeddus gyflawni eu nodau. |
| **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** | Gosod cyfres o newidiadau deddfwriaethol i sicrhau ad-drefnu'r system cynllunio yng Nghymru, yn cynllunio cryfhau dull dan arweiniad Cynlluniau. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Genedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol. |
| **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** | Rhoi'r ddarpariaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynus, gan roi fframwaith iterol sy'n sicrhau y bydd rheoli cynaliadwyedd adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn ystyriaeth greiddiol wrth wneud penderfyniadau. |
| **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2011** | Anelu i sicrhau trawsnewidiad parhaus o sut y caiff datblygiadau eu cynllunio i gynnwys seilwaith cerdded a seiclo o'r cychwyn cyntaf yn ogystal ag annog newid ymddygiad hirdymor. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer mapio llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig mewn cysylltiad gyda Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol. |
| **Cymru sy'n Fwy Cyfartal – Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (2021)** | Cefnogi diben cyffredin a ffyrdd o weithio a gaiff eu rhoi ar waith drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol i ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i ostwng yr anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig gydag anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **Cyd-destun Polisi** | |
| **Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021)** | Gosod 11 deilliant sydd gyda'i gilydd yn ddatganiad o ble mae Llywodraeth Cymru eisiau i Gymru fod mewn 20 mlynedd. Bwriedir i'r deilliannau fod yn rhyng-gysylltiedig ac yn rhyng-ddibynnol ac fe'u cynigir i wella lleoedd a llesiant ar draws Cymru. Mae'n nodi fod yn rhaid i dwf a datblygiad newydd fod yn y lle cywir, cael eu gwneud yn y ffordd gywir a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau i sicrhau deilliannau Cymru'r Dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)** | Gosod y polisïau cynllunio defnydd tir a phrif nodau datblygu cynaliadwy Cymru. Mae'n sicrhau tybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac yn ystyried mai dull gweithredu a arweinir gan Gynllun yw'r ffordd fwyaf effeithlon o sicrhau datblygu cynaliadwy drwy'r system cynllunio. Caiff ffocws cryf ar gyfer hyrwyddo creu lleoedd ei ystyried yn hollbwysig i sicrhau lleoedd cynaliadwy, sicrhau datblygu sy'n gynhwysol yn gymdeithasol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynus. |
| **Cynllun Datblygu Strategol De Ddwyrain Cymru** | Bwriedir i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol roi fframwaith gofodol rhanbarthol ar gyfer datblygu a defnydd tir yn y dyfodol o fewn rhanbarth a ddiffiniwyd. Bydd hyn yn galluogi materion mwy na lleol i gael eu hystyried tebyg i'r galw am dai, ardaloedd chwilio am safleoedd cyflogaeth strategol a seilwaith trafnidiaeth gefnogol, sy'n torri ar draws nifer o awdurdodau cynllunio lleol, a chynllunio ar eu cyfer mewn ffordd integredig a chynhwysfawr. Mae Sir Fynwy yn rhan o ranbarth De Ddwyrain Cymru. Mae dechreuad ffurfiol yn disgwyl penderfyniad ar nifer o faterion yn ymwneud â sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig. |
| **Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair (LlC, Gorff 2020)** | Gosod blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo wrth weithredu yn y cyfnod adfer ar ôl pandemig Covid-19. Mae'n rhoi sylw i'r polisïau cynllunio ac offerynnau allweddol presennol y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru. |
| **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)** | Gosod y sylfeini i Gymru ar gyfer pontio i fod yn genedl carbon isel; gosod dull gweithredu Llywodraeth Cymru i gynyddu effeithiolrwydd a gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 80% erbyn 2050. Yn y diwedd mae'n rhaid i bob Cynllun Datblygu gefnogi nodau datgarboneiddio strategol i hwyluso ynni glân ac adeiladu cydnerthedd i effeithiau newid hinsawdd. |
| **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)** | Eistedd wrth ochr Cymru'r Dyfodol wrth ddynodi cyfleoedd a llywio datblygiad ar y tir ac ar y môr. Mae'n cynnwys cynlluniau a pholisïau fydd yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer moroedd glân, iach, diogel ac amrywiol, llywio datblygu cynaliadwy yn y dyfodol a chefnogi twf adnoddau mannau morol a naturiol ('twf glas'). Sicrhau y caiff ardaloedd arfordirol eu cynllunio mewn modd sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. |
| **Llwybr Newydd: strategaeth trafnidiaeth Cymru 2021** | Gosod y weledigaeth ar gyfer sut y gall y system drafnidiaeth helpu i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru a chreu cymdeithas fwy llewyrchus, gwyrdd a chyfartal. Mae'n nodi tair blaenoriaeth i gyflawni'r weledigaeth hon fydd yn gwella iechyd, trechu tlodi ac agor y system drafnidiaeth i bawb, yn arbennig ar gyfer y rhai heb fynediad i gar a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Cefnogir hyn gan naw cynllun |

| | |
|---|---|
| | bach yn esbonio sut y caiff y blaenoriaethau eu cyflwyno mewn gwahanol ddulliau a sectorau trafnidiaeth. |
| **Cyd-destun Rhanbarthol** | |
| **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** | Mae'n cynnwys deg awdurdod lleol a draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru, yn cynnwys Sir Fynwy, sy'n cydweithio ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal i geisio mynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar yr holl ranbarth, tebyg i fod heb waith a chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae'r awdurdodau wedi ymrwymo i Fargen Ddinesig i gyllido prosiectau sy'n anelu i hybu gallu cystadleuol y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. |
| **Metro De Ddwyrain Cymru** | I dyfu ei economi, mae cydnabyddiaeth eang fod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd angen buddsoddiad sylweddol yn ei seilwaith i'w helpu i fod â mwy o rôl yn economi'r Deyrnas Unedig. Bydd dull gweithredu rhanbarthol, wedi'i seilio ar drawsnewid mewn trafnidiaeth gyhoeddus, yn helpu i gyflawni'r uchelgais hon, gan alluogi'r rhanbarth i godi ei broffil rhyngwladol a chystadlu'n fwy effeithlon ar lwyfan y byd. |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Ymgynghoriad ar Ddrafft Gynllun Llesiant Gwent (2022)** | Dechreuodd y pump Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gwahanol yn rhanbarth Gwent weithio i gynnal asesiad llesiant ar draws Gwent gydag asesiadau lleol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn 2021. Cyhoeddwyd hyn ym mis Mai 2002 a chafodd ei ddefnyddio i ddatblygu drafft ymgynghori Cynllun Llesiant Gwent. Mae'r drafft Gynllun Llesiant yn nodi'r hyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud dros y pum mlynedd nesaf i fynd i'r afael â'r materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a all effeithio ar lesiant yng Ngwent. Mae'r Cynllun yn cynnwys tri amcan drafft: creu Gwent deg a chyfartal i bawb, creu Gwent sydd â chymunedau cyfeillgar, diogel a hyderus a chreu Gwent lle caiff yr amgylchedd naturiol ei ddiogelu a'i wella. Cyhoeddir Cynllun Llesiant terfynol Gwent ym mis Mai 2023. |
| **Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos: Cydweithio a Chydweithredu** | Fel Sir ar y gororau sydd yn cydffinio ag awdurdodau lleol yng Nghymru a hefyd yn Lloegr, mae Sir Fynwy yn ymroddedig i gydweithredu gyda'i awdurdodau cyfagos. Fel rhan o gydweithredu gydag awdurdodau cyfagos, rhoddwyd ystyriaeth i ganllawiau cenedlaethol lle mae angen dull cydweithredu i'r broses dethol safle i hyrwyddo datblygu tir llwyd a datblygu sylfaen tystiolaeth ar y cyd. |
| **Cyd-destun Lleol** | |
| **Cynllun Llesiant Sir Fynwy (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) Chwefror 2018** | Cafodd Cynllun Llesiant Sir Fynwy ei baratoi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Er iddo gael ei gynnal ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hytrach na Chyngor Sir Fynwy yn benodol, mae'n dynodi materion pwysig i'r Sir gyfan sy'n rhaid eu hystyried. |

| | |
|---|---|
| **Drafft Gynllun Corfforaethol a Chymunedol 2022 Sir Fynwy** | Caiff y drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol [68]ei gynhyrchu gan Gyngor Sir Fynwy: ein diben craidd yw dod yn sir ddi-garbon, yn cefnogi llesiant, iechyd ac urddas pawb ar bob cam o'u bywyd. Mae'n nodi pedwar Amcan Llesiant y Cyngor. Bydd y CDLlN yn ddull cyfannol o alluogi llesiant cymunedau Sir Fynwy a chyflawni'r amcanion hyn. |
| **Argyfwng Hinsawdd a Natur Sir Fynwy** | Datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ym mis Mai 2019. Yn fwy diweddar, ehangwyd hyn i gynnwys pwyslais cryfach ar adferiad natur i gydnabod datganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng natur a'r berthynas rhwng y ddau. Bydd y CDLlN yn darparu fframwaith polisi defnydd tir i drin yr argyfwng hinsawdd a natur gyda'i gilydd, gan geisio deilliannau sy'n cydnabod rôl ecosystemau cydnerth wrth fynd i'r afael ag allyriadau carbon a lliniaru effaith newid hinsawdd. |
| **Cynnig ar gyfer Afonydd a'r Môr (Mawrth 2022) a Chynnig ar gyfer Cynllun Gweithredu Afonydd a'r Môr (Medi 2022)** | Mae cysylltiad annatod rhwng iechyd ein hafonydd a'r môr gyda iechyd yr hinsawdd ac iechyd dynol. Mae'r cynnig yn cydnabod pryderon y Cyngor am y dirywiad yng nghyflwr yr Afon Gwy a'r Afon Wysg a'r ffynonellau lluosog o ffosffadau a llygrwyr eraill yn cynnwys y rhai sy'n tarddu i fyny'r afonydd tu allan i'r Sir, sy'n bygwth bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn tynnu ynghyd y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn llawer o wasanaethau cyngor mewn ffordd gydlynus ac yn trin meysydd lle gallai'r cyngor fod yn gwneud mwy i ddiogelu ein hafonydd a'r arfordir. |
| **Gweledigaeth Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd (Tachwedd 2019) a Phrosbectws Mewnfuddsoddi 2020: Tyfu eich Busnes yn Sir Fynwy** | Mae'r datganiad yn ystyried y math o ddyfodol mae'r Cyngor yn dymuno ei greu, yn cynnwys ystyried y newidiadau demograffig, seilwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi hyn gan ar yr un pryd sicrhau fod yr effaith ar yr amgylchedd yn gyfyngedig. Mae denu buddsoddiad a chyllid fydd yn sicrhau'r amodau cywir ar gyfer 'economi cynhwysiant' – un sy'n deg, cynaliadwy, sefydlog, cyfranogol a thyfu – yn nod allweddol. |
| **Cynllun Trafnidiaeth Leol Sir Fynwy** | Caiff Cynllun Trafnidiaeth Lleol newydd ei baratoi i gyd-fynd â'r CDLlN. Bydd yn dynodi'r materion trafnidiaeth allweddol sy'n berthnasol i'r Sir, yr ymyriadau lefel uchel sydd eu hangen i'w trin a'r blaenoriaethau penodol ar gyfer Sir Fynwy. Ei nod yw hwyluso a chefnogi datblygu system drafnidiaeth fodern, hygyrch, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfle, hyrwyddo ffyniant i bawb a gwarchod yr amgylchedd, lle mae cerdded, seiclo, trafnidiaeth gyhoeddus a chludo nwyddau mewn modd cynaliadwy yn rhoi gwir ddewisiadau amgen ar gyfer teithio |

[68] Mae drafft Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 yn nodi diben craidd, egwyddorion a blaenoriaethau'r Cyngor. Cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 19 Hydref 2022 a chaiff fersiwn wedi'i ddatblygu ei adrodd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2023.

## Atodiad 4 – Materion y CDLlN

Caiff manylion llawn eu rhoi ym Mhapur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (diweddarwyd Rhagfyr 2022)[69]. Mae'r tabl isod yn rhoi detholiad o'r materion sy'n wynebu'r Sir a sut y gall y CDLlN ddylanwadu arnynt. Cafodd y materion eu hadolygu yng ngoleuni pandemig Covid-19 a'u cymeradwyo gan y Cabinet ar 17 Mehefin 202 a'r Cyngor ar 22 Hydref 2020 fel bod yn parhau'n berthnasol. Canfuwyd fod gan nifer o faterion fwy o bwyslais a phwysigrwydd yng ngoleuni Covid-19, caiff y rhain eu dangos yn y tabl isod yn defnyddio seren wrth ymyl y prif fater a materion unigol perthnasol. Ychwanegwyd adran ychwanegol o fewn y tabl i roi mwy o fanylion ar sut y gall y CDLlN gefnogi materion o'r fath o gofio am eu pwyslais cynyddol yng ngoleuni Covid-19. Mae'r diweddariad diweddaraf yn ymwneud â mân ddiwygiadau yn unig. Cafodd y materion eu grwpio yn unol â'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau y cânt eu fframio o fewn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn galluogi gwerthfawrogiad o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gael ei sefydlu i mewn i'r Cynllun.

| Cymru lewyrchus (Nod Llesiant 1) |
|---|
| **Cyflogaeth ac Economi*** |
| **Mater** |
| **Mater 1*** - Bu'r galw yn isel am dir cyflogaeth yn y gorffennol. Fel canlyniad mae angen ystyried os yw'r tir presennol sydd ar gael mewn lleoliad addas ac yn addas i'r diben ar gyfer sectorau twf priodol. Mae hefyd angen ystyried galw posibl yn y dyfodol am dir cyflogaeth ynghyd â dymuniad y Cyngor am arloesedd ar draws Sir Fynwy yng ngoleuni'r uchelgeisiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a rhanbarth Bryste.<br>**Mater 2* -** Er bod diweithdra yn isel mae all-lif net o gymudwyr, mae lefelau cymudo allan o'r sir a'r pellter a deithir i'r gwaith ym gymharol uchel. Mae angen darparu cymorth ar gyfer mewnfuddsoddiad a thwf cyflogaeth leol/cyfleoedd i ostwng yr angen i deithio i'r gwaith.<br>**Mater 3* -** Mae lefelau cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi lleol yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae tystiolaeth yn parhau i awgrymu bod yr incwm ar gyfer menywod sy'n economaidd weithgar sy'n byw a hefyd yn gweithio o fewn y Sir yn sylweddol is nag ar gyfer dynion o fewn yr un categori. Mae hyn ynghyd â phrisiau uchel yn ei gwneud yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol. Mae angen mwy o gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc i helpu gostwng nifer y grŵp oedran hwn sy'n gadael y Sir.<br>**Mater 4* -** Mae gan Sir Fynwy economi ddeuol. Mae'r cymwysterau, sgiliau ac enillion y preswylwyr yn uwch na'r cyfartalog rhanbarthol a chenedlaethol, fodd bynnag, ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn yr ardal mae enillion y rhai sy'n gweithio yn yr ardal yn is ac mae cyflogaeth yn gymharol llai sgilgar. |

[69] Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion lynol: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/plan-preparation/issues-vision-and-objectives/

| |
|---|
| **Mater 5* -** Mae'r boblogaeth gynyddol heneiddiol a gostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith (absenoldeb cymharol pobl 20-40 oed a'n canolrif oedran o 48 mlynedd, o gymharu gydag oedran canolrif o 34 oed yng Nghaerdydd) yn cyfyngu twf cyflogaeth o fewn Sir Fynwy a chynaliadwyedd cymdeithasol cymunedau. Caiff hyn ei waethygu gan gyfleoedd gwaith cyfyngedig ac argaeledd tai fforddiadwy.<br>**Mater 6* -** Mae angen cynnal ac adfywio economi gwledig y Sir. Mae ansicrwydd ar hyn o bryd am effaith Brexit ar gymorthdaliadau amaethyddol.<br>**Mater 7* -** Mae lefelau uwch o'r rhai sydd mewn cyflogaeth yn gweithio gartref o gymharu â chyfartaledd Cymru (Cyfrifiad 2011). Mae seilwaith digidol effeithiol yn hanfodol i gefnogi gweithio gartref a chysylltedd cyffredinol ardaloedd gwledig y Sir ac i gefnogi twf economaidd[70].<br>**Mater 8* -** Mae rôl y stryd fawr yn newid oherwydd manwerthu allan o'r dref tebyg i Cribbs Causeway, y cynnydd mewn siopa rhyngrwyd, newid mewn arferion siopa (e.e. siopa groser topio-lan), llymder, ardrethi busnes a'r argyfwng costau byw. Fel canlyniad, mae cyfraddau lleoedd gwag yn rhai o ganol trefi y Sir wedi cynyddu. Mae gwariant gadael y Sir ac mae angen diogelu ac adfer bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a chanolfannau lleol y Sir.<br>**Mater 9* -** Mae gan dwristiaeth ran sylweddol yn economi Sir Fynwy yn neilltuol wrth gynorthwyo gydag arallgyfeirio'r economi gwledig ac wrth gynnal canol trefi hanesyddol y Sir. Yn 2019 daeth 2.28 miliwn o ymwelwyr i Sir Fynwy, gan gael cyfanswm effaith economaidd o £244 miliwn. Mae ymwelwyr sy'n aros yn ysgogi effaith economaidd uwch nac ymwelwyr dydd ar £185 miliwn o gymharu â £59 miliwn yn 2019 (Adroddiad STEAM Sir Fynwy 2019) yn amlygu'r angen parhaus ar gyfer llety ymwelwyr. Mae pandemig Covid-19 wedi rhoi cyfle i hyrwyddo pobl sy'n aros o fewn Prydain ar gyfer eu gwyliau. |
| **Sut y gall y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **A(i)** Gall y CDLlN annog economi bywiog o fewn y Sir, yn benodol drwy sicrhau fod safleoedd cyflogaeth deithiol mewn lleoliad addas mewn mannau deniadol, hygyrch a chynaliadwy a'u bod o faint a math priodol i ddiwallu anghenion y farchnad/cyflogaeth allweddol/sectorau twf, yn cynnwys drwy gefnogi busnesau newydd a thwf i helpu arallgyfeirio'r economi.<br>**A(ii)** Gall y CDLlN anelu i sicrhau fod portffolio o safleoedd ar gael sy'n addas ar gyfer cyflwr y farchnad ac anghenion economi Sir Fynwy ynghyd â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach. Gellir hefyd roi ystyriaeth i ddefnyddio gorchmynion pwrcasu gorfodol i sicrhau safleoedd sy'n dod ymlaen.<br>**A(iii)**Lle'n bosibl, gall y CDLlN sicrhau, lle bynnag sy'n bosibl, fod swyddi a chartrefi wedi eu lleoli yn agos at ei gilydd i roi mwy o gyfle i bobl fyw a gweithio yn lleol. Gall y CDLlN hefyd sicrhau fod amrywiaeth a dewis cartrefi ar gael, mewn datblygiadau newydd, yn neilltuol lle mae angen tai fforddiadwy  i gynorthwyo wrth adennill poblogaeth gytbwys. |

[70] Mae dadansoddiad sefyllfaol cyfredol gorchudd Mynediad Cenhedlaeth Nesaf (NGA) Band Eang Uwch Gyflym ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn seiliedig ar yr OMR/SAPC a gynhaliwyd cyn Caffael Cyflymu Cymru Cam 2 (SFC2) yn rhoi darllun llwm o ran diffyg gwasanaeth yn Sir Fynwy ar hyn o bryd o gymharu â'r naw Awdurdod Lleol arall sy'n bartneriaid i ni – ar hyn o bryd – NID yw 12.56% o safleoedd yn Sir Fynwy ar hyn o bryd yn cael gwasanaeth o gymharu â 3-4% yn y naw Adurdod Lleol arall o fewn y rhanbarth.

| |
|---|
| **A(iv)** Mae angen i'r CDLlN gymryd rôl wrth gryfhau'r economi lleol, gan sicrhau sylfaen economaidd addas i alluogi pobl i fyw a gweithio yn y Sir.<br>**A(v)** Gall CDLlN gynnwys polisïau sy'n cefnogi arallgyfeirio'r economi gwledig.<br>**A(vi)** Gall y CDLlN helpu i drin allgau digidol drwy geisio cefnogi gwella bandeang gwledig a darparu cysylltiadau cyflym iawn.<br>**A(vii)** Mae'n rhaid i'r CDLlN gynnwys polisïau sy'n gwarchod bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi presennol, gan ddarparu cyfleoedd manwerthu ychwanegol lle'n briodol, yn cynnwys yng nghyswllt adfywio Cil-y-coed a Brynbuga, a sicrhau fod dosbarthiad datblygu yn cefnogi'r prif ganolfannau hyn er mwyn cadw gwariant manwerthu.<br>**A(viii)** Bydd y CDLlN yn galluogi adolygiad o brif ffryntiadau siopa trefi a pholisïau cysylltiedig i roi ystyriaeth i rôl sy'n esblygu ar gyfer y stryd fawr fel canolfan ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, hamdden a chymunedol. Gall datblygu mewn lleoliad cynaliadwy a gyda chysylltiadau da gefnogi canol trefi.<br>**A(ix)** Gall y CDLlN gynnwys polisïau datblygu twristiaeth ac ar yr un pryd yn sicrhau y caiff y dreftadaeth naturiol ac adeiledig sy'n denu ymwelwyr i'r ardal yn cael ei gadw a'i wella. |
| **Sut y gall y CDLlN gefnogi'r materion hyn o gofio am y pwyslais cynyddol yng ngoleuni Covid 19?** |
| Bydd y CDLlN yn rhoi fframwaith polisi cynllunio cadarnhaol i gefnogi a galluogi twf economaidd cynaliadwy, yng nghyswllt ein stryd fawr a sector twristiaeth, dros gyfnod y Cynllun, gan wneud ein trefi yn fannau diogel i breswylwyr ac ymwelwyr i dreulio amser ac arian. |
| **Cymru gydnerth (Nod Llesiant 2)** |
| **Aer** |
| **Mater** |
| **Mater 10 –** Er nad yw llygredd aer yn broblem fawr ledled Sir Fynwy, gall achosi problemau sylweddol i iechyd pobl ac mae problemau lleol yng Nghas-gwent a Brynbuga, ac mae gan y naill a'r llall Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Caiff y problemau mwyaf sy'n gysylltiedig gydag ansawdd yn y Sir eu hachosi gan allyriadau cerbydau. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **B(i)** Gall y CDLlN geisio lleihau unrhyw effeithiau llygru a allai godi o ddatblygiadau newydd yn y Sir drwy sicrhau y caiff ei leoli'n gynaliadwy a'i fod wedi cysylltu'n dda gydag amwynderau. Gall hyn gefnogi newid mewn dulliau trafnidiaeth i ostwng y defnydd o gerbydau preifat ac i ganiatáu mwy o gerdded, seiclo a defnydd trafnidiaeth gyhoeddus. Gall hefyd gymryd mesurau i sicrhau nad yw lleoliad datblygiad newydd yn gwaethygu amodau mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer presennol fel canlyniad i rai newydd. Gall gefnogi darpariaeth seilwaith gwefru cerbydau isel iawn. |
| **Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirlun*** |

| Mater |
|---|
| **Mater 11* -** Mae Sir Fynwy yn enwog am ei thirweddau hardd ac adnoddau bioamrywiaeth sylweddol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol. Dylai'r goreuon o'r asedau hyn gael eu gwarchod, eu rheoli a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br>**Mater 11* -** Mae angen gwella cysylltedd o fewn y tirwedd drwy hyrwyddo a gwella rhwydweithiau a choridorau bywyd gwyllt presennol, yn cynnwys seilwaith gwyrdd a hefyd seilwaith glas, a chreu cysylltiadau newydd i alluogi rhywogaethau i symud ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Mae Seilwaith Gwyrdd hefyd yn fuddiol i lesiant dynol. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **C(i)** Dylai'r CDLlN sicrhau fod datblygiad newydd yn gynaliadwy, nad yw'n achosi niwed i safleoedd a rhywogaethau a gaiff eu gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol a lleol a, lle'n briodol, gymryd mesurau lliniaru angenrheidiol i osgoi unrhyw effeithiau niweidiol o'r fath. Mae cyrff dŵr yr Afon Gwy a'r Afon Wysg o fewn y Sir yn profi problemau gydag ansawdd dŵr ar hyn o bryd, yn benodol yng nghyswllt lefel ffosffadau. Nid oes unrhyw ddatrysiad strategol wedi ei ddynodi ar gyfer lliniaru ffosffadau yn nalgylch uchaf yr Afon Gwy yn Nhrefynwy ar hyn o bryd. Heb ddatrysiad strategol wedi ei ddynodi, ni fedrir cynnwys dyraniadau safle newydd yn y CDLlN ar ddalgylch uchaf yr Afon Gwy. Mae'n rhaid i'r CDLlN hefyd sicrhau nad yw datblygiad yn nalgylch yr Afon Gwy yn cyfrannu at na'n cynyddu lefelau ffosffadau.<br>**C(ii)** Mae'n rhaid i'r CDLlN sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei ystyried yn unrhyw ddatblygiad er mwyn diogelu unrhyw fuddiant ar y safle ac annog gwelliannau bioamrywiaeth.<br>**C(iii)** Bydd angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r CDLlN i sicrhau nad yw unrhyw effeithiau cronnus ar ddatblygiad yn Sir Fynwy ac ardaloedd cyfagos yn arwain at niwed i safleoedd cadwraeth natur gyda dynodiad rhyngwladol.<br>**C(iv)** Gall y CDLlN gynnwys polisïau i warchod a gwella'r rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a glas ar draws y Sir. |
| **Sut y gall y CDLlN gefnogi'r materion hyn o gofio am y pwyslais cynyddol oherwydd Covid-19?** |
| Bydd y CDLlN yn rhoi fframwaith polisi cynllunio cadarnhaol a galluogi creu lleoedd a darparu mannau agored/gwyrdd sy'n hygyrch yn lleol a gwarchod/gwella ein hamgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. |
| **Llifogydd** |
| **Mater** |
| **Mater 13 –** Mae rhannau o'r Sir yn fregus i lifogydd. Mae newid hinsawdd yn debygol o gynyddu risg llifogydd, felly mae'n hanfodol lliniaru newid hinsawdd a sicrhau bod adeiladau yn gadarn. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **D(i)** Mae'n rhaid i'r CDLlN sicrhau y caiff datblygiadau newydd eu lleoli i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd ac mae ganddo rôl wrth ostwng y risgiau o risg llifogydd presennol, yn ogystal ag yng nghyswllt addasu i newid hinsawdd a chydnerthedd. Mae darparu mannau agored gwyrdd a nodweddion draeniad SUDs yn helpu i ostwng risg llifogydd. |
| **Mwynau a Gwastraff** |

| |
|---|
| **Mater** |
| **Mater 14 –** Mae Sir Fynwy wedi gwneud cynnydd da wrth hyrwyddo ailgylchu a chompostio gwastraff a dileu gwastraff i domennydd llanw. Mae hefyd angen i Sir Fynwy wneud cyfraniad priodol i'r gofyniad rhanbarthol am reolaeth gwastraff.<br>**Mater 15 –** Ròl gyfyngedig sydd gan echdynnu mwynau yn economi Sir Fynwy ond mae angen diogelu adnoddau'r Sir er mwyn gwneud cyfraniad priodol i gyflenwad cynaliadwy agregau i economi De Cymru gyfan. |
| **Sut gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **E(i)** Gall y CDLlN ddynodi safleoedd sy'n addas ar gyfer rheoli gwastraff neu gyfleusterau gwaredu i ddiwallu gofynion lleol neu ranbarthol.<br>**E(ii)** Gall y CDLlN sicrhau y caiff adnoddau mwynau eu diogelu a'u hecsbloetio mewn dull cynaliadwy sydd hefyd yn galluogi Sir Fynwy i gyflawni ei dyletswydd i wneud cyfraniad i ofynion rhanbarth De Cymru. |
| **Tir** |
| **Mater** |
| **Mater 16 –** Cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gyfer datblygiadau tir llwyd o fewn ardaloedd trefol presennol y Sir.<br>**Mater 17 –** Mae gan Sir Fynwy ganran sylweddol uchel o dir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas (h.y. Gradd 1, 2 neu 3a). Tra bod angen cadw'r adnoddau hyn, cyfleoedd cyfyngedig sydd o fewn y Sir ar gyfer datblygiad tir llwyd a datblygiad ar raddau is o dir amaethyddol (h.y. Gradd 3b, 4 a 5). Mae gan eglurhad diweddar Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau polisi o ddiogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas dros ddatblygiadau ynni adnewyddadwy oblygiadau ar gyfer canfyddiadau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy ac ar gyfer gofynion Cyngor Sir Fynwy i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **F(i)** Bydd y CDLlN yn anelu i flaenoriaethu defnydd tir a ddatblygwyd yn flaenorol lle mae cyfleoedd yn codi.<br>**F(ii)** Dylai'r CDLlN geisio diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg ac ar yr un pryd gydnabod na fydd hyn yn bosibl bob amser lle mae angen trech am ddatblygu. |
| **Cymru iachach (Nod Llesiant 3)** |
| **Iechyd Dynol*** |
| **Mater** |
| **Mater 18* -** Er bod Sir Fynwy yn gwneud yn gymharol dda ar ddangosyddion yn ymwneud ag iechyd, mae angen hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer byw'n iach yn neilltuol yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio.<br>**Mater 19* -** Er fod poblogaeth heneiddiol yn dod â llawer o gyfleoedd, mae hefyd yn dod â heriau a gall cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor greu pwysau ar ddarpariaeth gofal iechyd bresennol. |

| |
|---|
| **Mater 20* -** Ar y cyfan mae gan breswylwyr Sir Fynwy fynediad da i fannau agored i'r cyhoedd, fodd bynnag mae diffygion yn llawer o gymunedau'r Sir yng nghyswllt cyfleusterau cymunedol a hamdden. Gall hyn gyfrannu at ynysigrwydd gwledig mewn rhai ardaloedd.<br>**Mater 21* -** Mae gordewdra yn broblem gynyddol ledled Cymru. Er bod cyfraddau gordewdra yn Sir Fynwy yn is na chyfartaledd Cymru dylid rhoi ystyriaeth i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **G(i)** Gall y CDLlN gynorthwyo wrth greu Sir Fynwy iachach drwy sicrhau fod polisïau digonol yn eu lle i gefnogi darparu seilwaith glas a gwyrdd a/neu wella yr adnodd presennol.<br>**G(ii)** Gall y CDLlN ddarparu polisïau i sicrhau y cefnogir darpariaeth gofal iechyd.<br>**G(iii)** Gall y CDLlN effeithio ar ddarpariaeth mannau agored i'r cyhoedd a hamdden drwy warchod, lle bo angen, y mannau gwyrdd a chyfleusterau presennol yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gyfrannu at ddarparu cyfleusterau ychwanegol. |
| **Sut y gall y CDLlN gefnogi'r materion hyn o gofio am y pwyslais cynyddol oherwydd Covid-19?** |
| Bydd y CDLlN yn rhoi fframwaith polisi cynllunio cadarnhaol i gefnogi a galluogi creu lleoedd a darparu mannau agored/gwyrdd sy'n hygyrch yn lleol, darpariaeth hamdden a gofal iechyd a gwarchod/gwella ein hamgylchedd naturiol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal (Nod Llesiantl 4)** |
| **Poblogaeth*** |
| **Mater** |
| **Mater 22* -** Mae Sir Fynwy yn sir wledig gan fwyaf gyda bron hanner (47%) yr holl boblogaeth yn byw mewn wardiau a ddiffinnir fel rhai gwledig (h.y. gyda phoblogaeth o lai na 10,000).<br>**Mater 23* -** Bu cynnydd cyson ym mhoblogaeth Sir Fynwy dros gyfnod o ddeg mlynedd hyd 2011, er bod y gyfradd twf wedi arafu yn fwy diweddar. Caiff y twf hwn ei borthi gan fewnfudo.<br>**Mater 24* -** Mae gan Sir Fynwy gyfran sylweddol uwch o grwpiau oedran hŷn (65+) a chyfran is o oedolion ifanc (16-44) o gymharu gyda chyfartaledd Cymru, a bu'r gostyngiad mwyaf yn y boblogaeth oedran gwaith. Caiff absenoldeb cymharol oedolion ifanc hwn ei gysylltu yn aml gyda fforddiadwyedd tai ar draws y Sir ac mae'n cael effaith ar ragolygon twf economaidd ar gyfer y dyfodol. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **H(i)** Mae'n rhaid i'r CDLlN benderfynu ar lefel y twf sy'n briodol ar gyfer Sir Fynwy a dosbarthiad gofodol y twf hwn rhwng gwahanol gymunedau trefol a gwledig i drin yr heriau a wynebwn (yn cynnwys demograffeg a fforddiadwyedd), gan gydbwyso mwy o gynaliadwyedd aneddiadau trefol gydag anawsterau cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.<br>**H(ii)** Mae angen sicrhau strwythur poblogaeth fwy cytbwys i sicrhau fod poblogaeth ddigonol o bobl oedran gwaith i gefnogi economi Sir Fynwy a darparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc aros yn yr ardal a hefyd i symud iddi. Oherwydd bod poblogaeth y Sir yn gostwng oherwydd bod mwy o farwolaethau na genedigaethau, mewn mewnfudiad yn hanfodol i sicrhau fod cymunedau yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd. |

Mae angen i'r CDLlN fod â rôl wrth gryfhau'r economi lleol, gan sicrhau sylfaen economaidd priodol i alluogi pobl i fyw a gweithio yn y Sir a sicrhau y caiff y galw am gartrefi ei fodloni drwy ddarparu cartrefi fforddiadwy ac ansawdd da ar gyfer y rhai sydd eu hangen.

**H(iii)** Gall y CDLlN helpu i drin materion yn ymwneud â phoblogaeth sy'n heneiddio drwy hwyluso darparu gwasanaethau hygyrch a gefnogir gan seilwaith cysylltedd i ddiwallu anghenion twf y boblogaeth leol.

**Sut y gall y CDLlN gefnogi'r materion hyn o gofio am y pwyslais cynyddol oherwydd Covid-19?**

Bydd lefelau twf y CDLlN yn sicrhau newid demograffig cadarnhaol dros gyfnod y Cynllun sy'n hanfodol i gefnogi a galluogi darpariaeth cymunedau cytbwys ledled y Sir.

**Cymru o gymunedau cydlynus (Nod 5)**

**Tai***

**Mater**

**Mater 25* -** Mae prisiau tai cyfartalog yn y Sir yn uchel ar £398,859 o gymharu â chyfartaledd Cymru o £236,439 (Hometrack, Tachwedd 2022)[71]. Bu'r cynnydd mwyaf sylweddol mewn blynyddoedd diweddar. Mae angen ystyried yr effaith bosibl ar brisiau tai yn deillio o ddileu tollau Pont Hafren yn 2018, yr uchelgeisiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda Bargen Ddinesig Prifddinas Caerdydd a Metro De Ddwyrain Cymru, ynghyd â thwf economaidd Bryste/De Orllewin Lloegr a'r cyfleoedd ar gyfer Sir Fynwy fel sir ar y gororau a'i lleoliad rhwng Bryste a Chasnewydd a Chaerdydd, dinasoedd y 'Great Western'.

**Mater 26* -** Mae prisiau tai hefyd yn uchel yng nghyswllt enillion ac mae angen mawr am dai fforddiadwy ychwanegol mewn ardaloedd trefol a hefyd ardaloedd gwledig yn y Sir i sicrhau poblogaeth gytbwys.

**Mater 27* -** Mae angen ystod a dewis o dai i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a hefyd ddenu a chadw'r grwpiau oedran iau.

**Mater 28* -** Cwmpas cyfyngedig sydd ar gyfer ehangiad sylweddol neu hirdymor yn ardaloedd trefol presennol y Sir oherwydd cyfuniad o gyfyngiadau ffisegol, amgylcheddol a pholisi.

**Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?**

**I(i)** Bydd y CDLlN yn effeithio ar nifer y tai a gaiff eu darparu drwy benderfynu ar lefelau cyffredinol opsiynau twf/gofodol a drwy osod trothwyon a chyfrannau i benderfynu faint o'r datblygiad fforddiadwy hyn sy'n fforddiadwy. Gall hefyd sicrhau bod ystod a dewis o gartrefi ar gael mewn datblygiadau a dylanwadu ar fath, daliadaeth a natur tai a gaiff eu hadeiladu o fewn y Sir.

**I(ii)** Bydd yn rhaid i'r CDLlN ddatrys faint o dai a gaiff eu hadeiladu mewn ardaloedd gwledig, gan gydbwyso'r angen i gynnal aneddiadau gwledig drwy gefnogi gwasanaethau a galluogi pobl i aros yn eu cymunedau gyda'r angen i warchod cefn gwlad a sicrhau patrymau cynaliadwy o ddatblygu.

---

[71] Seiliedig ar werthiant a phrisiadau dros gyfnod chwe mis Mawrth 2022 – Awst 2022. Roedd gwerthiannau yn unig dros yr un cyfnod yn cyfeirio at £351,643 ar gyfer Sir Fynwy a £224,101 ar gyfer Cymru. Cyrchwyd data ar 02/11/2022.

| |
|---|
| **I(iii)** Gall y CDLlN ddarparu tai fforddiadwy y mae angen brys amdanynt o fewn lleoedd enghreifftiol, cymysg, cynaliadwy a gyda chysylltiadau da. |
| **Sut y gall y CDLlN gefnogi'r materion hyn o gofio am y pwyslais cynyddol oherwydd Covid 19?** |
| Bydd y CDLlN yn sicrhau/galluogi ystod a dewis o gartrefi (cymysgedd tai) mewn datblygiadau tai'r dyfodol i drin materion fforddiadwyedd ac adeiladu cymunedau cynaliadwy a chryf. Mae'r Strategaeth a Ffefrir y caniatáu lefel o dwf a safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy; mae hyn yn parhau'n hollbwysig i drin y materion a'r amcanion. Gall dwysedd datblygiad gefnogi creu lleoedd a sicrhau y caiff mannau gwyrdd agored eu cynnwys, er budd llesiant. |
| **Seilwaith*** |
| **Mater** |
| **Mater 29* -** Mynediad gwael i gyfleusterau cymunedol a gostyngiad mewn darpariaeth gwasanaethau lleol yn fater neilltuol ar gyfer cymunedau gwledig<br>**Mater 30* -** Mae trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, yn ei gwneud yn galetach i gyrraedd swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau, a gallai'r cynnydd mewn prisiau tanwydd waethygu hynny. Serch hynny mae cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus drwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a datblygiadau mewn technoleg.<br>**Mater 31* -** Mae angen sicrhau y darperir seilwaith ffisegol, digidol a chymdeithasol digonol i gefnogi datblygu newydd. Mae hyn yn cynnwys: seilwaith band eang, darparu seilwaith dŵr a charthffosiaeth digonol, seilwaith trafnidiaeth a teithio lleol i gefnogi dulliau heblaw car o deithio. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **J(i)** Gall y CDLlN ystyried dyrannu tir ar gyfer tai a chyflogaeth mewn ardal wledig mewn ymgais i gynnal cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol gwledig presennol, gan bwyso a mesur hyn yn erbyn yr angen i osgoi patrymau teithio anghynaliadwy.<br>**J(ii)** Gall y CDLlN helpu i sicrhau darpariaeth seilwaith digonol i wasanaethu datblygu newydd a gall gynnwys polisïau cefnogi i alluogi gwelliannau ar gyfer datblygiadau presennol e.e. darparu mannau gwefru cerbydau trydan, cysylltedd band eang ac ynni adnewyddadwy.<br>**J(iii)** Bydd y CDLlN yn cynnwys dyraniadau a pholisïau i gefnogi'r cynllun trafnidiaeth lleol a'r strategaeth seiclo sy'n cael eu datblygu. |
| **Sut y gall y CDLlN gefnogi'r materion hyn o gofio am y pwyslais cynyddol yng ngoleuni Covid-19?** |
| Bydd y CDLlN yn sicrhau fod darpariaeth seilwaith digidol a gwefru yn ei le neu y gellir ei ddarparu i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd ac yn cefnogi cyfleoedd teithio llesol. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (Nos Llesiant 6)** |
| **Treftadaeth Ddiwylliannol** |

| Mater |
|---|
| **Mater 32 –** Mae gan Sir Fynwy adnodd treftadaeth adeiledig sylweddol yn nhermau henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi hanesyddol ac ardaloedd archeolegol sensitif sydd, ynghyd â'u lleoliadau, angen eu gwarchod a'u gwella.<br>**Mater 33 –** Mae angen gwarchod, hyrwyddo a gwella ein tirweddau a'n treftadaeth gorau sy'n rhan bwysig o'n diwylliant ac sydd â rôl sylweddol mewn twristiaeth a thwf economaidd, ynghyd â rhoi cefnogaeth i'r Gymraeg i sicrhau y caiff ei diogelu a'u chefnogi.<br>**Mater 34 –** Mae patrwm aneddiadau neilltuol Sir Fynwy yn ymwneud â threfi a phentrefi hanesyddol a'u perthynas gyda'r ardaloedd gwledig o amgylch. Serch hynny bu ehangiad maestrefol sylweddol yn ne'r sir, yn arbennig yn ymyl coridor yr M4. Mae'n debyg y bydd yr ardal hon yn achosi mwy o bwysau am dwf oherwydd dileu tollau Pont Hafren yn 2018 a'r uchelgeisiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd a Metro De Ddwyrain Cymru, ynghyd â thwf economaidd rhanbarth Bryste/De Orllewin Lloegr a'r cyfleoedd ar gyfer Sir Fynwy fel sir ar y gororau a'i lleoliad rhwng Bryste a Chasnewydd a Chaerdydd, dinasoedd y 'Great Western'. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **K(i)** Gall y CDLlN gynnwys mesurau i gadw a chyfoethogi'r dreftadaeth adeiledig ac amgylchedd hanesyddol gorau Sir Fynwy.<br>**K(ii)** Gall y CDLlN helpu i warchod, hyrwyddo a chyfoethogi ein tirwedd gorau a'n treftadaeth sy'n rhan bwysig o'n diwylliant a bod â rôl allweddol mewn twristiaeth a thwf economaidd, ynghyd â darparu cefnogaeth i'r Gymraeg i sicrhau y caiff ei diogelu a'i chefnogi.<br>**K(iii)** Mae ymgyfraniad y gymuned yn rhoi cyfle i geisio sylwadau ar sut y mae'r iaith Gymraeg a diwylliant yn rhyngweithio gyda pholisïau a chynigion y CDLlN. Mae dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar ystod o ffactorau tu hwnt i'r system cynllunio, yn arbennig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd cadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy llewyrchus. Gall y system cynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol drwy greu amodau ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth ar gyflog da ac amrywiaeth o opsiynau tai ansawdd uchel yn arwain at gymunedau cynaliadwy. Ni ddylai polisi cynllunio geisio rheoli defnydd tai ar seiliau ieithyddol.[72].<br>**K(iv)** Gall y CDLlN fod â rôl allweddol mewn hyrwyddo dylunio cynaliadwy ansawdd da fydd yn galluogi datblygu newydd a thwf yn y dyfodol i barchu a chyfoethogi cymeriad neilltuol presennol Sir Fynwy. |
| **Tirlun** |
| **Mater** |
| **Mater 35 –** Mae gan Sir Fynwy dirlun cyfoethog ac amrywiol sy'n dod â buddion ehangach i'r economi lleol yn neilltuol drwy dwristiaeth ac iechyd a llesiant. Mae Sir Fynwy drwyddi draw yn cynnwys rhannau o Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Diwydiannol Blaenafon. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |

[72] Nodyn Cyngor Technegol 20 paragraffau 1.7.3, 2.2 a 2.6.4

| |
|---|
| **L(i)** Mae'n rhaid i'r CDLlN geisio gwarchod tirweddau ansawdd uchel ledled y Sir, gan roi sylw neilltuol i'r rhai sydd yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, Safle Treftadaeth Byd Blaenafon ac ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang (Nod Llesiant 7)** |
| **Ffactorau Hinsawdd*** |
| **Mater** |
| **Mater 36* -** Mae maint y traffig yn y Sir wedi parhau i gynyddu, i fyny gan 19% yn y naw mlynedd i 2019 (StatsCymru, Ebrill 2019). Mae patrwm o bellteroedd teithio i'r gwaith cymharol hir, lefelau uchel o berchnogaeth ceir a dibyniaeth ar geir preifat.<br>**Mater 37* -** Fel arfer caiff cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fach ac ar draws yr awdurdod lleol eu cefnogi ar draws Sir Fynwy, fodd bynnag dyllid bod yn fwy rhagweithiol ar gyfer cynlluniau o faint awdurdod lleol (h.y. 5MW - 25MW).<br>**Mater 38* -** Gall natur wledig Sir Fynwy a'i thrafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig, lefelau uchel o berchnogaeth ceir a'r ddibyniaeth ddilynol ar y car preifat, ynghyd â defnydd ynni uchel a rheoli gwastraff i gyd gyfrannu at allyriadau carbon. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod ein bod mewn argyfwng hinsawdd a natur ac mae wedi ymrwymo i geisio cyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5$^{o}$C. |
| **Sut y gall y CDLlN ddylanwadu ar y materion hyn?** |
| **M(i)** Mae pryderon am newid hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol i wneud ymdrechion i ostwng dibyniaeth ar y car preifat ac effaith dilynol allyriadau carbon deuocsid. Mae angen i'r CDLlN ystyried patrymau priodol o ddatblygu sy'n hyrwyddo system trafnidiaeth ddiogel, effeithol, hygyrch a chynaliadwy sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer cerdded a seiclo ac sy'n annog teithio llesol er mwyn cefnogi gostwng carbon. Bydd y CDLlN yn rhoi cyfuniad o ddyraniadau cyflogaeth a thai gyda'r nod o ostwng yr angen i deithio, gan gydnabod fodd bynnag fod rhesymau cymhleth pam fod pobl yn byw lle maent.<br>**M(ii)** Mae asesiad ynni adnewyddadwy yn mynd rhagddo i ddynodi ardaloedd posibl ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy awdurdod lleol a strategol.<br>**M(iii)** Bydd y CDLlN yn ystyried ffyrdd i gefnogi gostwng carbon drwy amrywiaeth o fesurau yn cynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy, dyluniad a lleoliad datblygiadau newydd, annog twf cytbwys mewn swyddi a thwf poblogaeth i ostwng all-gymudo, darparu cysylltedd band eang i ostwng yr angen i deithio, darparu seilwaith gwefru cerbydau allyriad isel iawn i ostwng allyriadau a gwella ansawdd aer a darparu Seilwaith Gwyrdd ansawdd uchel. Caiff cynigion eu hystyried o gymharu â'n hymrwymiad i ymdrechu i gyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5$^{o}$C. |
| **Sut y gall y CDLlN gefnogi'r materion hyn o gofio am y pwyslais cynyddol oherwydd Covid-19?** |
| Bydd fframwaith polisi y CDLlN yn cefnogi a galluogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rhoi cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a datrysiadau trafnidiaeth cynaliadwy. |

* *yn dangos fod gan y Mater fwy o bwyslais a phwysigrwydd oherwydd Covid-19.*

## Atodiad 5: Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir

A.5.1 Mae Polisi Strategol S7 yn dynodi Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir ar gyfer Prif Aneddiadau y Fenni (yn cynnwys Llan-ffwyst), Cas-gwent a Chil-y-coed (yn cynnwys ardal Glannau Hafren sef: Caerwent, Crug, Magwyr, Gwndy, Porthysgewin, Rogiet a Sudbrook). Cafodd y Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir eu dewis o gyfanswm o 13 Opsiwn Twf Strategol sydd wedi eu lleoli ar draws y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy a Glannau Hafren yr ymgynghorwyd arnynt yn flaenorol yn Strategaeth a Ffefrir 2021. Cafodd dewis safleoedd ei lywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ar Strategaeth a Ffefrir 2021.

A.5.2 Fel rhan o'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2021, cafodd dewisiadau eu mynegi gan aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio 'Placecheck'. Er yr eglurwyd bryd hynny nad oedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol, mae'r canlyniadau yn rhoi arwydd defnyddiol o'r farn gyhoeddus. Cafodd cyfanswm o 3,179 dewis eu gwneud yn y broses. Mae Tabl 6 isod yn rhoi manylion pellach. Amlygir y tri Dyraniad Safle Strategol a Ffefrir a ddynodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir newydd.

**Tabl 6: Dewisiadau ar Opsiynau Safleoedd Strategol adeg ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir 2021**

| Ardal Twf Strategol | | Pleidlais Lan | Pleidlais Lawr |
|---|---|---|---|
| Y Fenni A | Tir i'r gogledd o'r Fenni | 54 | 184 |
| Y Fenni B | Tir i'r dwyrain o'r A465 | 191 | 23 |
| Y Fenni C | Tir rhwng y B4246 | 107 | 47 |
| Cas-gwent D | Tir i ogledd Stad Bayfield | 51 | 132 |
| Cas-gwent E | Tir rhwng Stad Bayfield a'r A48 | 43 | 143 |
| Cas-gwent F | Tir rhwng yr A48 a'r M48 | 60 | 143 |
| Trefynwy G | Tir i'r gorllewin o Drefynwy | 270 | 175 |
| Trefynwy H | Tir yng nghanol Trefynwy | 255 | 189 |
| Trefynwy I | Tir i'r gogledd ddwyrain o Drefynwy | 318 | 248 |
| Glannau Hafren J | Tir i'r gogledd ddwyrain o Gil-y-coed | 74 | 72 |
| Glannau Hafren K | Tir i'r gogledd orllewin o Gil-y-coed | 48 | 85 |
| Glannau Hafren L | Tir i'r gorllewin o Gil-y-coed/dwyrain Rogiet | 57 | 100 |
| Glannau Hafren M | Tir i'r dwyrain o Gaerwent | 59 | 51 |

A.5.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tanlinellu pwysigrwydd ailddefnyddio safleoedd tir llwyd, fodd bynnag cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gyfer datblygiad pellach sylweddol ar dir llwyd yn Sir Fynwy. Yr amcan yw sicrhau estyniadau trefol mewn lleoliad cynaliadwy gyda chysylltiadau da i ganol trefi a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y CDLlN yn anelu i ddyrannu'r safleoedd hynny gyda'r cysylltiadau gorau, sy'n fwyaf cynaliadwy, yn cyflwyno creu lleoedd yn y modd gorau ac sy'n lleiaf niweidiol, fydd angen ystyriaeth gytbwys a bargeinio ar y cam Cynllun Adnau. Cymerwyd yr un dull gweithredu wrth ddynodi Dyraniadau Safleoedd Strategol a Ffefrir ar gyfer pob prif anheddiad..

### Ystyriaeth i'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Aml-bwrpas

A.5.4 Mae angen diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas Sir Fynwy. Mae paragraffau 3.38 a 3.59 PCC 11 yn dweud yn glir *"...tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol.* Dywed PCC11 ymhellach mewn cynlluniau datblygu: "... *dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o'r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir o raddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad at y tir o'r radd isaf .'*

A.5.5 Mae Sir Fynwy yn sir wledig gan fwyaf ac un o'r materion allweddol a ddynodwyd (Mater 17) yw: "... bod cyfran sylweddol uchel o dir amaethyddol gorau a mwyaf aml-bwrpas gyda chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygu tir llwyd'. Fodd bynnag mae llawer o ardaloedd o ansawdd amaethyddol is yn orlifdir ac felly cânt eu diystyru am y rheswm hwnnw. Felly dylai CDLlN Sir Fynwy amlinellu dull i ddiogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas a lleihau ei golled cyn belled ag sy'n bosibl drwy ei strategaeth twf a gofodol ond gan gydnabod fod hynny'n annhebyg o fod yn bosibl ym mhob achos.

A.5.6 Cynhaliwyd dull dilyniannol i asesu colled tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, fel y nodir gan PCC11, wrth asesu pob safle ymgeisiol. Fodd bynnag rhagwelir, oherwydd y swm sylweddol o dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ledled Sir Fynwy, y bydd yn anodd rhoi'r prawf dilyniannol hwn ar waith. Ymhellach, ar y cam hwn mae graddau dangosol tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas wedi eu seilio yn bennaf ar y map dangosol lefel uchel ac felly'n debygol o gael ei newid yn dilyn arolygon manwl. Y nod ar y cychwyn cyntaf serch hynny fydd diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas graddau uchaf ac osgoi a/neu leihau ei golli. Dilynwyd y dull gweithredu pragmatig dilynol hyd yma:

- Asesiad bwrdd gwaith yn defnyddio Map Dangosol Dosbarthiad Tir Amaethyddol Cymru (Fersiwn 2 2019), mae hyn yn rhoi trosolwg byr o'r dosbarthiad ar gyfer ardal neilltuol; fodd bynnag, nid yw yn asesiad safle manwl.
- Roedd ffurflen yr Ail Alwad am Safleoedd yn cynnwys cwestiwn penodol ar ddosbarthiad tir amaethyddol er mwyn casglu gwybodaeth am ansawdd, a cholled bosibl, tir amaethyddol yn uniongyrchol gan hyrwyddwyr safle.
- Darparwyd arolygon maes manwl o ddosbarthiad tir amaethyddol ar gyfer y mwyafrif o safleoedd ond bydd angen mwy o wybodaeth ar gyfer unrhyw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLlN Adnau er mwyn canfod yn union beth yw'r ddosbarthiad tir amaethyddol ac ansawdd y tir.
- Ymgynghorwyd gyda rhanddeiliaid/ymgyngoreion perthnasol yn cynnwys Uned Defnydd Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru.

A.5.7 Mae'n bwysig nodi fod yn rhaid cydbwyso diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas gydag ystyriaethau eraill. Er enghraifft, fel arfer mae tir amaethyddol ansawdd is mewn gorlifdiroedd, ond ni fedrir datblygu'r ardaloedd hyn am resymau polisi eraill. Mae'n rhaid hefyd ystyried agosatrwydd at amwynderau a seilwaith, effaith ar y tirlun, ecoleg ac os y medrir cyflawni safleoedd.

A.5.8 Caiff Papur Cefndir Dosbarthiad Tir Amaethyddol ei gynhyrchu ar y cam Cynllun Adnau. Bydd hyn yn nodi'n glir y fethodoleg uchod a'r deilliannau o asesiad tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

### Y Fenni yn cynnwys Llan-ffwyst

A.5.9 Caiff y Fenni ei ddynodi fel Prif Anheddiad yn hierarchaeth aneddiadau y CDLlN. Mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar y rheilffordd a bws i Gwmbrân, Casnewydd, Caerdydd a Chanolbarth Lloegr, a chysylltiadau ffordd i Gwmbrân, Casnewydd, Trefynwy a'r system draffyrdd. Mae ganddi rôl strategol neilltuol o bwysig ar ffordd Blaenau'r Cymoedd drwy ei chysylltiadau i Aberhonddu, Canolbarth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach. Mae'r A465 yn gwahanu'r dref o Llan-ffwyst i'r de ac mae'n diffinio'n rhannol ymyl y dref i'r dwyrain. Mae'r ardal drefol i'r gogledd a'r gorllewin yn ymestyn yn agos at ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae Llan-ffwyst yn cydffinio â Safle Treftadaeth Byd Blaenafon.

A.5.10 Mae cyfleusterau a gwasanaethau yn cael sgôr dda o fewn y gwerthusiad cynaliadwyedd, gan fod gan ganol y dref nifer cymharol fawr ac amrywiaeth o siopau a bwytai, theatr, sinema ac amgueddfa, ac mae'n ffocws bywiog ar gyfer yr ardal o amgylch. Mae hefyd yn un o'r aneddiadau mwyaf hunanddigonol yn nhermau cyflogaeth gydag amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth o fewn y dref.

A.5.11 Mae nifer o ffactorau yn cyfyngu ar dwf y dref yn y dyfodol. Mae sensitifrwydd tirwedd sir Fynwy i ddatblygiad preswyl [73] yn uchel ac yn uchel/canolig gydag ardal o

[73] Gweithredwyd methodoleg safonol yn ymwneud â sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiad tai ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol yn Astudiaeth Diweddariad Sensitifrwydd Tirwedd Hydref 2020.

sensitifrwydd canolig i dde Llan-ffwyst.[74] Mae'r ardaloedd yn union i'r gogledd a'r gorllewin o'r dref yn cydffinio â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae canol y dref ei hun yn Ardal Cadwraeth. Mae gorlifdir yr Afon Wysg yn gyfyngiad pellach ar ddatblygiad i dde'r dref ac mewn rhannau o Lan-ffwyst.

A.5.12 Mae'r Fenni o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg. Bydd angen i ddyraniad Safle Strategol felly ddangos niwtraliaeth neu wella o ran ffosffadau yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i'r corff dŵr. Mae Dŵr Cymru wedi dynodi datrysiad strategol i'w weithredu yn ystod AMP7 (erbyn 2025).

### Dwyrain y Fenni

A.5.13 Byddai datblygiad yma'n ehangu ardal adeiledig y dref tu hwnt i'r A465 sydd ar hyn o bryd yn ffurfio terfyn datblygu caled i'r dref. Mae'r safle yn ffurfio estyniad trefol yn y Fenni ac mae'n rhoi cyfle i ddarparu datblygiad defnydd cymysg, yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau preswyl ynghyd â defnyddiau cyflogaeth/masnachol, cyfleusterau a gwasanaethau.

A.5.14 Gan roi ystyriaeth i'r oedi gyda'r CDLlN, yr amser oedd ei angen i agor y safle (yn cynnwys darparu seilwaith sylweddol sef pont droedffordd a seiclo dros yr A465 a rheilffordd) a chyfradd cwblhau realistig, mae maint y safle ymgeisiol yn golygu y byddai datblygiad yn ymestyn tu hwnt i gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, gallai ei ddyraniad fod yn ddefnyddiol wrth ddynodi cyfeiriad hirdymor twf ar gyfer y dref. Mae'r potensial tymor hirach hwn yn fanteisiol. Mae agosatrwydd yr ardal at orsaf reilffordd y Fenni yn cynnig buddion sylweddol i gynyddu cyfleoedd ar gyfer newid i ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth ac mae'n cynnig cyfle ar gyfer datblygiad gyda chyfeiriad tramwy. Mae'r safle o fewn tua 16 munud ar droed o ganol y dref. Byddai angen mynediad i gerbydau o gefnffordd yr A465. Mae gan y safle botensial i gynnig cyfleusterau parcio a theithio ar gyfer gorsaf reilffordd y Fenni, gan helpu i drin problem bresennol a chefnogi newid dulliau trafnidiaeth yn y dyfodol wrth ochr y cynnydd yn amlder trenau a gynigir fel rhan o gynigion Metro De Cymru.

A.5.15 Caiff y tir ei gategoreiddio fel bod â sensitifrwydd tirwedd uchel/canolig i ddatblygiad preswyl yn y Diweddariad Sensitifrwydd Tirwedd[75]. Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys lleoliad yr ardal mewn ardal o dir amaethyddol tybiedig gradd 2/3a. Yng nghyswllt statws y tir amaethyddol o amgylch y Fenni a Llan-ffwyst, byddai angen ystyried os y byddai datblygu'r safle hwn ar dir amaethyddol 'lleiaf gwael' wrth ystyried y dilyniant chwilio a argymhellir yn PCC11 gan fod y rhan fwy o dir o amgylch y Fenni un ai o statws tir gorau a mwyaf aml-bwrpas neu o fewn gorlifdir. Bydd angen

[74] Astudiaeth Diweddaru Sensitifrwydd Tirwedd Sir Fynwy: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/candidate-sites/landscape-sensitivity-study/
[75] Diweddariad Sensitifrwydd tirwedd Sir Fynwy– Hydref 2020: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/candidate-sites/landscape-sensitivity-study/

i ddatblygiad ddangos niwtraliaeth neu wella o ran ffosffadau yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i gorff dŵr dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg.

### Cas-gwent

A.5.16 Dynodir Cas-gwent fel Prif Anheddiad yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLlN. Mae Cas-gwent mewn safle da ar goridor yr M4 wrth y porth i Gymru i fanteisio ar gysylltiadau ffordd a rheilffordd strategol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a De Orllewin Lloegr a chyfleoedd economaidd cysylltiedig.

A.5.17 Mae cyfleusterau a gwasanaethau yn cael sgôr da o fewn yr asesiad cynaliadwyedd, gan fod gan ganol y dref nifer cymharol fawr ac amrywiaeth dda o siopau a bwytai ac mae'n ffocws bywiog ar gyfer yr ardal o amgylch. Mae'r dref hefyd yn un o brif ganolfannau cyflogaeth o fewn y Sir. Mae gan Gas-gwent ystod da o safleoedd cyflogaeth o fewn y dref gyda'r fwyaf yn Stad Ddiwydiannol Newhouse Farm i dde'r dref ar gyffordd y drafford gyda'r M48.

A.5.18 Fodd bynnag, mae ystod o ddynodiadau amgylcheddol a threftadaeth lleol a chenedlaethol a'i lleoliad ar yr Afon Gwy a'r gororau gyda Lloegr yn cyfyngu'n drwm ar dwf y dref yn y dyfodol. Mae sensitifrwydd tirlun Cas-gwent i ddatblygiad preswyl yn uchel ac yn uchel/canolig i'r gogledd a de Cas-gwent gyda sensitifrwydd canolig wedi'i gofnodi ar gyfer ardal o dir i orllewin Cas-gwent, fodd bynnag mae cyfyngiadau eraill amrywiol i'r gorllewin. Mae'r ardal yn union i'r gogledd o'r dref o fewn Ardal Harddwch Naturiol Dyffryn Gwy[76]. Mae rhai rhannau o'r canol hanesyddol yn manteisio o fesurau lliniaru llifogydd ond mae ardaloedd eraill sy'n agos at yr Afon Gwy yn parhau i fod mewn risg o lifogydd. Mae canol y dref ei hunan yn Ardal Cadwraeth. Ystyrir fod tir i orllewin yr A466 wedi'i ddiogelu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig gan bolisi "lletem las" i sicrhau gwahaniad ffisegol y dref o Bwllmeurig a Mathern. Caiff dynodiadau lletem las cyfredol eu hadolygu fel rhan o broses y CDLlN. I dde'r A48, mae'r tir na chafodd ei ddatblygu hefyd o fewn Ardal Cadwraeth ac, yn rhannol, o fewn Parc a Gardd Hanesyddol dynodedig.

A.5.19 Mae materion gyda chapasiti priffyrdd y bydd angen eu trin fel rhan o unrhyw gynigion datblygu yn y dyfodol. Dynodwyd adran o'r A48 ar Rhiw Hardwick fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer; mae cefnffordd yr A48 yn pasio drwy'r dref ac yn brif ddolen rhwng rhan ddeheuol Coedwig y Ddena a'r rhwydwaith traffyrdd, yn cynnwys y prif lwybr o rannau o Swydd Gaerloyw i Fryste dros Bont Hafren. Ymatebodd Cyngor Sir Fynwy i Gyngor Fforest y Ddena yn ddiweddar yn mynegi pryderon am effeithiau posibl y twf arfaethedig yn y Goedwig heb fuddsoddiad addas mewn gwelliannau trafnidiaeth.

A.5.20 Mae Polisi 34 Cymru'r Dyfodol – Lleiniau Glas yn y De Ddwyrain yn dangos llain las ar dir i ogledd Cas-gwent. Wrth asesu Safleoedd Ymgeisiol a'u perthynas gyda Pholisi 34 Cymru'r Dyfodol rhoddwyd ystyriaeth i baragraff 3.72 PCC11 sy'n dweud, wrth ystyried dynodiad llain las, y dylid sicrhau ystod digonol o dir datblygu mewn lleoliad addas yng

[76] Astudiaeth Diweddaru Sensitifrwydd Tirwedd Sir Fynwy: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/candidate-sites/landscape-sensitivity-study/

nghyswllt yr ymyl drefol bresennol gan roi ystyriaeth i'r angen hirdymor am dir datblygu, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd tu hwnt i'r llain las a'r angen i leihau'r galw am deithio. Gall hyn olygu fod yn rhaid diogelu tir a rhaid diffinio ffiniau lleiniau glas arfaethedig yn ofalus i gyflawni hyn. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn drwy broses y Cynllun Datblygu Strategol.

### Bayfield, Cas-gwent

A 5.21 Byddai datblygu yma yn ehangu'r ardal adeiledig bresennol i'r gorllewin o'r A466, i'r de o heol Brynbuga (B4235). Mae'r safle yn cydffinio â'r Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol ac yn agos at Gae Ras Cas-gwent. Mae PCC11 yn rhoi statws cyfartal i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd Harddwch Naturiol Eithriadol yn nhermau harddwch tirwedd a golygfeydd ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau gael yr un statws gwarchodaeth rhag datblygiadau amhriodol. Byddai angen cynllunio datblygiad yn y lleoliad hwn yn ofalus i sicrhau fod unrhyw effeithiau ar safle'r Awdurdod Harddwch Naturiol Eithriadol yn dderbyniol. Caiff y tir ei gategoreiddio fel bod o sensitifrwydd tirlun canolig i ddatblygiad preswyl[77].

A.5.22 Mae'r safle tua milltir neu tua 20 munud ar droed o ganol y dref a hanner milltir (tua 9 munud ar droed) o Ysgol Gyfun a Chanolfan Hamdden Cas-gwent. Fel yr amlinellir uchod, bydd angen ystyriaeth ofalus am effaith gronnus datblygiad ar yr A466, A48 a chylchfan Highbeech er y nodir nad yw Llywodraeth Cymru (fel asiantaeth cefnffyrdd) wedi gwrthwynebu cais cynllunio cyfredol ar y tir hwn.

A.5.23 Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys lleoliad yr ardal mewn ardal o dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas gradd 2. Yng nghyswllt statws y tir amaethyddol o amgylch Cas-gwent, ystyrid y byddai datblygu ar yr ardal hon yn dir amaethyddol "lleiaf gwael" wrth ystyried y dilyniant chwilio a argymhellir yn PCC11 gan fod y rhan fwyaf o'r tir dan ystyriaeth o statws tir gorau a mwyaf amlbwrpas. Yn ychwanegol, bydd ystyriaethau eraill yn cynnwys ei leoliad yn yr ardal gwarchod mwynau calchfaen.

### Cil-y-coed (yn cynnwys ardal Glannau Hafren)

A.5.24 Mae gan Brif Anheddiad Cil-y-coed gysylltiadau daearyddol a thrafniadaeth swyddogaethol gydag aneddiadau Magwyr, Gwndy, Rogiet, Caerwent, Porthysgewin a Crug, yr ystyrir eu bod gyda'i gilydd yn rhannu nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i lunio grŵp dynodadwy Glannau Hafren. Mae gan ardal Glannau Hafren rôl bwysig fel y 'Porth i Gymru' gyda'r ardal yn union wrth ymyl croesiad Ail Bont Hafren (Pont Tywysog Cymru) ac yn ei gyfanrwydd mewn safle da ar gyfer marchnadoedd cyflogaeth cyfagos Casnewydd, Caerdydd a Bryste. Mae cysylltiadau rheilffordd allweddol i'r marchnadoedd cyflogaeth hyn gyda gorsafoedd yng Nghyffordd Twnnel Hafren a Chil-y-coed yn cysylltu gydag aneddiadau allweddol

[77] Sensitifrwydd Tirwedd Sir Fynwy – Hydref 2022: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/candidate-sites/landscape-sensitivity-study/

Caerdydd yn y gorllewin a Bryste/Cheltenham/Canolbarth Lloegr yn y dwyrain, gyda gwelliannau wedi eu hargymell yng Nghynllun Argymhelliad Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (Tachwedd 2020). Mae hefyd gysylltiadau ffordd da gyda thraffyrdd yr M4 a'r M48, gyda chyffordd yr M4 ym Magwyr a Gwndy. Mae'r A48 hefyd yn rhedeg ar draws gogledd ardal Glannau Hafren gan gysylltu aneddiadau ar hyd yr A48 gydag yng Nghasnewydd yn y gorllewin, a Chas-gwent i'r dwyrain.

A.5.25 Mae gorlifdir ar dir i dde aneddiadau Cil-y-coed, Magwyr a Gwndy, Rogiet a Phorthysgewin yn cyfyngu ar dwf ardal Glannau Hafren yn y dyfodol. I'r de o'r aneddiadau hyn hefyd mae gwastadeddau Gwent sydd o sensitifrwydd hanesyddol ac archeolegol, a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ymhellach, mae dynodiadau amgylcheddol sylweddol ar yr ardal tu hwnt i Aber yr Hafren, yn cynnwys Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig yn ogystal ag Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig a safle Ramsar (gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol). Mae rhan fawr o ardal Glannau Hafren hefyd wedi ei leoli mewn Ardal Diogelu Mwynau Calchfaen.

A.5.26 Yn ychwanegol at y rhain mae Polisi 34 Cymru'r Dyfodol – Lleiniau Glas yn y De Ddwyrain yn dangos llain las i ogledd yr M48[78] o fewn ardal Glannau Hafren. Wrth asesu safleoedd ymgeisiol â'u perthynas gyda Pholisi 34 Cymru'r Dyfodol rhoddwyd ystyriaeth i baragraff 3.72 Polisi Cynllunio Cymru 11 sy'n dweud, wrth ystyried dynodiad llain las, y dylai ystod digonol o dir datblygu fod ar gael sydd mewn lleoliad addas yng nghyswllt yr ymyl trefol presennol, gan roi ystyriaeth i'r angen tymor hirach am dir datblygu, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd tu hwnt i'r llain las a'r angen i leihau'r galw am deithio. Gall hyn olygu fod angen diogelu tir ac mae'n rhaid diffinio ffiniau lleiniau glas a gynigir yn ofalus i gyflawni hyn. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn drwy broses y Cynllun Datblygu Strategol.

### Cil-y-coed

A.5.27 Mae Cil-y-coed yn cael sgôr pwysedig uchel o ran cynaliadwyedd o fewn y gwerthusiad aneddiadau. Hi sydd â'r arwynebedd ffisegol trefol a'r boblogaeth fwyaf yng nghlwstwr Glannau Hafren. Mae dwy orsaf reilffordd yn gwasanaethu Cil-y-coed: mae gorsaf Cil-y-coed ar reilffordd Cas-gwent/Caerloyw ac mae Cyffordd Twnnel Hafren hefyd ar reilffordd Llundain i Gaerfyrddin. Mae mewn safle da ar y rhwydwaith ffyrdd gyda'r M4 i'r de o'r anheddiad, a'r M48 yn rhedeg yn gyfochrog i ogledd yr anheddiad, er fod y gyffordd ar hyn o bryd yn Magwyr ar gyfer yr M4 ac yng Nghas-gwent ar gyfer yr M48. Caiff Cil-y-coed ei gwasanaethu gan ganol tref, lle mae adfywio'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac mae ganddi nifer fawr o gyfleusterau addysgol. Mae Stad Ddiwydiannol Glannau Hafren a Pharc Busnes Castlegate i ddwyrain yr anheddiad, gan fod yn sylfaen cyflogaeth sylweddol ac mae'n cydffinio â phentref cyfagos Porthysgewin. I orllewin yr anheddiad mae tir a gaiff ei warchod gan 'letem las' yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig, sydd yn ei le i wahanu Cil-y-coed o bentref

[78] Mae llythyr gweinidogol gan Julie James AC, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol dyddiedig 11/10/2019 yn dweud bod yr M4 a'r M48 yn rhoi ffin deheuol rhesymegol, cadarn ac y gellir ei amddiffyn ar gyfer y llain las.

cyfagos Rogiet. Caiff dynodiadau lletem las eu hadolygu fel rhan o sylfaen tystiolaeth y Cynllun Adnau. Caiff y tir i dde'r anheddiad ei gyfyngu gan orlifdir. Bu twf mewn blynyddoedd diweddar i ogledd ddwyrain yr anheddiad.

### Dwyrain Cil-y-coed

A.5.28 Byddai datblygiad yma'n ymestyn anheddiad Cil-y-coed i'r gogledd ddwyrain, tuag at anheddiad Crug ac yn agos at safle Heol Crug, Porthysgewin sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Mae'r safle i ogledd Parc Gwledig Cantell Cil-y-coed, ardal cadwraeth ac ardal a ddynodwyd ar hyn o bryd fel Ardal o Bwysigrwydd Amwynder dan y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Mae rhan fach o'r safle ymgeisiol ger yr hen reilffordd mewn gorlifdir, ac ni chaniateir datblygiad adeiledig o fewn rhan hon y safle. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi prynu'r hen lein reilffordd yn ddiweddar a chaiff ei throi yn llwybr teithio llesol, gan gynnig budd sylweddol yn nhermau newid dull trafnidiaeth a darpariaeth hamdden. Mae rhan o'r safle yn cynnwys canolfan farchogaeth fasnachol, gyda llawer o'r gweddill yn dir y mae'r Cyngor yn berchen arno. Mae polisi Cymru'r Dyfodol 2040 yn annog cynnwys tir cyhoeddus addas.

A.5.29 Gan roi ystyriaeth i'r oedi gyda'r CDLlN, yr amser sydd ei angen i agor safleoedd a chyfradd cwblhau realistig, mae maint y safleoedd ymgeisiol yn golygu y byddai datblygu yn ymestyn tu hwnt i gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, gallai ei ddyrannu fod o gymorth wrth ddynodi cyfeiriad hirdymor twf ar gyfer y tref. Mae'r potensial tymor hwy hwn yn fanteisiol.

A.5.30 Mae sensitifrwydd tirlun i ddatblygiad preswyl yn uchel/canolig[79]. Yn nhermau tir amaethyddol, caiff yr ardal ei dynodi fel tir gorau a mwyaf amlbwrpas gradd 1 dangosol, sef y radd ddangosol uchaf o dir amaethyddol[80]. Yn nhermau pellter o ganol tref Cil-y-coed, mae ychydig dan filltir (o ganol yr ardal dwf) a phellter cerdded o tua 14 munud. Mae rhan o'r safle o fewn ardal ddiogelu mwynau calchfaen.

---

[79] Diweddariad Sensitifrwydd Tirlun Sir Fynwy – Hydref 2020: https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/candidate-sites/landscape-sensitivity-study/

[80] Caiff tir amaethyddol o amgylch Cil-y-coed ei ddynodi ar hyn o bryd fel tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas gradd 1 ar y map dangosol, fodd bynnag mae'r graddau hyn yn debyg o newid yn diliyn arolygon manwl.

## Atodiad 6 – Elfennau Cyflenwad Tai

### Elfennau Cyflenwad Tir Tai

A.6.1 Caiff darpariaeth 5,940 o gartrefi ei ddarparu drwy nifer o wahanol elfennau cyflenwad tir tai. Mae disgrifiad manwl o bob elfen yn y Papur Cefndir Tai[81], gyda chrynodeb byr isod.

A.6.2 Mae'r cyflenwad tir tai/cronfa dir yn cynnwys:

- Ymrwymiadau presennol h.y. anheddau a gwblhawyd yn ystod pedair blynedd gyntaf cyfnod y Cynllun (2018 – 2022), a safleoedd sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd neu safleoedd gyda chaniatâd cynllunio fel ar 1 Ebrill 2022 a gânt yn realistig eu cyflawni a 'dyraniadau treigl' y Cynllun Datblygu Lleol lle nad oes gan y safle ganiatâd cynllunio ond y medrir dangos cynnydd.
- Lwfansau h.y. lwfans safle bach (1-9 annedd) a lwfans ar hap (10+ annedd). Caiff manylion lle gallai safleoedd ar hap ddod o bosib eu nodi mewn Astudiaeth Potensial Tai. Mae ffynonellau posibl yn cynnwys cynlluniau adfywio posibl o fewn aneddiadau a chartrefi gwag a lloriau uchaf mewn canol trefi.

A.6.3 Unwaith y rhoddwyd ystyriaeth i ymrwymiadau presennol cyflenwad tir a lwfansau ar gyfer safleoedd hap/mewnlenwi, bydd angen i'r CDLlN wneud darpariaeth ar gyfer dyraniadau safle newydd i gyflenwi 2,200[82] cartref yn ychwanegol i'r ymrwymiadau presennol. Caiff safleoedd eu dyrannu i gyflenwi'r gofyniad gweddilliol hwn gyda ffocws twf yn ein aneddiadau mwyaf cynaliadwy sef y Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed yn cynnwys Glannau Hafren, yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy a nodir ym Mholisi S2.

A.6.4 Mae tabl cydbwysedd tai dangosol isod ac mae'n dangos sut y caiff ffigur darpariaeth tai y Cynllun ei ddiwallu drwy gyfuniad o ymrwymiadau, aneddiadau a gwblhawyd hyd yma, lwfansau ar gyfer safleoedd bach a safleoedd ar hap, a dyraniadau newydd. Dangosol yw hyn a chaiff ei fireinio wrth i'r Cynllun fynd yn ei flaen.

---

[81] Papur Cefndir Tai https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/development-of-an-evidence-base/

[82] Mae ffigur dyraniadau safle newydd yn rhoi ystyriaeth i aneddiadau a gwblhawyd a lwfansau safleoedd ar hap a safleoedd bach fel ar 01/04/2022 a gweithredu lwfans hyblygrwydd 10%. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn y Papur Cefndir Tai yn https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/development-of-an-evidence-base/

**Tabl 7: Dadansoddiad Cyflenwad Tai**

| Elfen | Nifer Cartrefi | Nodiadau |
|---|---|---|
| **Darpariaeth Tai** | **5,940** | Gofyniad tai dan Strategaeth a Ffefrir y CDLlN ar gyfer 2018-2-33 2018-2033 = 5,400 + 10% lwfans hyblygrwydd, i'w ystyried ymhellach yn y Cynllun Adnau. |
| **Llai Ymrwymiadau:** | | |
| Anheddau a gwblhawyd 2018-2022 | 1,579 | 1,265 annedd ar safleoedd mawr a 314 annedd ar safleoedd bach |
| Ymrwymiadau Presennol Cyflenwad Tir | 1,261 | Dim ond os yw adeiladu eisoes yn mynd rhagddo y cafodd safleoedd eu cynnwys neu os oes ganddynt ganiatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio yn amodol ar lofnodi cytundeb A106 fel ar 01/04/22, ac y disgwylir iddynt ddod ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun. Ni chafodd y safleoedd hyn eu cynnwys yn yr elfen hon o gyflenwad oherwydd diffyg cyflenwi * |
| **Llai Dyraniadau:** | | |
| 'Dyraniadau Treigl' y Cynllun Datblygu Lleol | 0 | Mae Dyraniadau Treigl yn ddyraniadau safle mwy Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig nad ydynt yn manteisio o ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd. Mae 3 safle sy'n cyflawni'r diffiniad hwn, fodd bynnag ni ellir symud ymlaen gyda'r safleoedd hyn oherwydd materion ffosffadau ac nid ydynt yn gydnaws gyda'r Strategaeth Ofodol newydd, gan fod wedi eu lleoli yn rhannau uchaf dalgylch yr Afon Gwy. * |
| **Darpariaeth Ddiwygiedig** | **3,100** | |
| **Llai Lwfansau:** | | |
| Lwfans ar Hap (>10 cartref) | 210 | Mae'r lwfans ar hap yn seiliedig ar nifer y cartrefi yr amcangyfrifir y gellid eu cyflawni ar safleoedd a gynhwysir o fewn yr Astudiaeth Potensial Tai. Mae hyn yn eithrio unrhyw aneddiadau o fewn rhannau uchaf dalgylch yr Afon Gwy. Caiff lwfans o 210 cartref (35 cartref y flwyddyn) ei gynnwys ar gyfer 6 mlynedd olaf cyfnod y Cynllun (2027 – 2033). |

| Elfen | Nifer Cartrefi | Nodiadau |
|---|---|---|
| | | Caiff safleoedd ar hap ar gyfer 4 blynedd cyntaf cyfnod y cynllun (2018-2022) eu cynnwys o fewn yr ymrwymiadau presennol. Caiff safloedd ar hap gyda chaniatâd cyfredol eu cynnwys o fewn yr ymrwymiadau presennol. I osgoi cyfrif ddwywaith, caiff 5 mlynedd cyntaf gweddill cyfnod y Cynllun eu heithrio o'r cyfrifiad (2022 – 2027). |
| Lwfans Safleoedd Bach (<10 cartref) | 690 | Os caiff y lwfans safle bach ei gyfrif ar sail y 11 mlynedd sydd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun (2022-2033), byddai angen cynnwys lwfans o 902 cartref (82 cartref y flwyddyn) yn seiliedig ar gyfartaledd yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bach dros y 10 mlynedd diwethaf (2012-2022).<br><br>Oherwydd effaith ffosffadau ar allu safleoedd bach i ddod ymlaen mewn aneddiadau yn nalgylch uchaf yr Afon Gwy, os caiff rhai eu heithrio o'r gyfradd allosod ar gyfer y dyfodol mae hyn yn rhoi lwfans o 720 cartref (65 cartref y flwyddyn) ar safleoedd bach.<br><br>Yn dilyn gwerthusiad o gyfleoedd safle bach, cafodd y lwfans ar gyfer safleoedd o lai na 5 cartref mewn aneddiadau gwledig ei ostwng gan 20%*. Mae hyn yn rhoi lwfans safle bach o 690 cartref (63 cartref bob blwyddyn |
| | | |
| **Cyfanswm Darpariaeth Dyraniadau Newydd** | **2,200** | |

*Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Papur Cefndir Tai (Rhagfyr 2022)

## Atodiad 7 – Adolygiad o Bolisïau Cynlluniau Datblygu Lleol Mabwysiedig

Diben yr asesiad hwn yw dynodi os yw polisïau Rheoli Datblygu y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig yn gweithredu'n effeithlon os yw'n debygol y bydd angen unrhyw newidiadau ac os yw'n briodol symud ymlaen â'r polisïau yn y CDLlN. Dylid ei drin fel dangosol ar y cam hwn gan y gall tystiolaeth newydd, canllawiau neu ffactorau lleol ddod i'r amlwg wrth i broses y Cynllun symud ymlaen i gyfiawnhau dull gweithredu gwahanol i'r un a nodir islaw. Bydd hefyd angen ailgrwpio/aildrefnu y polisïau i adlewyrchu'r themâu strategol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 ac adran Polisïau Strategol y CDLlN. Caiff yr asesiad ei amlinellu yn y tabl islaw.

| | |
|---|---|
| (gwyrdd tywyll) | Caiff y polisi rheoli datblygu ei gario ymlaen efallai gyda mân ddiwygiadau. |
| (gwyrdd golau) | Caiff y polisi rheoli datblygu ei gario ymlaen fel polisi rheoli Datblygu gyda diwygiadau i adlewyrchu tystiolaeth wedi ei diweddaru, canllawiau polisi cenedlaethol wedi'u diweddaru neu sylwadau gan y Gweithgor Swyddogion. |
| (coch) | Rhoddir ystyriaeth i ddileu'r polisi naill yn ei gyfanrwydd neu drwy gyfuno/cynnwys yr amcan polisi gyda pholisi arall. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| H1 | Datblygiad Preswyl yn y Prif Drefi, Aneddiadau Glannau Hafren ac Aneddiadau Eilaidd Gwledig | Gweithio yn effeithlon – angen mân ddiwygiad i gyfeirio at y Polisi Strategol cywir a diwygiadau i enw hierarchaeth aneddiadau | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| H2 | Datblygiad Preswyl mewn Prif Bentrefi | Gweithio yn effeithlon – angen mân ddiwygiad i gyfeirio at y Polisi Strategol cywir a diwygio enwau hierarchaeth aneddiadau | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn CDLlN |
| H3 | Datblygiad Preswyl mewn Mân Bentrefi | Mae prif fyrdwn y polisi yn gweithio'n effeithlon – mae angen diwygiadau mewn ymateb i sylwadau Gweithgor Swyddogion* yn cyfeirio at uchafswm o 4 annedd, ynghyd â diwygio enwau hierarchaeth aneddiadau. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| H4 | Addasu/Adsefydlu adeiladau mewn cefn gwlad agored ar gyfer defnydd preswyl | Angen diwygiadau mewn ymateb i sylwadau'r Gweithgor Swyddogion i wella eglurdeb. Rhoddir eglurdeb bellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig ar Addasu Adeiladau Gwledig i Ddefnydd Preswyl neu Dwristiaeth, a gaiff ei ddiwygio fel bo angen a'i ailfabwysiadu i gyd-fynd â'r CDLlN. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. |
| H5 | Anheddau yn lle rhai presennol mewn cefn gwlad agored | Angen diwygiadau i ymateb i sylwadau'r Gweithgor Swyddogion. Rhoddir mwy o eglurdeb ym mholisïau H5 a H6 y CDLlN ar y Canllawiau Cynllunio Atodol ar anheddau yn mewn cefn gwlad agored i gyd-fynd â'r CDLlN. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. |
| H6 | Estyniadau i anheddau gwledig | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Mae mwy o eglurdeb ym mholisïau H5 a H6 y Cynllun Datblygu Newydd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol ar anheddau yn lle rhai presennol mewn cefn gwlad agored a gaiff eu diwygio a'u hail fabwysiadu i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| H7 | Eithriadau Tai Gwledig Fforddiadwy | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Mae angen diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a chanllawiau PCC11 ar safle Eithriad Tai Fforddiadwy yn bod o fewn neu'n cydffinio â ffiniau aneddiadau presennol. Byddai'r newidiadau hyn yn ehangu cwmpas y polisi. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a chanllawiau polisi cenedlaethol. |
| H8 | Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Sioemyn Teithiol. | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlNgyda mân ddiwygiadau. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| | | Gweithgor Swyddogion ac i fod yn gydnaws gyda chanllawiau cenedlaethol. | |
| H9 | Addasu fflatiau | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |
| CRF1 | Cadw cyfleusterau cymunedol presennol | Angen diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. |
| CRF2 | Hamdden awyr agored/ mannau agored i'r cyhoedd a safonau rhandiroedd | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol wedi ei ddiweddaru ar safonau a sylwadau Gweithgor Swyddogion. Mae safonau Caeau mewn Ymddiriedolaeth yn cael eu hadolygu'n genedlaethol ar hyn o bryd. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i'r safonau. |
| CRF3 | Diogelu cyfleusterau hamdden presennol a gofodau agored i'r cyhoedd. | Polisi yn gweithio yn effeithlon. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| RET1 | Prif ffryntiadau siopa | Egwyddor y polisi yn parhau'n berthnasol. Gall fod angen diwygiadau i drothwyon polisi a phrif ffryntiadau siopa i adlewyrchu tystiolaeth, polisi cynllunio cenedlaethol wedi ei ddiweddaru a sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu diweddaru tystiolaeth. |
| RET2 | Ardaloedd siopa canolog | Egwyddor y polisi yn parhau'n berthnasol. Gall fod angen diwygiadau i eiriad y polisi a ffiniau ardaloedd siopa canolog i adlewyrchu tystiolaeth, polisi cynllunio cenedlaethol wedi ei ddiweddaru a sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu diweddaru tystiolaeth. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| RET3 | Canolfannau cymdogaeth | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli Datblygu yn y CDLlN gyda mân newidiadau. |
| RET4 | Cynigion manwerthu newydd | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu diweddaru polisi cenedlaethol a sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân newidiadau. |
| E1 | Gwarchod tir cyflogaeth presennol | Egwyddor y polisi yn parhau'n berthnasol. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu canfyddiadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth a sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu diweddaru tystiolaeth. |
| E2 | Safleoedd cyflogaeth heb eu dyrannu | Angen diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a chyfyngiadau'r polisi cyfredol i un defnyddiwr yn unig neu gyflogwyr mawr. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau. |
| E3 | Gweithio gartref | Dileu'r polisi gan yr ystyrir nad oes ei angen ac y caiff ei gynnwys yn ddigonol gan bolisïau eraill. | Dileu'r polisi o'r CDLlN. |
| RE1 | Cyflogaeth o fewn pentrefi | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu canfyddiadau y Gwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy a chanfyddiadau sylwadau'r Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân newidiadau i adlewyrchu diweddaru tystiolaeth. |
| RE2 | Addasu/adsefydlu adeiladau mewn cefn gwlad agored ar gyfer defnydd cyflogaeth | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |
| RE3 | Arallgyfeirio amaethyddol | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân newidiadau. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| RE4 | Adeiladau amaethyddol a choedwigaeth newydd. | Polisi yn gweithio yn effeithlon. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| RE5 | Da byw dwys ac unedau dofednod pori yn rhydd | Angen diwygiadau i adlewyrchu materion ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru a nodir yn llythyr y Prif Swyddog Cynllunio ar 12 Mehefin 2018 | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu materion ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, sylwadau Gweithgor Swyddogion a'r canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf. |
| RE6 | Darparu cyfleusterau hamdden a thwristiaeth mewn cefn gwlad agored | Angen diwygiadau i adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf a sylwadau Gweithgor Swyddogion i drin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y cyn Bwyllgor Dethol Economi a Datblygu y ceisiodd y Canllawiau Cynllunio ar Dwristiaeth Gynaliadwy eu datrys. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a'r canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf a thrin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu y ceisiodd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth Cynaliadwy eu datrys. |
| T1 | Safleoedd carafanau teithio a gwersylla pabell | Angen diwygiadau i adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf a sylwadau'r Gweithgor Swyddogion a diwygiadau i drin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y cyn Bwyllgor Dethol Economi a Datblygu y ceisiodd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth Cynaliadwy eu datrys. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a'r canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf a thrin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu y ceisiodd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth Cynaliadwy eu datrys. |
| T2 | Llety i ymwelwyr y tu allan i aneddiadau | Angen diwygiadau i adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf a sylwadau'r Gweithgor Swyddogion a diwygiadau i drin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y cyn Bwyllgor Dethol Economi a Datblygu y ceisiodd y | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a'r canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf a thrin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu y |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| | | Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth Cynaliadwy eu datrys. | ceisiodd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth Cynaliadwy eu datrys. |
| T3 | Cyrsiau golff | Angen diwygiadau i adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf a sylwadau'r Gweithgor Swyddogion a diwygiadau i drin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y cyn Bwyllgor Dethol Economi a Datblygu y ceisiodd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth Cynaliadwy eu datrys. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion a'r canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf a thrin y diffyg eglurdeb a ddynodwyd gan y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu y ceisiodd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dwristiaeth Cynaliadwy eu datrys. |
| SD1 | Ynni adnewyddadwy | Polisi yn gweithio'n effeithlon. Bydd angen diwygiadau i adlewyrchu'r canllawiau diweddaraf ar bolisi cynllunio cenedlaethol a chanlyniad yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu'r canllawiau polisi cenedlaethol a thystiolaeth diweddaraf. |
| SD2 | Adeiladu cynaliadwy ac effeithiolrwydd ynni | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu'r canllawiau polisi cynllunio diweddaraf. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu newidiadau cyd-destun a'r canllawiau polisi cynllunio diweddaraf. |
| SD3 | Risg llifogydd | Adroddiad yr adolygiad yn argymell dileu'r polisi gan y daw ystyriaethau risg llifogydd o fewn polisi cynllunio cenedlaethol. | Dileu'r polisi o'r CDLlN |
| SD4 | Draeniad cynaliadwy | Mae'r polisi yn gweithio'n effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu canllawiau diweddaraf polisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth ar y mater. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu canllawiau diweddaraf polisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth. |
| LC1 | Datblygiadau adeiladu newydd mewn cefn gwlad agored. | Polisi yn gweithio'n effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |
| LC2 | Safle Tirlun Diwydiannol Treftadaeth Byd Blaenafon | Polisi yn gweithio'n effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| LC3 | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. | Polisi yn gweithio'n effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau |
| LC4 | Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy | Polisi yn gweithio'n effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion.. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau |
| LC5 | Gwarchod a gwella cymeriad tirlun | Polisi yn gweithio'n effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau |
| LC6 | Lletemau glas | Caiff y polisi hwn a ffiniau cysylltiedig eu diwygio fel sydd angen i adlewyrchu adolygiad o'r lletemau glas a gaiff ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y Cynllun Adnau i sicrhau fod cyfiawnhad dros ddynodiadau a'u bod yn gyson gyda'r canllawiau polisi diweddaraf. Bydd hefyd angen polisi ychwanegol ar wregys glas De Ddwyrain Cymru. | Caiff polisi a ffiniau cysylltiedig eu diwygio ac adlewyrchu adolygiad o Letemau Glas a'r canllawiau polisi cynllunio diweddaraf. |
| GI1 | Seilwaith Gwyrdd | Polisi yn gweithio'n effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf a sylwadau Gweithgor Swyddogion. Mae'r canllawiau cynllunio atodol ar y seilwaith gwyrdd mabwysiedig yn rhoi mwy o eglurdeb ar weithredu'r polisi a gaiff ei ddiwygio yn unol â hynny a'i ail fabwysiadu i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |
| NE1 | Cadwraeth natur a datblygu | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol, canllawiau polisi | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| | | cynllunio cenedlaethol a sylwadau Gweithgor Swyddogion. | |
| EP1 | Diogelu'r amgylchedd ac amwynderau | Polisi yn gweithio Yn effeithlon. Gall fod angen mân newidiadau i adlewyrchu'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf. | Cario ymlaen fel polisi Rheoli Datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau |
| EP2 | Gwarchod ffynonellau dŵr ac amgylchedd dŵr | Polisi yn gweithio yn effeithlon ac yn parhau i weithio'n dda yng nghyd-destun y mater sydd wedi codi'n ddiweddar am ffosffadau ac ansawdd dŵr. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu'r canllawiau polisi cynllunio diweddaraf. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau |
| EP3 | Goleuo | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân newidiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau |
| EP4 | Telathrebu | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân newidiadau i adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol a'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau |
| EP5 | Gwaredu â charthffosiaeth aflan | Caiff y polisi ei adolygu. Mae angen diwygiadau i adlewyrchu materion yn ymwneud â ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf a materion yn ymwneud â ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy. |
| W1 | Gostwng gwastraff | Gweithredu cyfyngedig. Mae'r adolygiad yn nodi ystyried os oes angen y polisi. Mae gan y polisi gysylltiad clir gydag amcanion economi gylchol. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ac agenda newid hinsawdd Cyngor Sir Fynwy. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i adlewyrchu cyd-destun a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| W2 | Cyfleusterau adfer gwastraff: Aelwydydd | Gweithredu cyfyngedig. Mae'r adolygiad yn nodi'r angen i ystyried os oes angen y polisi. Ystyrir bod egwyddor y polisi yn berthnasol ac angenrheidiol ond caiff ei gynnwys yn ddigonol yn nrafft Bolisi Strategol S15 – Rheolaeth Dŵr Cynaliadwy a nodir yn y Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2022). | Dileu'r polisi gan y caiff yr amcanion polisi eu trin yn nrafft Bolisi Strategol S15 – Rheolaeth Dŵr Cynaliadwy fel y nodir yn y Strategaeth a Ffefrir (Mehefin 2021). |
| W3 | Cyfleusterau rheoli gwastraff | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Angen diwygiadau i newid derbynioldeb cyffredinol cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd B2 i restri safleoedd penodol a gostwng cwmpas y polisi presennol. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda diwygiadau i newid derbynioldeb cyffredinol safleoedd diwydiannol B2 ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff gyda rhestr o safleoedd penodol a gostwng cwmpas y polisi presennol. |
| W4 | Compostio gwledig | Polisi yn gweithio yn effeithlon. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn  yCDLlN |
| W5 | Gwaredu â gwastraff drwy domen lanw neu godi tir | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân newidiadau i adlewyrchu canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| W6 | Gwaredu gwastraff ar dir amaethyddol ar gyfer dibenion gwella amgylcheddol. | Polisi yn gweithio yn effeithlon. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| M1 | Cerrig adeiladu a waliau lleol | Polisi yn gweithio yn effeithlon. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| M2 | Ardaloedd diogelu mwynau | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu canfyddiadau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol – 2il Ddiwygiad a Mapiau Diogelu Mwynau cysylltiedig. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda'r mân ddiwygiadau sydd eu hangen i adlewyrchu'r Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf – 2il Ddiwygiad. |
| M3 | Parthau clustog safleoedd mwynol | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu canfyddiadau'r | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda'r diwygiadau sydd eu hangen i adlewyrchu |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| | | Datganiad Technegol Rhanbarthol - 2[il] Ddiwygiad. Mae angen dileu parth clustog ar gyfer chwarel Livox yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio i barhau cloddio mwynau. | Datganiad Technegol Rhanbarthol 2[il] Ddiwygiadau a newidiadau mewn statws cynllunio. |
| MV1 | Datblygiadau arfaethedig ac ystyriaethau priffyrdd | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu canfyddiadau'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf a chynnwys elfennau o bolisi MV7 – Ardaloedd Mynediad o'r Cefn/Ardaloedd Gwasanaeth o'r Cefn, yr argymhellir ei ddileu. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda'r diwygiadau sydd eu hangen i adlewyrchu canllawiau'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf a chynnwys elfennau o bolisi MV7 – Mynediad o'r Cefn/Ardaloedd Gwasanaeth, y cynigir ei ddileu. |
| MV2 | Mynediad trafnidiaeth gynaliadwy | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda'r diwygiadau sydd eu hangen i adlewyrchu'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf. |
| MV3 | Hawliau tramwy cyhoeddus | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu Drafft Gynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad Sir Fynwy – Gorffennaf 2019. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN gyda mân newidiadau i adlewyrchu newidiadau cyd-destun. |
| MV4 | Llwybrau seiclo | Polisi yn gweithio yn effeithlon. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| MV5 | Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus | Defnydd cyfyngedig fu o'r polisi hyd yma ond mae'r egwyddorion yn parhau'n berthnasol. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y CDLlN |
| MV6 | Camlesi a llwybrau rheilffordd segur | Egwyddor y polisi yn parhau'n berthnasol, ond defnydd cyfyngedig fu. Rhoddir ystyriaeth i ddiwygiadau neu gyfuno gyda pholisi arall addas. | Cario yr egwyddor polisi ymlaen ond gan roi ystyriaeth i ddiwygiadau neu gyfuno gyda pholisi arall addas. |
| MV7 | Mynediad o'r cefn/ Ardaloedd gwasanaeth | Polisi yn gweithio yn effeithlon ond mae'n gyfyngedig o ran ei ddefnydd. Rhoddir | Ystyried dileu'r polisi gyda diwygiadau i Bolisi MV1 i sicrhau y caiff amcanion polisi eu trin. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| | | ystyriaeth i ddileu'r polisi a chynnwys ei amcanion ym Mholisi MV1. | |
| MV8 | Nwyddau rheilffordd | Polisi yn gweithio yn effeithlon ond mae'n gyfyngedig o ran ei ddefnydd. Rhoddir ystyriaeth i ddileu'r polisi a chynnwys ei amcanion mewn polisi arall yn ymwneud â symud. | Cario yr egwyddor polisi ymlaen ond gan roi ystyriaeth i gyfuno gyda pholisi arall addas. |
| MV9 | Hierarchaeth ffyrdd | Polisi yn gweithio yn effeithlon, ond mae'n gyfyngedig o ran ei ddefnydd. Rhoddir ystyriaeth i p'un ai oes dal i fod angen y polisi. | Ystyried dileu y polisi |
| MV10 | Llwybrau a chynlluniau trafnidiaeth | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diweddaru'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a'r Ddeddf Teithio Llesol a chynlluniau cysylltiedig yn cynnwys dileu'r cyfeiriad at lwybr gwarchodedig ffordd liniaru'r M4 a ffordd osgoi B4245 Magwyr/Gwndy. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu gyda diwygiadau i adlewyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth Leol diweddaraf a'r Ddeddf Teithio Llesol. |
| DES1 | Ystyriaethau dylunio cyffredinol | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Mae angen diwygiadau i adlewyrchu newidiadau mewn cyd-destun, y polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf, sylwadau gweithgor swyddogion ac ystyried awgrymiadau gan Gymdeithas Ddinesig y Fenni. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu gyda diwygiadau i adlewyrchu newidiadau mewn cyd-destun, y canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddar, sylwadau Gweithgor Swyddogion ac ystyried awgrymiadau gan Gymdeithas ddinesig y Fenni. |
| DES2 | Ardaloedd o Bwysigrwydd Amwynder | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Angen diwygiadau i adlewyrchu'r adolygiad o Ardaloedd o Bwysigrwydd Amwynder a gaff ei gwblhau mewn pryd ar gyfer y Cynllun Adnau, y canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar safonau cysylltiedig a newidiadau cysylltiedig i bolisi CRF2. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu gyda diwygiadau i adlewyrchu yr Arolwg Pwysigrwydd Ardaloedd Amwynder a'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf. |

| Polisïau Rheoli Datblygu Presennol | | Sylwebaeth | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| DES3 | Hysbysebion | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen diwygiadau i adlewyrchu sylwadau y Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd gyda diwygiadau a chyfuno gyda Pholisi DES4. |
| DES4 | Arwyddion twristiaeth ymlaen llaw | Polisi yn gweithio yn effeithlon ond dylid ei gyfuno gyda Pholisi DES3. | Uno gyda Pholisi DES3. |
| HE1** | Datblygu mewn ardaloedd cadwraeth | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli satblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |
| HE2** | Newidiadau i adeiladau heb eu rhestru mewn ardaloedd cadwraeth | Polisi yn gweithio yn effeithlon. Gall fod angen mân ddiwygiadau i adlewyrchu sylwadau'r Gweithgor Swyddogion. | Cario ymlaen fel polisi rheoli satblygu yn y CDLlN gyda mân ddiwygiadau. |
| HE3** | Dyluniad ffryntiadau siop mewn ardaloedd cadwraeth | Polisi yn gweithio'n effeithlon | Cario ymlaen fel polisi rheoli satblygu yn y CDLlN |
| HE4** | Tref Rufeinig Caerwent | Mae'r polisi yn gweithio'n effeithlon. | Cario ymlaen fel polisi rheoli satblygu yn y CDLlN |

*Mae trafodaethau'r Gweithgor Swyddogion yn cyfeirio at faterion a godwyd mewn cyfres o weithdai mewnol gyda swyddogion Cyngor Sir Fynwy yn trafod gwahanol feysydd pwnc. Cafodd canfyddiadau'r gweithdy eu bwydo i Adroddiad Adolygu'r CDLlN (Mawrth 2018), yn cynnwys Tabl 2: Adolygiad o Bolisïau Rheoli Datblygu.

**Polisïau amgylchedd hanesyddol i gael eu hadolygu ymhellach gan ystyried Deddf Amgylchedd Treftadaeth a'r angen am bolisïau newydd neu ddiwygiedig yn neilltuol yng nghyswllt adeiladau o ddiddordeb hanesyddol a thirweddau hanesyddol.